

# Gwarchod Coed a Choetiroedd yng Nghymru

AIDAC

Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

AIDAC IEPAW

**Cynnwys**


Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) ....................6

Crynodeb gweithredol .....................................................................7

**Argymhellion** ..................................................................... 14

**Tabl o acronymau** ..................................................................... 18

1 Diben yr adroddiad.....................................................................19

**1.1 Y dull gweithredu a fabwysiadwyd** ..................................................... 20

2 Cefndir .....................................................................22

2.1 Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru ..................................... 23

**2.2 Statws coed a choetiroedd yng Nghymru** ..................................................... 26

**2.3 Y dirwedd gyfreithiol** ..................................................... 29

**2.4 Diffiniadau** ..................................................... 30

3 Trwyddedau cwympo coed.....................................................................36

**3.1 Y Ddeddf Coedwigaeth** ..................................................... 36

3.2 Gofynion trwyddedu ..................................................... 38

**3.3 Gorfodi**..................................................... 39

3.4 Diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 .......................... 43

**3.5 Tystiolaeth am drwyddedau cwympo coed** ..................................................... 44

**3.6 Casgliadau AIDAC ynghylch trwyddedau cwympo coed** ................................. 55

**3.7 Argymhellion ynghylch trwyddedau cwympo coed**..................................... 59

4 Gorchmynion Cadw Coed .....................................................................61

**4.1 Fframwaith cyfreithiol yng nghyswllt Gorchmynion Cadw Coed** ..................... 61

**4.2 Gorchmynion Cadw Coed yng Nghymru**..................................................... 69

**4.3 Tystiolaeth am Orchmynion Cadw Coed** ..................................................... 70

**4.4 Newidiadau deddfwriaethol arfaethedig**..................................................... 78

**4.5 Casgliadau AIDAC ynghylch Gorchmynion Cadw Coed** ................................. 82

**4.6 Argymhellion ynghylch Gorchmynion Cadw Coed**..................................... 86

5 Coed a'r system gynllunio .....................................................................88

**5.1 Cynlluniau datblygu**..................................................... 88

**5.2 Penderfyniadau cynllunio**..................................................... 88

5.3 Amodau cynllunio ..................................................... 89

**5.4 Tystiolaeth ynghylch cynllunio** ..................................................... 90

**5.5 Newidiadau mewn polisi cynllunio** ..................................................... 95

**5.6 Casgliadau AIDAC ynghylch cynllunio** .......... 97

**5.7 Argymhellion ynghylch cynllunio** .......... 98

6 Edrych i'r dyfodol .......... 100

Atodiad 1 Cyflwyniadau .......... 105

**Y cyflwyniad 1af i AIDAC wedi'i olygu, a ddaeth i law ar 4 Mawrth 2021:** .......... 105

**Yr 2il gyflwyniad i AIDAC wedi'i olygu, a ddaeth i law ar 11 Mai 2021:** .......... 107

**Y 3ydd cyflwyniad i AIDAC wedi'i olygu, a ddaeth i law ar 2 Mawrth 2023** .......... 108


**Atodiad 2: Tystiolaeth ysgrifenedig mewn ymateb i Alwad am Dystiolaeth** .......... 110

**Rhagair**

Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru wedi'i galonogi yn fawr gan fentrau polisi diweddar lle mae Llywodraeth Cymru yn rhoi llawer o bwys ar werth coed a choetiroedd yng Nghymru am resymau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd gennym am drwyddedau cwympo coed. Mae'r un peth yn wir am y diwygiadau i Orchmynion Cadw Coed, sydd wedi'u cynnwys yn y drafft o Fil Cynllunio (Cymru). Mae'r rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru yn sicrhau bod pwysigrwydd amgylcheddol coed yn rhan annatod o bolisi, ac mae'n cynnwys rhai gofynion llym y mae angen i awdurdodau cynllunio lleol eu dilyn. Edrychwn ymlaen at weld sut y bydd y polisïau newydd hyn yn cael eu rhoi ar waith. Bydd llawer yn dibynnu ar y modd y cânt eu cyfleu. Nid yw'r cyfundrefnau cyfreithiol presennol ar gyfer cwympo coed, Gorchmynion Cadw Coed a chaniatâd cynllunio bob amser yn hawdd eu dilyn, a gall dryswch godi ynghylch pa rai sy'n berthnasol a phryd.

Rydym wedi gwneud argymhellion a fydd, gobeithio, yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ac eraill yn eu hymdrechion i weithredu'r polisi ar goed a choetiroedd, ac a fydd yn eu hannog i ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau sy'n weddill, megis y diffyg gwarchodaeth benodol i goed y cydnabyddir eu bod o bwys penodol.

Mae'r adroddiad hwn yn benllanw dros bedair blynedd o waith. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith casglu tystiolaeth a'r gwaith dadansoddi cychwynnol ei gyflawni pan oedd Nerys Llewelyn Jones yn Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru. Bu Nerys yn gweithio ar ei phen ei hun yn ystod llawer o'r cyfnod hwnnw. Ymunodd Anna Heslop a fi â Nerys fel dirprwyon ym mis Mai 2024. Ym mis Mawrth 2025, ymunodd John Henderson â ni pan ymgymerais i â swydd Nerys. Rwy'n ddiolchgar iawn i Anna a John am eu cyngor doeth ynglŷn â chynnwys yr adroddiad. Fodd bynnag, i Nerys y mae'r clod pennaf. Heb ei dealltwriaeth hi o'r gyfraith a'i phenderfynoldeb i wneud argymhellion ar gyfer newid, ni fyddai'r un adroddiad wedi'i lunio. Fi sy'n gyfrifol am unrhyw wallau, fodd bynnag.



Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

**Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC)**

**Mae AIDAC yn rhoi i aelodau'r cyhoedd system annibynnol ar gyfer anfon cyflwyniadau ynghylch y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae AIDAC yn cynghori Gweinidogion Cymru os yw'r cyflwyniadau a anfonwyd yn perthyn i gylch gorchwyl AIDAC, ac mae'n gwneud argymhellion ynghylch unrhyw gamau gweithredu y mae o'r farn bod angen eu cymryd.**

Mae'r mesurau interim yn rhai anstatudol, a'u prif ddiben yw:

- arolygu'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru; ac
- ystyried materion systematig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio/gweithredu yng Nghymru.

Gallai arolygu'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu olygu ystyried:

- a yw'r gyfraith yn addas i'w diben neu'n dal yn berthnasol;
- a yw'r wybodaeth neu'r deunydd esboniadol am y gyfraith yn hygyrch, yn glir ac yn bendant; neu
- a yw'r modd y caiff y gyfraith ei rhoi ar waith yn ymarferol yn effeithiol.

Nid yw cwmpas y mesurau interim yn ymdrin â'r canlynol:

- achosion o weithredu'n groes i gyfraith amgylcheddol;
- meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; a
- materion a godir y mae proses neu system gwyno arall yn ymdrin â nhw.

Nod AIDAC yw nodi ble y mae angen cymryd camau i gywiro problemau gweithredu efallai, a fydd yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Amcanion strategol AIDAC yw:

- darparu gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd, sy'n eu galluogi i anfon cyflwyniadau i AIDAC;
- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn ofynnol; a
- chyfrannu at ddatblygu'r dull parhaol o ymdrin â llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru.

**Crynodeb gweithredol**

Cafodd yr adroddiad hwn am warchodaeth gyfreithiol i goed a choetiroedd yng Nghymru ei ysgrifennu er mwyn ymateb i gyflwyniadau a oedd yn amau a yw'r gyfraith sy'n ymwneud â chwympo coed, Gorchmynion Cadw Coed a'r system gynllunio yn rhoi sylw digonol i werth coed a choetiroedd yng Nghymru.

Er gwaethaf natur wledig Cymru, mae'n un o wledydd lleiaf coediog Ewrop. Dim ond 15 y cant o'r arwynebedd tir sydd wedi'i orchuddio gan goetir, o gymharu â 38 y cant ar gyfartaledd yn yr UE. O ran y 313,000 hectar o goetir, pren meddal yw ychydig dan ei hanner. Mae dwy ran o dair o'r coetir conifferaidd hwn yn perthyn i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir bod yna 92,700 hectar ychwanegol o orchudd coed y tu allan i goetiroedd sydd wedi'u diffinio, ac mae dros hanner y gorchudd coed hwnnw'n cynnwys coed mewn perllannau, parciau, porfeydd coediog ac ardaloedd trefol.

**Diffiniadau**

Awgrymwyd wrthym fod yna rywfaint o ddryswch ynghylch y diffiniadau o'r termau coeden, coetir a choedwig, oherwydd bod y gwahanol gyfundrefnau cyfreithiol yn defnyddio diffiniadau sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd. Nid oedd AIDAC yn teimlo y byddai'n fanteisiol rhoi sail statudol i ddiffiniadau ond, oherwydd bod gorgyffwrdd yn gallu digwydd rhwng y modd y mae cyfundrefnau cyfreithiol yn gweithredu, roedd yn cytuno ei bod yn bwysig nad yw'r diffiniadau a ddefnyddir yn gwrth-ddweud ei gilydd.

**Trwyddedau cwympo coed**

Mae'r dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid yn awgrymu bod y broses o wneud cais am drwydded cwympo coed yn cael ei derbyn yn gyffredinol a'i deall yn dda. Fodd bynnag, roedd yna lai o eglurder ynghylch a oedd yn ofynnol efallai cael awdurdodiad arall ar wahân i'r drwydded cwympo coed. Nid oedd rhai pobl yn sylweddoli y gallai fod yn ofynnol iddynt wneud cais am awdurdodiadau eraill; ac roedd eraill yn amau'r angen i wneud hynny.

Fodd bynnag, mae'r esemptiadau'n ymwneud â thrwyddedau, y darperir ar eu cyfer dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, yn rhy gymhleth ac maent yn caniatáu i lawer o goed gael eu cwympo heb fod angen gwneud cais am drwydded.

Nid yw'n glir faint o waith cwympo coed sy'n digwydd mewn gwirionedd. Ceir pryderon y gallai tirfeddianwyr fod yn cwympo mwy o goed nag y caniateir iddynt eu cwympo dan esemptiadau neu dan delerau eu trwydded(au). Heb ffordd o fonitro'n gywir faint o waith cwympo coed sy'n digwydd mewn gwirionedd, mae'n amhosibl i'r rheoleiddiwr asesu'n iawn a yw'r trefniadau trwyddedu presennol yn addas i'w diben ac a ydynt yn gwarchod ein coed a'n coetiroedd yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, caiff gweithgarwch cwympo coed ei fesur drwy nodi nifer y coed. Nid yw'r dull hwn o weithredu'n ystyried capasiti coed i atafaelu carbon, lle mae coed aeddfed yn gallu dal mwy o garbon. Ceir achosion sylweddol o waith cwympo coed yng Nghymru yr honnir ei fod yn anghyfreithlon.

Mae AIDAC yn cymeradwyo'n gryf y mesurau a'r canllawiau cysylltiedig y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u datblygu ar gyfer amodau amgylcheddol a gaiff eu clymu wrth drwyddedau cwympo coed. Ceir tair haen o amodau. Caiff amodau sylfaenol sy'n cyd-fynd â Safon Goedwigaeth y DU eu hychwanegu'n awtomatig at bob trwydded cwympo coed. Gall amodau Haen Dau gael eu clymu wrth drwydded lle gallai fod yna effaith bosibl ar ardaloedd sensitif a/neu rywogaethau gwarchodedig. Gellir cynnwys amodau pwrpasol os oes yna fwy nag un ardal sensitif ar safle.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y ffaith nad yw methu â chydymffurfio ag amod trwydded yn drosedd. Os na chydymffurfir ag amod amgylcheddol, unig lwybr gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru yw cyflwyno hysbysiad sy'n diwygio, yn atal dros dro neu'n dirymu'r drwydded. Rydym yn cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw hynny efallai'n rhwymedi digonol, er enghraifft os yr amod oedd cadw rhywbeth a gwympwyd neu yr aflonyddwyd arno. Erbyn hynny, mae'r niwed amgylcheddol wedi digwydd yn barod heb fod unrhyw fodd i erlyn y tirfeddiannwr neu'r gweithredwr neu'i gosbi fel arall.

Rydym yn cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r ddeddfwriaeth ynghylch hysbysiadau ailstocio yng Nghymru gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn Lloegr, lle gall y llys wneud gorchymyn ailstocio ar ôl i rywun gael ei ddyfarnu'n euog o droseddu drwy fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi a oedd yn mynnu bod rhywun yn cydymffurfio ag amod trwydded i ailstocio. Cafwyd llawer o erlyniadau yng Nghymru ynghylch cwympo coed yn anghyfreithlon, lle nad yw'r tir wedi'i ailstocio ar ôl i rywun fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi.

Gallai fod yn ofynnol cwympo rhai coed er mwyn rheoli coetiroedd hynafol, er enghraifft at ddibenion teneuo. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â Coed Cadw y dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn rhoi caniatâd i gwympo coed hynod a choed aeddfed mawr yn y coedydd hyn.

Mae'n bwysig bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu, fel bod yna werth mewn ystyried cyflwyno system codi tâl i wneud iawn am y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith cynyddol o brosesu a chymeradwyo ceisiadau am drwyddedau cwympo coed. Byddai angen sicrhau cydbwysedd rhwng camau i gyflwyno unrhyw gynllun o'r fath a'r angen i sicrhau bod tirfeddianwyr yn dal i gael eu cymell yn briodol i wneud cais am drwydded. Mae AIDAC o'r farn y byddai manteision system codi tâl yn fwy nag unrhyw anfanteision posibl.

Nid yw AIDAC yn credu bod pwysigrwydd coed i Gymru yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y cosbau sydd ar gael ar gyfer troseddau. Er enghraifft, dylai nodweddion pob coeden a gaiff ei chwympo'n anghyfreithlon gael eu hystyried wrth bennu dirwyon. Rydym hefyd yn cytuno y gallai'r opsiwn i roi cosbau sifil fod yn system orfodi sy'n fwy effeithlon ac yn fwy cost-effeithiol.

**Gorchmynion Cadw Coed**

Bydd y Bil Cynllunio (Cymru) arfaethedig sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn disodli llawer o'r gyfraith bresennol ynghylch Gorchmynion Cadw Coed, y mae ei darpariaethau yn Neddf Cynllunio 2008. Rydym yn croesawu'r

newidiadau hyn a fydd yn gwella'n sylweddol y gyfraith sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed yng Nghymru, ac a fydd yn mynd i'r afael â sawl pryder a fynegwyd yn y dystiolaeth a roddwyd i ni. Yn benodol, bydd y Bil yn ehangu'r diffiniad o amwynder ac yn cyfyngu ar unrhyw eithrio rhag y gofyniad i gael caniatâd cyn cwympo neu docio coeden sydd wedi marw, sy'n marw neu sy'n beryglus. At hynny, dylai cynnwys gorchymyn enghreifftiol helpu i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru a sicrhau bod Gorchmynion Cadw Coed yn haws eu deall. Fodd bynnag, bydd yn bwysig diweddaru Nodyn Cyngor Technegol 10 a'r daflen *Coed wedi'u gwarchod: canllaw i'r drefn cadw coed* er mwyn ystyried y gweithdrefnau newydd a chynnwys cyfeiriadau at y dyletswyddau i gynnal a gwella bioamrywiaeth fel y nodir yn adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o Orchmynion Cadw Coed ar hyn o bryd, a hynny efallai oherwydd diffyg capasiti mewn awdurdodau lleol. Rydym yn credu y dylai Gorchmynion Cadw Coed gael eu gwneud yn rhagweithiol fel bod coed pwysig yn cael eu hadnabod a'u gwarchod, yn hytrach na bod rhywun yn disgwyl iddynt ddod dan fygythiad. Rydym yn credu y dylai fod yna Swyddogion Coed penodedig ym mhob awdurdod lleol, sydd â'r sgiliau angenrheidiol i adnabod coed y mae angen eu gwarchod, rhoi cyngor am waith priodol y dylid ei gyflawni arnynt, a rhoi cyngor am ailblannu pan fo angen gwneud hynny. Efallai na fydd yn bosibl penodi arbenigwyr cymwys ar dyfu coed yn Swyddogion Coed ym mhob awdurdod lleol, ond bydd yn bwysig bod pob un ohonynt yn gallu cael gafael ar bobl sydd â'r arbenigedd hwnnw.

Ceir pryderon bod y dirwyon a roddir gan y llysoedd yn rhy fach i wneud i bobl ofni cael eu herlyn, a'u hatal felly rhag troseddu. Efallai fod y dirwyon yn fach oherwydd bod coed wedi cael eu hasesu ar sail eu gwerth o ran amwynder gweledol yn unig. Gobeithir y bydd cyflwyno'r diffiniad ehangach o amwynder a sicrhau gwerthfawrogiad gwell o effaith amgylcheddol ehangach cwympo coed gwarchodedig yn anghyfreithlon yn arwain at ddirwyon mwy o faint yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth sydd ar gael am Orchmynion Cadw Coed yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai datblygu platfform mapio ar ffurf porth digidol hygyrch i'r cyhoedd yn dangos yn gliriach pa goed a gaiff eu gwarchod gan Orchmynion Cadw Coed. Gallai hefyd roi esboniad i'r rheolau cyfreithiol ynghylch Gorchmynion Cadw Coed. Byddai porth o'r fath yn helpu i godi ymwybyddiaeth o Orchmynion Cadw Coed ac yn sicrhau bod gan dirfeddianwyr, y sawl a gaiff eu contractio i gyflawni gwaith ar goed, a'r sawl sydd â diddordeb fynediad i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud yn siŵr eu bod yn gallu cydymffurfio â'u cyfrifoldebau.

Mae cwympo coeden a gaiff ei gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed yn drosedd atebolrwydd caeth, sy'n golygu nad yw anwybodaeth am y Gorchymyn Cadw Coed yn esgus. Er hynny, rydym yn credu y byddai rhoi dyletswydd arall ar y sawl sy'n gofyn i eraill gyflawni gwaith ar eu rhan, sef dyletswydd i wirio a oes Gorchymyn Cadw Coed yn bodoli, yn ychwanegu at y warchodaeth.

Ar hyn o bryd, Gorchymyn Cadw Coed yw'r unig ffordd o warchod coeden unigol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol wneud Gorchymyn Cadw Coed yng nghyswllt coed hynod yn eu hardal, nac iddynt chwilio'n weithredol am goed i'w gwarchod.

Mae Llywodraeth y DU wedi comisiynu adroddiad diweddar ynghylch gwarchod coed sydd o werth cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol mawr, a chasgliad yr adroddiad yw bod Gorchmynion Cadw Coed yn annigonol i roi'r warchodaeth angenrheidiol i'r coed dan sylw. Yn hytrach, mae'r adroddiad o blaid y dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu gan rai gwledydd Ewropeaidd, lle caiff coed pwysig eu dynodi'n henebion cenedlaethol. Yn ein barn ni, mae casgliadau'r adroddiad hwnnw'n berthnasol i Gymru hefyd. Mae AIDAC yn cytuno bod angen eglurder ynghylch pa goed unigol ddylai gael eu gwarchod a pham. Pan fydd coeden wedi'i chlustnodi'n goeden 'bwysig' i'r perwyl hwnnw, rydym yn cefnogi'r syniad y dylai gael gwarchodaeth awtomatig drwy ryw fath o ddynodiad cyfreithiol. Rydym yn credu y byddai tipyn o werth mewn cyflwyno math newydd o ddynodiad cyfreithiol, tebyg i ddynodiad heneb,

er mwyn sicrhau bod coed sydd o bwys cenedlaethol yn cael y gydnabyddiaeth a'r warchodaeth gywir. Yn y cyfamser, rydym yn credu y dylid archwilio dichonoldeb sicrhau bod Gorchymyn Cadw Coed ynghlwm wrth bob coeden hynafol sydd wedi'i chofnodi yn y Rhestr Coed Hynafol.

**Cynllunio**

Mae AIDAC yn croesawu'r pwys a roddir ar warchod coed a choetir yn y rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru (Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12). Dylai hynny arwain at ymwybyddiaeth well o bwysigrwydd coed a choetir. Yn ein hargymhellion, rydym yn gwneud sawl awgrym ynghylch sut y gallai'r polisi hwn arwain at newidiadau ymarferol.

Mae pryderon eraill yn parhau, fodd bynnag. Yn ein barn ni, y pryder pwysicaf ohonynt i gyd yw'r graddau y mae tyfwyr coed ar gael mewn awdurdodau lleol, sydd â chymwysterau a phrofiad addas i'w cynorthwyo gyda'u gwaith ar goed.

Er bod AIDAC yn cymeradwyo dull gweithredu sy'n rhoi pwys penodol ar goed pwysig, ym mha ffordd bynnag y cânt eu diffinio, rydym hefyd yn credu bod yna angen sylfaenol i ystyried pwysigrwydd pob coeden pan gaiff penderfyniadau eu gwneud a fydd yn effeithio arnynt. Am y rheswm hwnnw, rydym yn cynnig y dylai polisi cynllunio gynnwys datganiad i sicrhau, pan fydd datblygiad arfaethedig yn cynnwys bwriad i waredu coed, bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i opsiynau amgen na fyddant yn cynnwys gwaredu coed, er mwyn gallu cadw cynifer o goed ag sy'n bosibl.

**Edrych i'r dyfodol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sawl menter newydd ynglŷn â choed a choetiroedd. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Darpariaethau ynghylch Gorchmynion Cadw Coed yn y drafft o Fil Cynllunio (Cymru);

- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12;
- Gweithredoedd Cyffredinol 9 a 10 y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Y Grŵp Cyflawni i Randdeiliaid ar gyfer Coed a Gwrychoedd;
- Cyhoeddi *Coetiroedd Hynafol: cryfhau mesurau i'w diogelu*;
- Cyhoeddi *Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren*

Mae'r holl fentrau hyn yn adlewyrchu'r pwyslais sydd bellach yn cael ei roi ar bwysigrwydd amgylcheddol coed a choetiroedd. Er hynny, rydym yn dal i amau a yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod ein coed a'n coetiroedd yn cael eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r fframwaith presennol o ran deddfwriaeth a pholisi'n dameidiog ac yn adlewyrchu diffyg integreiddio, a chaiff gwahanol haenau o warchodaeth eu goruchwylio gan wahanol awdurdodau. Mae hynny wedi arwain at system warchod sy'n rhy gymhleth ac nad yw wedi'i gweithredu bob amser mewn modd cyson.

Yn bwysicach na dim, rhaid bod y gydnabyddiaeth well erbyn hyn i bwysigrwydd coed a choetiroedd oherwydd eu gwerth amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn cyd-fynd â dulliau gwell o'u rheoli a'u diogelu. Mae'n hanfodol bod y cyrff sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, yn gallu neilltuo digon o adnoddau i'r gwaith.

**Argymhellion**

**Argymhellion ynghylch trwyddedau cwympo coed**

**Argymhelliad 1: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, cyn gynted ag sy'n bosibl, gyflwyno a gweithredu rhaglen fonitro well gan ddefnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael i gofnodi'n gywir achosion o gwympo coed yng Nghymru. Awgrymir y dylai hynny gael ei ysgogi gan Lywodraeth Cymru a'i weithredu ar draws Cymru.**

**Argymhelliad 2: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i ddiwygio'r Ddeddf Coedwigaeth er mwyn sicrhau bod methu â chydymffurfio ag amod amgylcheddol yn drosedd.**

**Argymhelliad 3: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i ddiwygio'r Ddeddf Coedwigaeth er mwyn galluogi'r llys i wneud gorchymyn ailstocio.**

**Argymhelliad 4: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rhagdybiaeth mewn cyfraith yn erbyn rhoi trwyddedau cwympo coed ar gyfer coed hynod a choed aeddfed mawr mewn coetiroedd hynafol.**

**Argymhelliad 5: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pwerau angenrheidiol i'w alluogi i godi tâl am geisiadau am drwyddedau cwympo coed, yn amodol ar ymarfer ymgynghori.**

**Argymhelliad 6: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu cynllun ar gyfer codi tâl am drwyddedau cwympo coed, ar ôl iddo gael cadarnhad bod ganddo'r pwerau angenrheidiol i wneud hynny.**

**Argymhelliad 7: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno cosbau sifil yng nghyswllt cwympo coed yn anghyfreithlon.**

**Argymhelliad 8: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i sicrhau y dylai cosbau troseddol, os cânt eu defnyddio, gael eu cyflwyno yng nghyswllt coed unigol a gaiff eu cwympo yn hytrach nag yng nghyswllt grwpiau o goed.**

**<u>Argymhellion ynghylch Gorchmynion Cadw Coed</u>**

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiynau wedi'u diweddaru o Nodyn Cyngor Technegol 10 a'r daflen *Coed wedi'u gwarchod: canllaw i'r drefn cadw coed* cyn gynted ag y bydd y Rheoliadau newydd mewn grym.**

**Argymhelliad 10: Cyn pen blwyddyn i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod gan bob awdurdod lleol Swyddog Coed penodedig i reoli Gorchmynion Cadw Coed, a dylai ddarparu adnoddau ychwanegol os oes angen.**

**Argymhelliad 11: Cyn pen blwyddyn i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gallu cael gafael ar arbenigwyr tyfu coed, a dylai ddarparu cyllid ar gyfer hynny'n benodol. Hoffem awgrymu y gallai hynny gael ei gyflawni drwy gydweithio a chyfuno adnoddau fel ffordd o rannu arbenigedd rhwng Swyddogion Coed ar draws Cymru.**

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydlu platfform mapio ar ffurf porth digidol hygyrch i'r cyhoedd er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch pa goed a gaiff eu gwarchod gan Orchmynion Cadw Coed.**

**Argymhelliad 13: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i roi dyletswydd ar gontractwr, neu berson sy'n mynnu bod eraill yn**

**torri coed ar ei ran, i wirio a oes Gorchymyn Cadw Coed ynghlwm wrth y coed, a hynny cyn bod unrhyw waith cwympo coed yn dechrau.**

**Argymhelliad 14: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb sicrhau bod Gorchymyn Cadw Coed ynghlwm wrth bob coeden hynafol, a dylai gomisiynu ymchwil sy'n archwilio'r cyfleoedd a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â gwneud Gorchmynion Cadw Coed yng nghyswllt pob coeden hynod a phob coeden hynafol sydd wedi'u cofnodi yn y Rhestr Coed Hynafol.**

**Argymhelliad 15: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor i ystyried manteision dynodiad newydd, sef 'Coeden Bwysig'.**

**Argymhellion ynghylch cynllunio**

**Argymhelliad 16: Dylai holl awdurdodau lleol Cymru ystyried Safon Brydeinig 5837 wrth baratoi a gweithredu eu Cynllun Datblygu Lleol.**

**Argymhelliad 17: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru newid polisi cynllunio er mwyn mynnu bod awdurdodau lleol yn ymgynghori â'u harbenigwyr tyfu coed ynghylch unrhyw gais cynllunio y mae ei oblygiadau ar gyfer coed yn sylweddol.**

**Argymhelliad 18: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru polisi cynllunio er mwyn mynnu bod y sawl sy'n gwneud cais cynllunio yn nodi, mewn cynlluniau ar gyfer datblygiad, barthau gwarchod gwreiddiau ar gyfer unrhyw goed sydd i'w cadw yn rhan o'r datblygiad dan sylw.**

**Argymhelliad 19: Dylai awdurdodau lleol, wrth baratoi a gweithredu eu Cynllun Datblygu Lleol, roi esboniad manwl o sut y deuir i benderfyniad ynghylch cynigion datblygu sy'n golygu colli coed neu niweidio gwreiddiau coed.**

**Argymhelliad 20: Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn monitro gwaith cwympo coed, os caiff hynny ei gyflawni'n rhan o ddatblygiad.**

**Argymhelliad 21: Rydym yn argymell y dylai'r adolygiad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru gynnwys datganiad i sicrhau, pan fydd datblygiad arfaethedig yn cynnwys bwriad i waredu coed, bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i opsiynau amgen na fyddant yn cynnwys gwaredu coed, er mwyn gallu cadw cynifer o goed ag sy'n bosibl.**

**Tabl o acronymau**

| | |
|---|---|
| AIDAC | Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |

## 1 Diben yr adroddiad

Penderfynodd AIDAC ysgrifennu adroddiad am y gyfraith sy'n ymwneud â choed, er mwyn ymateb i gyflwyniadau a gafwyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2021. Mae fersiynau wedi'u golygu o'r cyflwyniadau ar wahân hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Roedd y ddau gyflwyniad yn amau a oedd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod coed a choetiroedd yn effeithiol ar draws ei wahanol systemau. Roedd y pryderon a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- a yw'r gyfraith sy'n ymwneud â chwympo coed, Gorchmynion Cadw Coed a'r system gynllunio yn rhoi sylw digonol i werth coed o safbwynt eu bioamrywiaeth a'u gwerth o ran bywyd gwyllt;
- a yw'r adnoddau sydd ar gael i warchod coed a choetir yn ddigonol i sicrhau nad yw cwympo coed yn anghyfreithlon yng Nghymru yn digwydd, ac os yw'n digwydd, bod yna drefniadau gorfodi digonol i atal gweithgarwch o'r fath; ac
- a yw'r broses o wneud cais am drwydded cwympo coed yn ddigon cadarn i reoli cwympo coed, er mwyn gwarchod y gwerth y maent yn ei ddarparu i'r amgylchedd.

Cafwyd dau gyflwyniad arall yn 2023. Roedd y cyflwyniad cyntaf yn mynegi pryderon am gyflwr cyffredinol coed yng Nghymru ac am yr argraff a geir nad yw rheoliadau perthnasol yn cael eu gorfodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol. Mae fersiwn wedi'i olygu o'r cyflwyniad hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Roedd y cyflwyniad arall yn cyfeirio at fethiant Awdurdod Parc Cenedlaethol i orfodi rheoliadau Gorchmynion Cadw Coed. Gan fod y mater a godwyd yn rhan o anghydfod parhaus â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, nid aeth AIDAC ar drywydd y mater hwn yn benodol.

Er mwyn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau, mae'r adroddiad hwn:

- yn asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed, trwyddedau cwympo coed a chynllunio, gan gynnwys trefniadau gorfodi a chamau gweithredu ymarferol, yn gwarchod coed yn ddigonol rhag cael eu cwympo ac, os nad yw, pa agweddau ar y gyfundrefn y gellir eu gwella a sut y gellir gwneud y gwelliannau hynny; ac
- yn asesu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i'r fframwaith cyfreithiol ac, os felly, beth yw nodweddion y newidiadau sy'n ofynnol.

Mae'r adroddiad yn dechrau gyda throsolwg o statws coed a choetir yng Nghymru. Yna, ceir adrannau ar wahân am y gyfraith sy'n ymwneud â chwympo coed, Gorchmynion Cadw Coed a'r system gynllunio. Os oes yna orgyffwrdd rhwng y cyfundrefnau cyfreithiol hyn, sonnir am hynny yn y testun.

Nid yw'r adroddiad yn ystyried y gyfraith sy'n ymwneud â phlannu coed, yn enwedig y modd y gweithredir gofynion ynghylch Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Cawsom gyflwyniad a oedd yn mynegi pryder am y pwnc hwnnw, ond barnwyd nad oedd yn perthyn i gwmpas y gwaith hwn oherwydd ei fod yn ymwneud ag achos honedig penodol o weithredu'n groes i'r gofynion.

**1.1 Y dull gweithredu a fabwysiadwyd**

Y cam cyntaf wrth lunio'r adroddiad hwn oedd cynnal adolygiad llenyddiaeth o'r fframweithiau perthnasol o ran y gyfraith, polisi a llywodraeth.

Yn ail, yn hytrach na chyhoeddi Galwad am Dystiolaeth, gwnaethom benderfynu ceisio tystiolaeth gan randdeiliaid a oedd wedi bod yn aelodau o'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd. Cafodd y dull gweithredu hwn ei fabwysiadu'n bennaf oherwydd yr heriau cyfathrebu a achoswyd gan Covid. Roedd y Panel Cynghori wedi bod yn cynghori'r Gweinidogion ynghylch gweithredu ac adolygu'r strategaeth Coetiroedd i Gymru, ac ynghylch ystod o faterion yn ymwneud â choedwigaeth hefyd. Roedd y Panel yn cynnwys hyd at 20 o aelodau annibynnol a oedd ag ystod o arbenigedd technegol ac arbenigedd ym maes polisi, o sefydliadau megis y

Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir, Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Coed Cadw, y byd academaidd, Cyfoeth Naturiol Cymru, NFU Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r sector coedwigaeth preifat. Er i'r Panel gael ei ddirwyn i ben yn 2021 er mwyn ei ailwampio, parhaodd aelodau'r Panel i roi cymorth i Lywodraeth Cymru ynghylch ystod o faterion nes i'r Panel Cyflenwi Archwiliad Dwfn i Goed a Phren gymryd ei le'n ddiweddarach y flwyddyn honno.[1]

Yna, cynhaliwyd trafodaethau â swyddogion cynllunio a thimau polisi priodol yn Llywodraeth Cymru ynghylch:

- y modd y caiff y gyfraith ar gyfer gwarchod coed ei gweithredu yng Nghymru;
- y rhyngweithio rhwng trwyddedau cwympo coed, Gorchmynion Cadw Coed a'r system gynllunio; a
- rôl bioamrywiaeth a gwarchod cynefinoedd o safbwynt cadw coed.

[1] https://www.llyw.cymru/panel-cynghori-ar-y-strategaeth-goetiroedd

**2 Cefndir**

Ni ellir gwadu gwerth amgylcheddol coed o safbwynt y fioamrywiaeth y maent yn ei chynnal a'r gwasanaethau ecosystemau eraill y maent yn eu darparu. Mae coed yn chwarae rôl bwysig o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd; maent yn storio carbon, yn cadw dŵr ac yn helpu i gadw pridd yn ei le. Maent hefyd yn ffynhonnell o ynni a phren. Cafodd pwysigrwydd coetiroedd a'r angen i reoli coetiroedd yn dda eu pwysleisio gan Lywodraeth Cymru yn Atodiad Technegol y Cynllun ar gyfer Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd, sy'n datgan fel a ganlyn:

> *'Mae ein coetiroedd yn gweithredu fel ardaloedd hamdden a ffynhonnell incwm, gan ddod â manteision i iechyd, ein cymunedau a'r economi. Fodd bynnag, gellid gwella'r mesurau i'w gwarchod. Mae plâu a chlefydau'n gallu effeithio ar iechyd coed a choetiroedd yn sylweddol a thanseilio'r cynhyrchiant pren a'u manteision fel cynefinoedd.*'[2]

Mae fframwaith deddfwriaethol Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, wedi rhoi datblygu cynaliadwy, ac yn fwy penodol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth wraidd penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r statudau hyn yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau ac yn gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â phroblemau parhaus, megis y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae coedwigaeth yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Felly, mae gan Gymru ei strategaeth a'i rhaglenni ei hun ar gyfer coedwigaeth, y bwriedir iddynt warchod a gwella coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru.

---

[2] Llywodraeth Cymru (2019) *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd: Cynllun ar gyfer Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd: Atodiad Technegol*. Llywodraeth Cymru ar dud. 35. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd-atodiad-technegol.pdf

## 2.1 Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y fersiwn diweddaraf o Coetiroedd i Gymru,[3] sef ei strategaeth a'i gweledigaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed. Mae'r strategaeth wedi'i llunio o gwmpas pedair thema strategol:

- ymateb i newid yn yr hinsawdd;
- coetiroedd i bobl;
- sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig; ac
- ansawdd amgylcheddol.

### *2.1.1 Ymateb i newid yn yr hinsawdd*

Mae'r strategaeth yn nodi'r potensial sylweddol sydd gan goetiroedd a choed Cymru i gyfrannu'n uniongyrchol i ymdrechion i ymdrin â newid yn yr hinsawdd, ond mae'n egluro mai dim ond os gallan nhw eu hunain ymdopi â phatrymau tywydd sy'n newid a risgiau newydd sy'n gysylltiedig â phlâu a chlefydau y gellir cyflawni hynny. Mae dwy elfen i'r cyfraniad hwn:

- bydd coed sydd wrthi'n tyfu yn atafaelu carbon yn ystod ffotosynthesis, ac yn ei gloi mewn pren ac mewn priddoedd coetir, gan dynnu rhywfaint o'r carbon deuocsid atmosfferig yr ydym ni wedi'i greu; a
- mae cynnyrch pren a gaiff ei gynaeafu o goedwigoedd a reolir yn gynaliadwy yn gallu darparu storfa ychwanegol ar gyfer carbon a gaiff ei amsugno o'r atmosffer.[4]

### *2.1.2 Coetiroedd i bobl*

Mae'r strategaeth yn rhestru pedwar canlyniad allweddol lle mae coetiroedd a choed yn gallu cyfrannu at wella llesiant pobl, sef:

[3] Llywodraeth Cymru (2018) *Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed*. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/coetiroedd-i-gymru-strategaeth.pdf
[4] Ibid, ar dud. 20.

- mae mwy o gymunedau yn ymwneud â'u coetiroedd a'u coed lleol ac yn cael budd ohonynt;
- mae mwy o bobl, o bob oedran, yn cael budd o gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir mewn coetiroedd a choed, a ganddynt;
- mae mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd a choed a byw'n agos atynt; ac
- mae mwy o bobl yn cael budd o fusnesau sy'n ymwneud â choetir a chyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig.[5]

### *2.1.3 Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig*

Mae'r strategaeth yn rhestru pedwar canlyniad allweddol ar gyfer y sector coedwigaeth yn Nghymru, sef:

- mae mwy o bren yn cael ei dyfu, ei brosesu a'i ddefnyddio yng Nghymru;
- mae'r sector coedwigaeth yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn gynaliadwy, ac yn cefnogi economi Cymru;
- mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o bren fel adnodd adnewyddadwy pwysig; ac
- mae yna weithlu medrus, llewyrchus yn y sector coedwigaeth, a all addasu i newid.[6]

### *2.1.4 Ansawdd amgylcheddol*

Mae'r strategaeth yn nodi canlyniadau allweddol i ddiogelu a gwella ansawdd amgylcheddol coetiroedd a choed yng Nghymru ac ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddynt:

- mae gweithgarwch rheoli coetiroedd yn cyrraedd safonau uchel o ran stiwardiaeth amgylcheddol;

[5] Ibid, ar dud. 25.
[6] Ibid, ar dud. 34.

- mae coetiroedd a choed o werth arbennig o ran cadwraeth yn cael eu hadnabod, eu gwarchod, a'u rheoli mewn modd ffafriol;
- mae bioamrywiaeth coetir yn cael ei chynnal ac mae coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol;
- mae coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad arbennig Cymru o ran tirwedd, i safleoedd sy'n bwysig oherwydd treftadaeth a diwylliant ac i'r dirwedd drefol; ac
- mae coetiroedd a choed yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd.[7]

Mae'r strategaeth yn cyfeirio at Bolisi Adnoddau Naturiol Cymru sy'n egluro ymrwymiad i reoli'n ofalus goed a choetir o werth amgylcheddol uchel, sy'n cynnwys safleoedd coetir hynafol, coed hynafol, coed hynod[8] a choed treftadaeth, ac mae'n nodi bod y rhain yn adnodd na all dim gymryd ei le ac sy'n darparu ystod eang o wasanaethau ecosystemau.[9] Fodd bynnag, mae'n datgan hefyd mai dim ond tua 5 y cant o goetiroedd yng Nghymru sydd â statws dynodedig o ran cadwraeth. Mae tua 39 y cant o'r coetiroedd hynny mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Nid yw coetiroedd hynafol, a ddiffinnir fel ardal sydd wedi bod yn goediog yn barhaus ers o leiaf 1600 yn yr Oes Gyffredin[10], yn cael budd o warchodaeth statudol benodol. Os na chânt eu gwarchod oherwydd eu bod mewn ardal warchodedig megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yr unig opsiwn arall yw Gorchymyn Cadw Coed.[11]

---

[7] Ibid, ar dud. 40.

[8] Mae Safon Goedwigaeth y DU yn diffinio coeden hynod ('veteran tree') fel coeden hen iawn sydd o ddiddordeb biolegol, diwylliannol neu esthetig oherwydd ei hoedran, ei maint neu'i chyflwr, gan gynnwys presenoldeb micro-gynefinoedd pren marw. Gweler y Rhestr Eirfa yma: https://cdn.forestresearch.gov.uk/2023/10/The-UK-Forestry-Standard.pdf

[9] Ibid, yn Adran 6.2 ar dud. 42.

[10] Gweler Nodyn 8 uchod.

[11] Caiff Gorchmynion Cadw Coed eu gwneud gan awdurdodau cynllunio lleol dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999. Caiff Gorchmynion Cadw Coed eu trafod yn fanwl yn Adran 4 isod.

Un o'r canlyniadau yn y strategaeth yw 'mae bioamrywiaeth coetir yn cael ei chynnal ac mae coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol'.[12] Mae'r strategaeth yn mynd yn ei blaen i ddatgan ei bod yn 'bwysig diogelu strwythur a'r modd y mae rhwydweithiau o gynefinoedd coetir yn gweithredu a, lle y bo angen, ddadwneud y broses o ddarnio cynefinoedd lled-naturiol'.[13] Caiff cefnogaeth well i brosesau gwneud penderfyniadau a rheoli er mwyn gwella cyflwr cynefinoedd coetir brodorol â blaenoriaeth, a choetiroedd sy'n cynnal rhywogaethau â blaenoriaeth, ei rhestru'n un o ganlyniadau dymunol y strategaeth.[14]

### 2.2 Statws coed a choetiroedd yng Nghymru

Er gwaethaf natur wledig Cymru, mae'n un o wledydd lleiaf coediog Ewrop. Dim ond 15 y cant o'r arwynebedd tir sydd wedi'i orchuddio gan goetir, o gymharu â 38 y cant ar gyfartaledd yn yr UE.[15] Yn ôl ystadegau dros dro a gyhoeddwyd gan Forest Research ar gyfer 2025, roedd 313,000 hectar o goetir yng Nghymru, gydag ychydig dan ei hanner yn bren meddal (conifferau) a'r gweddill yn bren caled (coed llydanddail).[16] Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, sy'n eiddo cyhoeddus, yn cynnwys 115,000 hectar a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae yna 198,000 hectar sy'n eiddo preifat. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn cynnwys coetiroedd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn gwarchodfeydd natur cenedlaethol, ac amcangyfrifir y gallai'r coetiroedd hynny fod yn 900 hectar arall.[17] Mae cyfanswm arwynebedd coetir yng Nghymru wedi cynyddu ychydig ers 1998. Yn 2020, câi 121,000 hectar o dir yng Nghymru ei ystyried yn 'goetir fferm'.[18]

---

[12] Nodyn 3 uchod, yn Adran 6 ar dud. 40.
[13] Ibid, yn Adran 6.3 ar dud. 44.
[14] Ibid, yn Adran 6.3 ar dud. 45.
[15] Ibid, ar dud. 7.
[16] Forest Research (2025) *Provisional Forestry Statistics 2025* Ar gael yma: https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/06/provisional-woodland-statistics_2025-06-26_WEB.pdf
Mae dadansoddiad manwl o dueddiadau ym mherchnogaeth gwahanol fathau o goetir yng Nghymru i'w weld yn *Atodiad Data Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Coed* Forest Research, 15 Gorffennaf 2025. Ar gael yma: https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/07/Atodiad-Data-Strategaeth-Ddiwydiannol-ar-gyfer-Coed.pdf
[17] Ibid, ar dud. 9.
[18] Gweler Nodyn 3 uchod, ar dud. 48.

Amcangyfrifir bod yna 92,700 hectar ychwanegol o orchudd coed y tu allan i goetiroedd sydd wedi'u diffinio yng Nghymru. Mae dros hanner yr arwynebedd hwnnw'n cynnwys coed sy'n tyfu ar hyd nodweddion unionlin megis gwrychoedd, glannau afonydd ac ymylon ffyrdd, tra mae'r gweddill yn cynnwys coed a geir mewn perllannau, parciau, porfeydd coediog ac ardaloedd trefol.[19] Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar bron ddwy ran o dair o'r coetir conifferaidd (gan gynnwys coetir sydd wedi'i blannu ar safleoedd coetir hynafol) ac yn berchen ar un rhan o bump o'r coetir brodorol. Mae hynny'n cynnwys cyfran fach o'r coetir lled-naturiol hynafol sydd ar wasgar ledled Cymru. Yn ôl y strategaeth Coetiroedd i Gymru, nid yw mwyafrif y coetiroedd lled-naturiol hynafol a choetiroedd brodorol eraill yn eiddo cyhoeddus. Cafodd llawer o safleoedd coetir hynafol eu clirio a'u hailblannu â chonifferau ar ôl y rhyfel, ac amcangyfrifir bod bron un rhan o dair o safleoedd coetir hynafol yn cynnwys y Planhigfeydd hyn ar Safleoedd Coetir Hynafol. O gael eu rheoli'n briodol, gallai rhai o'r rhain gael eu hadfer yn goetir brodorol. Mae mapiau diweddaraf y Rhestr Coetiroedd Hynafol[20] yn dangos dosbarthiad coetiroedd hynafol dan bedwar categori:

- Coetiroedd Lled-naturiol Hynafol
- Safleoedd Coetir Hynafol a Adferwyd
- Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol
- Safleoedd Coetir Hynafol Anhysbys.

Yn ôl Coed Cadw,[21] mae dros 6,000 o goed hynafol yng Nghymru wedi'u cofnodi yn y Rhestr Coed Hynafol.[22] Amcangyfrifir bod yna tua 95,000 hectar o safleoedd coetir hynafol yng Nghymru, a bod 42,000 hectar ohonynt yn goetiroedd lled-naturiol hynafol sydd wedi'u rheoli yn barhaus fel coetir lled-naturiol.[23]

---

[19] Gweler Nodyn 3, ar dud. 7.
[20] Rhestr o Goetiroedd Hynafol 2021 Cyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 9 Ebrill 2025. Ar gael yma: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_ANCIENT_WOODLAND_INVENTORY_2021
[21] *Action for Trees and Woodland Protection in Wales* Ar gael yma: https://business.senedd.wales/documents/s133027/Woodland%20Trust%20-%20Additional%20paper.pdf
[22] https://ati.woodlandtrust.org.uk/
[23] Llywodraeth Cymru *Coetiroedd Hynafol: cryfhau mesurau i'w diogelu* Mehefin 2025. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/coetiroedd-hynafol-cryfhau-mesurau-iw-diogelu

Mae cyfanswm y gorchudd coed sydd yng Nghymru yn cynnwys coed trefol yn ogystal â gorchudd coed ar hyd ymylon ffyrdd ac mewn gwrychoedd. Amcangyfrifir bod gorchudd canopi coed trefol wedi disgyn i gymedr o 16.3 y cant yn 2013, o gymharu ag 16.9 y cant yn 2009.[24] Mae wedi cynyddu ychydig ers hynny. Yr amcangyfrif diweddaraf, ar gyfer 2019, yw 16.41 y cant, sy'n gynnydd o 0.07 y cant yn unig (61 hectar). [25] Mae'r ffigur ar gyfer gwahanol ardaloedd lleol yn amrywio'n eang.

Mae Llywodraeth Cymru yn creu Coedwig Genedlaethol i Gymru, sef rhwydwaith o goetiroedd sy'n ymestyn ar draws Cymru. Bydd yn galluogi pawb yng Nghymru i gael mynediad i'n coetiroedd a'n coed a chysylltu â nhw. Bydd:

- yn creu ardaloedd newydd o goetir
- yn adfer ac yn cynnal ein coetiroedd presennol
- yn gwarchod natur ac yn mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth
- yn hybu ein hiechyd a'n llesiant
- yn darparu lleoedd ar gyfer hamdden a natur
- yn helpu i ddal a storio carbon
- yn darparu pren – sy'n adnodd cynaliadwy ar gyfer adeiladu.


Mae creu Coedwig Genedlaethol yng Nghymru yn ymrwymiad hirdymor, a fydd yn ymestyn dros ddegawdau lawer. Gall rheolwyr coedwigaeth wneud cais am statws Coedwig Genedlaethol ar gyfer eu coetiroedd.[26] Mae Ffigur 1 yn dangos safleoedd presennol Coedwig Genedlaethol Cymru, ar 30/07/25.

[24] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) *Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru*. Ar gael yma: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/680677/cymraeg-wales-urban-canopy.pdf

[25] Hodges, C. 2020. Tree Cover in Wales' Towns and Cities: update 2020 – Gwybodaeth wedi'i diweddaru i'n helpu i ddeall gorchudd canopi er mwyn cynllunio a rheoli ein coed trefol yn well. Adroddiad Rhif 465, 26tt, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor (Gwynedd) Ar gael yma: https://clubb.cymru/wp-content/uploads/2023/08/Tree-Cover-in-Wales-Towns-and-Cities-update-2020.pdf

[26] https://www.llyw.cymru/dod-yn-rhan-o-goedwig-genedlaethol-gymru#154727 .

**Ffigur 1 Safleoedd y Goedwig Genedlaethol**[27]




## 2.3 Y dirwedd gyfreithiol

Ceir tri phrif faes deddfwriaeth sy'n berthnasol i warchod coed a choetiroedd yng Nghymru: Deddf Coedwigaeth 1967 sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch trwyddedau cwympo coed; Rhannau II a III Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n cynnwys mesurau cyffredinol ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol a chaniatâd

[27] Ibid.

cynllunio; a Rhan VIII Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n cynnwys pennod ynghylch coed gan gynnwys Gorchmynion Cadw Coed.

Mae'r cyfundrefnau hyn yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Er enghraifft, nid yw Gorchymyn Cadw Coed yn atal rhoi caniatâd cynllunio. Ar yr un pryd, mae gweithgareddau a fyddai fel rheol yn cael eu gwahardd dan Orchymyn Cadw Coed, oni cheir caniatâd penodol, yn esempt rhag y gofyniad i wneud cais am ganiatâd os yw'r coed yn atal datblygiad rhag mynd rhagddo lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi. Bydd angen trwydded cwympo coed fel rheol i waredu coeden, ond nid yw hynny'n wir os oes caniatâd cynllunio wedi'i roi.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phob un o'r cyfundrefnau hyn ar wahân i'w gilydd, ac yn nodi fel y bo'n briodol yr achosion o orgyffwrdd. Nid oes a wnelo'r adroddiad â chyfundrefnau statudol eraill sy'n berthnasol i warchod coed a choetiroedd yng Nghymru, megis deddfwriaeth ynghylch safleoedd gwarchodedig.

## 2.4 Diffiniadau

Nid yw'r termau 'coeden, 'coetir' a 'coedwig' wedi'u diffinio yn glir o safbwynt cyfreithiol. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyhoeddi canllaw i ddehongli'r geiriau 'coed' a 'coetir'.[28] Er mai i Loegr yn unig y mae'r canllaw yn berthnasol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio yng Nghymru yr un termau fel y maent yn berthnasol yn Lloegr.[29]

### *2.4.1 Coed*

Mae'r Oxford English Dictionary yn diffinio coeden fel "a perennial plant with a self-supporting woody main stem, usually developing woody branches at some distance from the ground and growing to a considerable height and size" ond ni cheir unrhyw ddiffiniad statudol. Dyma sydd wedi'i nodi yn arweiniad y Comisiwn Coedwigaeth: 'to

[28] https://www.gov.uk/government/publications/definition-of-trees-and-woodland/definition-of-trees-and-woodland
[29] Sylw gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr adroddiad drafft, a gafwyd ar 6 Awst 2025.

be considered a tree, the plant must have at least one woody stem and be expected to achieve a height of at least 5 metres'. Yna, dywed fel a ganlyn: 'if an individual specimen had not reached 5 metres in its present location, but the plant species typically meets this definition, we will still consider it a tree'. Nodir bod y dehongliad hwn yn berthnasol i bob coeden, gan gynnwys coed mewn coetiroedd, coed mewn gwrychoedd a choed y tu allan i goetir.

Ceir rhywfaint o gyfraith achosion sy'n berthnasol. Yn *Bullock v Secretary of State for the Environment* [1980][30] dyfarnodd yr Uchel Lys fel a ganlyn: 'bushes and scrub nobody I suppose would call "trees," nor indeed shrubs, but it seems to me that anything which ordinarily one would call a tree is a tree' a 'what grows in a coppice generally speaking would be trees'.

Yn *Palm Developments Ltd v Secretary of State for Communities and Local Government and Medway Council* [2009] barnwyd, at ddibenion Gorchymyn Cadw Coed, bod coeden yn gorfod golygu unrhyw beth a fyddai'n cael ei ystyried fel rheol yn goeden, nad yw felly'n cynnwys llwyni, prysglwyni a phrysgoed, ond sy'n cynnwys coed bach. Cadarnhaodd yr achos nad oes unrhyw gyfyngiadau o ran maint ar gyfer yr hyn y gellir ei ystyried yn goeden, ac y gall gynnwys coed ifanc. [31]

Cafodd y penderfyniad ei ddilyn yn *Distinctive Properties (Ascot) Limited v Secretary of State for Communities and Local Government* [2015],[32] lle cytunodd y Llys Apêl fel a ganlyn: 'that a tree is to be so regarded at all stages of its life, subject to the exclusion of a mere seed. A seedling would therefore fall within the statutory term, certainly once it was capable of being identified as of a species which normally takes the form of a tree' ac eto 'if the plant is of a tree species, I can see no reason why it should be excluded from the meaning of the word tree'.

[30] *Bullock v Secretary of State for the Environment* [1980] 1 EGLR 140 yn 142.
[31] *Palm Developments Ltd v Secretary of State for Communities and Local Government and Medway Council* [2009] EWHC 220 (Admin) ym mharagraff 47. Gweler hefyd Lowther, J. Seeing the wood for the trees: some clarification on tree preservation orders – (2009) 21(1) ELM: 22.
[32] *Distinctive Properties (Ascot) Limited v Secretary of State for Communities and Local Government* [2015] EWCA Civ 1250 ym mharagraff 42.

Mae Comisiwn y Gyfraith[33] wedi dod i'r casgliad na ddylai coeden na choetir gael eu diffinio mewn cyfraith cynllunio yng nghyd-destun Gorchmynion Cadw Coed, oherwydd ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw ddiffiniad unigryw o goeden yn hollol foddhaol. Bu'r Comisiwn yn ystyried diffiniad rhannol, gan ddweud y byddai nodi nad yw coeden yn cynnwys llwyn na phrysglwyn yn creu'r un faint o ansicrwydd ag y byddai'r diffiniad yn ei osgoi. Awgrymodd y Comisiwn, yn hytrach, y byddai arweiniad anstatudol yn fwy defnyddiol.

### *2.4.2 Coetir*

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn nodi bod yna lawer o ddiffiniadau o'r term 'coetir'.[34] Yn gyffredinol, mae'r diffiniadau hynny'n cyfeirio at:

- isafswm arwynebedd
- isafswm neu gyfartaledd lled
- gorchudd canopi (posibl)
- uchder coed
- isafswm dwysedd stocio coed
- cyfran mannau agored a'u cyfansoddiad.

Yn ôl dehongliad y Comisiwn rhaid i safle, er mwyn cael ei ystyried yn goetir, fodloni'r canlynol i gyd:

- isafswm arwynebedd o 0.5 hectar;
- isafswm lled o 20 metr;
- potensial o ran gorchudd canopi coed sy'n o leiaf 20 y cant;
- canopi sy'n cynnwys sbesimenau sy'n bodloni'r diffiniad o goed.

Yn yr un modd, mae'r Rhestr Coedwigoedd Cenedlaethol ar gyfer Prydain Fawr yn cynnwys unrhyw goedwig neu goetir y mae eu harwynebedd yn o leiaf 0.5 hectar, y

---

[33] Comisiwn y Gyfraith 2018 *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Adroddiad Terfynol* ym mharagraff 15.12. Ar gael yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/912221/6.5134_LC_Welsh-Planning-Report_Final_281118_FINAL_WEB.pdf

[34] Nodyn 28 uchod.

mae eu lled yn o leiaf 20 metr ac y mae eu gorchudd canopi coed neu'u potensial o ran hynny'n 20 y cant.[35]

Mae *Coetiroedd i Gymru* yn cyfeirio at goetir fel a ganlyn

> *'tir lle mae'r canopi coed yn dylanwadu'n gryf ar ei gyflwr ecolegol, neu lle bydd yn gwneud hynny yn y dyfodol. O ran ystadegau gorchudd tir (yn y DU), diffinnir coetir ar hyn o bryd fel tir coediog lle byddai'r coed aeddfed yn gorchuddio mwy nag 20% o'r arwynebedd. Yn gyffredinol, gelwir lleiniau mawr yn goedwigoedd. Defnyddir nifer o wahanol dermau i ddisgrifio unedau llai, megis coetiroedd, coedydd, coedlannau a lleiniau cysgodi. Nid oes maint gofynnol wedi'i ragnodi ar gyfer coetir'*[36].

Mae'r diffiniad o goetir a ddefnyddir gan ystadegau coedwigaeth y DU yn wahanol:

> *'land under stands of trees with a canopy cover of at least 20 per cent … or having the potential to achieve this. The definition relates to land use, rather than land cover, so integral open space and felled areas that are awaiting restocking are included as woodland'*[37]

Hyd y gŵyr AIDAC, nid oes yna unrhyw ddiffiniad rhyngwladol penodol y cytunwyd arno ar gyfer coetir. Mae papur gwaith gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig[38] yn diffinio 'tir coediog arall' fel a ganlyn:

- tir â gorchudd canopi o 5–10 y cant o goed sy'n gallu cyrraedd taldra o 5 metr yn y fan a'r lle; neu

---

[35] Forest Research *About the NFI*. Ar gael yma: https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/07/Atodiad-Data-Strategaeth-Ddiwydiannol-ar-gyfer-Coed.pdf
[36] Nodyn 3 uchod, ar dud. 55.
[37] Forest Research (2023) *Woodland Area*. Ar gael ar-lein yma: https://cdn.forestresearch.gov.uk/2023/09/Introduction-and-glossary_FS2023-1.pdf
[38] Forest Resources Assessment Programme *On Definitions of Forest and Forest Change* FAO Rome (2000), adran 2.3.

- dir â gorchudd canopi o dros 10 y cant pan gaiff coed llai o faint, prysglwyni a llwyni eu cynnwys.

Nid yw coetir wedi'i ddiffinio mewn cyfraith achosion. Cyfeirir at goetir yn nyfarniad *Palm Developments Ltd*[39], ond dim ond er mwyn datgan bod Gorchymyn Cadw Coed ar gyfer coetir yn cynnwys pob coeden yn y coetir, gan gynnwys y coed nad oeddent yn bodoli pan gafodd y gorchymyn ei wneud.

***2.4.3 Coedwig***

Unwaith eto, nid oes yna ddiffiniad statudol ar gyfer coedwig mewn cyfraith ddomestig. Mae Rheoliad yr UE ynghylch cynnyrch nad yw'n datgoedwigo[40] yn diffinio coedwig fel a ganlyn:

> *'land spanning more than 0.5 hectares with trees higher than 5 metres and a canopy cover of more than 10 per cent, or trees able to reach those thresholds in situ, excluding land that is predominantly under agricultural or urban land use'.*

Ymddengys ei fod wedi'i seilio ar y diffiniad sydd wedi'i gynnwys ym mhapur gwaith y Sefydliad Bwyd ac Amaeth, y cyfeirir ato uchod.[41]

Mae diffiniadau tebyg wedi'u defnyddio yng nghyswllt rhai cytundebau rhyngwladol, gan gynnwys y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a Phrotocol Kyoto.[42]
Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol cyfeirio at y diffiniad yn *Coetiroedd i Gymru* sy'n diffinio coedwigoedd fel a ganlyn: *ardaloedd mawr ar y cyfan, lle mae'r tir wedi'i orchuddio'n bennaf â choed*.[43] Mae hynny'n cyd-fynd â'r diffiniad a ddarparwyd yn Safon Goedwigaeth y DU, sy'n disgrifio coedwig fel a ganlyn: *land predominantly covered in trees (defined as land that is under stands of trees with a canopy of at least*

[39] *Palm Developments Ltd v Secretary of State for Communities and Local Government and Medway Council* [2009] EWHC 220 (Admin).
[40] Rheoliad 2023/1115 yr Undeb Ewropeaidd, Erthygl 2.
[41] Nodyn 38 uchod, yn adran 2.2.
[42] Gweler Lesniewska F *Definitions of 'Forests' in International Environmental Law: Implications for Ecosystems, Forest Peoples and Climate Change* 8th IUCN ELA Colloquium, 15 Medi 2020, Ghent.
[43] Gweler Nodyn 3 uchod, ar dud. 52.

*20%) whether in large tracts (generally called forests) or smaller areas known by a variety of terms (including woods, copses, spinneys or shelter belts).*[44]

### *2.4.4 Casgliad ynghylch diffiniadau*

Nid yw AIDAC yn teimlo y byddai'n fanteisiol rhoi sail statudol i ddiffiniadau o goeden a choetir. Dyma'r diffiniadau perthnasol ar gyfer y Ddeddf Coedwigaeth ond nid ydynt yn berthnasol mewn cyfraith cynllunio nac yng nghyswllt Gorchmynion Cadw Coed. Mae gorgyffwrdd yn gallu digwydd rhwng y cyfundrefnau cyfreithiol, ac mae'n bwysig nad yw'r diffiniadau a ddefnyddir yn gwrth-ddweud ei gilydd.

[44] Safon Goedwigaeth y DU, 5ed Argraffiad, Rhestr Eirfa. Ar gael yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/651670336a423b0014f4c5c0/Revised_UK_Forestry_Standard_-_effective_October_2024.pdf

## 3 Trwyddedau cwympo coed

### 3.1 Y Ddeddf Coedwigaeth

Mae coedwigaeth wedi bod yn fater sydd wedi'i ddatganoli yn llawn yng Nghymru ers mis Gorffennaf 1999 pan ddaeth darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 1998 i rym. Er bod llawer o'r ddeddfwriaeth ynghylch coedwigaeth wedi'i llunio ar sail Cymru a Lloegr, gellir ei diwygio'n awr yng nghyswllt Cymru.

Deddf Coedwigaeth 1967 yw'r brif statud sy'n ymwneud â choedwigaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ddeddf yn cydgrynhoi ac yn diwygio Deddfau Coedwigaeth blaenorol a wnaed ers 1919 ac yn egluro dyletswyddau'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Mae rôl y Comisiynydd Coedwigaeth yng Nghymru yn perthyn i Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn[45] sydd, felly, â'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo:

- buddiannau coedwigaeth;
- datblygu coedwigo;
- cynhyrchu a chyflenwi pren a chynnyrch arall coedwigoedd; a
- sefydlu a chynnal cyflenwadau digonol wrth gefn o goed sy'n tyfu.[46]

Wrth gyflawni ei swyddogaethau dan y Ddeddf bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, i'r graddau y bo'n gyson â'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau hynny'n gywir, yn ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng:

a) datblygu coedwigo, rheoli coedwigoedd; a
b) gwarchod a gwella harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffeg sydd o ddiddordeb arbennig.[47]

Mae Rhan II y Ddeddf yn ymwneud â rheoleiddio cwympo coed ac nid yw'n ymwneud yn benodol â gwarchod coed. Gall y term 'cwympo coed' gyfeirio at dorri coed yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Mae hynny'n amrywio o waredu coeden yn gyfan gwbl er mwyn cynhyrchu pren neu glirio tir i docio coed am resymau cosmetig neu resymau'n

[45] Newid a wnaed dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (Rhif 755).
[46] Deddf Coedwigaeth 1967, adrannau 2 a 3.
[47] Ibid, adran 3A, ychwanegwyd gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygio) 1985, adran 4.

ymwneud ag iechyd coed. Fodd bynnag, dim ond os caiff coeden ei thorri'n gyfan gwbl y mae'n ofynnol cael trwydded cwympo coed.

## 3.2 Gofynion trwyddedu

Mae adran 9 y Ddeddf Coedwigaeth yn egluro'r gofynion ar gyfer trwydded cwympo coed. Fodd bynnag, nid oes angen trwydded ar gyfer pob gweithgaredd cwympo coed, a cheir esemptiadau rhag y gofynion yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar faint ac ardal y goeden, diben y gweithgaredd cwympo coeden, a faint o bren fydd yn cael ei gwympo.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod trwyddedu yng Nghymru. Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded cwympo coed, ac nid yw'n costio dim i wneud hynny.[48] Mae adran 10 y Ddeddf yn mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi trwydded yn ddiamod oni bai ei fod yn penderfynu bod angen amodau er mwyn cyflawni'r dibenion canlynol[49]:

a) ailstocio neu stocio â choed y tir lle bydd y gwaith cwympo coed yn digwydd, neu dir arall y gellid cytuno arno;
b) cynnal a chadw'r coed hynny'n unol â rheolau a dulliau ymarfer coedwigaeth dda am gyfnod nad yw'n fwy na deng mlynedd;
c) yng nghyswllt tir yng Nghymru, ar ôl ymgynghori â'r sawl sy'n gwneud cais am y drwydded, at ddiben

    (i) gwarchod neu wella harddwch naturiol neu

    (ii) gwarchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffeg neu gynefinoedd naturiol.

Mewn rhai amgylchiadau gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwympo coed. Os na chydymffurfir neu na chydymffurfiwyd ag amod, gellir amrywio amodau, gellir atal y drwydded yn llawn neu'n rhannol dros dro neu, os na chydymffurfir â'r amodau cadwraeth, gellir dirymu'r drwydded.[50] At hynny, os yw cwympo coed a gyflawnir yn unol â thrwydded yn achosi, neu'n debygol o

[48] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) *Gwneud cais am drwydded cwympo coed.* Ar gael yma: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/apply-for-a-felling-licence/?lang=cy

[49] Caiff amodau a) a b) eu nodi yn adran 12; caiff amod c) ei nodi yn adran 10, a ychwanegwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, adran 37.

[50] Y Ddeddf Coedwigaeth, adran 24, a ychwanegwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, adran 37.

achosi, niwed sylweddol i bethau sydd i fod i gael eu gwarchod, gall Cyfoeth Naturiol Cymru atal dros dro, diwygio neu ddirymu'r drwydded.[51]

Mae trwyddedau cwympo coed diamod yn caniatáu gwaith cwympo coed heb fod angen ailblannu. Ceir sawl rheswm dros roi trwydded ddiamod. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cwympo coed yn angenrheidiol os oes clefydau ar y coed, neu mae'n bosibl y bydd angen gwneud hynny er mwyn adfer cynefin neu fawndir. Mae ystadegau coedwigaeth yn dangos bod llai na 10 hectar fel arfer wedi'u cynnwys o dan drwyddedau diamod bob blwyddyn
Mae trwyddedau cwympo coed heb ganiatâd hefyd yn cael eu rhoi'n rheolaidd ar gyfer gweithrediadau teneuo, pan nad oes unrhyw goetir yn cael ei golli.

### 3.3 Gorfodi

Caiff y drosedd ar gyfer cwympo coed heb drwydded yng Nghymru ei hegluro yn adran 17(1) y Ddeddf:

> *'Anyone who fells a tree without the authority of a felling licence, the case being one in which section 9(1) of this Act applies so as to require such a licence, shall be guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine.'*

Tan yn ddiweddar, câi lefel y ddirwy ei chyfyngu i ddirwy nad oedd yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol neu ddwywaith gwerth y goeden[52] fel yr oedd yn ymddangos i'r llys, pa swm bynnag oedd uchaf. Cafodd y cyfyngiad hwnnw ei ddileu gan adran 42 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, a oedd yn golygu felly bod y gyfraith yn cyd-fynd â newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 i Loegr.

---

[51] Ibid, adran 24E.
[52] Mae Gwerth Ased Cyfalaf ar gyfer Coed Amwynder yn ddull sydd wedi'i ddefnyddio yn ddiweddar yn nghyswllt achos y Sycamore Gap. Mae trafodaeth i'w chlywed ar *Trees in a Pod – the Tree Law Podcast* sydd ar gael yma: https://www.treelaw.co.uk/trees-in-a-pod/.

Caiff y penderfyniad ynghylch a ddylid erlyn neu beidio ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'i bolisi Gorfodi ac Erlyn.[53] Os yw unigolyn wedi cyflawni trosedd dan adran 17, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i roi hysbysiad ailstocio. Mae'n mynnu bod yr unigolyn y rhoddir yr hysbysiad iddo yn ailstocio neu'n stocio y tir â choed ac yn cynnal y tir hwnnw â choed yn unol â dulliau ymarfer coedwigaeth dda.[54] Os yw'r unigolyn yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad ailstocio, mae adran 17(C) yn darparu y gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi hysbysiad gorfodi dan adran 24, a fydd yn golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud y gwaith ei hun neu'n ei orfodi drwy broses y llys fel achos o dorri'r gyfraith.

Gellir rhoi hysbysiadau gorfodi hefyd os cafwyd achos o fethu â chydymffurfio ag amodau trwydded. Mae'n drosedd sy'n gallu, yn dilyn euogfarn ddiannod, arwain at ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 oherwydd methiant i gymryd unrhyw gamau a oedd yn ofynnol mewn hysbysiad gorfodi, heb esgus rhesymol.[55]

Mae'r system cynllunio defnydd tir a'r ddeddfwriaeth ar gyfer coedwigaeth yn cynnwys cynlluniau statudol sydd ar wahân i'w gilydd ond sy'n cael eu cydlynu â'i gilydd. Os oes Gorchymyn Cadw Coed yn berthnasol i goeden ac os gwneir cais am drwydded cwympo coed, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru hysbysu'r awdurdod lleol os yw'n bwriadu rhoi'r drwydded.[56] Gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd gyfeirio'r cais at yr awdurdod lleol priodol.[57] Os yw'r awdurdod lleol yn gwrthwynebu'r hysbysiad, caiff y cais ei gyfeirio at y Gweinidog er mwyn ymdrin ag ef dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn hytrach na Deddf Coedwigaeth 1967.[58]

---

[53] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) *Cyfrifoldebau Rheoleiddio: Atodiad 1 y Polisi Gorfodi a Sancsiynau*. Ar gael ar-lein yma: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-regulate/our-regulatory-responsibilities/enforcement-and-sanctions-policy-annex-1-variable-monetary-penalty/?lang=cy
[54] Deddf Coedwigaeth 1967, adran 17(A).
[55] Ibid, adran 24(4).
[56] Ibid, adran 15(1)(a). Dylid nodi, fodd bynnag, bod gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud hynny'n dibynnu ar y ffaith bod y perchennog wedi rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru bod Gorchymyn Cadw Coed ar waith. Gweler adran 4.3.1 isod, yng nghwestiwn 2.
[57] Ibid, adran 15(1)(b).
[58] Ibid, adran 15(2)(a) a (b).

Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu amrywio neu ddirymu trwydded sy'n ymwneud â choeden a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol. Os yw'r awdurdod lleol yn gwrthwynebu, caiff y mater ei gyfeirio at y Gweinidog. Nid yw'r gofyniad i hysbysu'r awdurdod lleol yn berthnasol mewn argyfwng, lle mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno er mwyn atal niwed difrifol buan i'r peth a warchodir.[59]

Cafodd y rhyngweithio rhwng y ddau gynllun statudol ei ystyried yn fanwl yn achos Llys Apêl *Arnold White Estates Ltd (appellant) v The Forestry Commission (Respondent)*.[60] Dyma ffeithiau'r achos:

- 2016 Yr apelydd yn cael caniatâd cynllunio amlinellol
- 2018 Y Comisiwn Coedwigaeth yn rhoi trwydded cwympo coed gydag amodau i ailstocio
- 28 Gorffennaf 2020 Y Comisiwn Coedwigaeth yn rhoi hysbysiad adran 24 yn mynnu camau i gydymffurfio â'r amodau
- 14 Medi 2020 Yr apelydd yn cael caniatâd cynllunio llawn.

Y cwestiwn allweddol gerbron y Llys oedd beth yw effaith caniatâd cynllunio dilynol ar gyfer datblygiad y byddai ei adeiladu'n golygu ei bod yn amhosibl cydymffurfio â'r amodau a'r hysbysiad adran 24 dilynol.

Wrth gyflwyno'r dyfarniad a oedd yn gwrthod yr apêl, gwnaeth Syr Keith Lindblom y sylwadau canlynol:

*Where Parliament has seen the need to do so, it has expressly provided in the 1967 Act for the interrelationship of the land use planning system and the legislation for forestry. Section 9(4)(d) provides explicitly for the relationship between the requirements for a felling licence in specified circumstances and grants of planning permission. And section 15 provides for the relationship between felling licences and trees with the protection of a tree preservation order.* (paragraff 64)

---

[59] Ibid, adran 24F a ychwanegwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, adran 37.
[60] *Arnold White Estates Ltd v Forestry Commission* [2022] EWCA Civ 1304.

*In section 9(4)(d) Parliament has created an exemption for felling "immediately required for the purpose of carrying out development authorised by planning permission". … It would exclude an outline planning permission without the necessary approval of reserved matters.* (paragraff 65)

*I would reject [the] proposition that the reserved matters approval … would then have the effect of removing the need for compliance with the requirements of the restocking conditions on the felling licence itself … .* (paragraff 67)

*… Parliament did not approve, either in the 1967 Act or in the planning legislation, that the statutory provisions for felling licences would be disapplied, or the conditions imposed on a felling licence … annulled, automatically or retrospectively by a later planning permission.* (paragraff 68)

### 3.4 Diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Mae Rhan 4 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn ymwneud â choedwigaeth. Roedd yn gwneud diwygiadau i'r Ddeddf Coedwigaeth yng nghyswllt Cymru ynghylch y materion canlynol[61]:

(a) er mwyn ehangu'r ystod o amgylchiadau pan ganiateir atodi amodau at drwyddedau cwympo coed, drwy ychwanegu 'for the purposes of conserving or enhancing natural beauty, or for the purposes of conserving flora, fauna, geological or physiographical features', ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r sawl sy'n gwneud cais am y drwydded;
(b) er mwyn galluogi diwygio trwyddedau cwympo coed drwy gytundeb;
(c) pan fo amod trwydded cwympo coed yn cael ei dorri neu wedi ei dorri, er mwyn galluogi [Cyfoeth Naturiol Cymru] i amrywio neu hepgor amodau'r drwydded, neu i ychwanegu amodau pellach, neu i atal y drwydded dros dro neu ei dirymu, a'i gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd yn dilyn torri'r amod;
(d) pan fo cwympo coed yn unol â thrwydded cwympo coed yn achosi, neu'n debygol o achosi, niwed sylweddol i agweddau penodol ar yr amgylchedd, er mwyn galluogi [Cyfoeth Naturiol Cymru] i ddiwygio'r drwydded cwympo coed neu ei hatal dros dro neu ei dirymu;
(e) er mwyn dileu'r cyfyngiad ar ddirwyon y caniateir eu rhoi am y drosedd o gwympo coed heb awdurdod trwydded cwympo coed;
(f) er mwyn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i'r diwygiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a), (c) a (d).

Mae'r diwygiadau yn cyfrannu at sicrhau bod trefniadau rhoi caniatâd ym maes coedwigaeth yn cyd-fynd â chyfundrefnau rheoleiddiol eraill Cyfoeth Naturiol Cymru.[62] Cafodd y pwerau newydd i ychwanegu amodau ac i ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwympo coed eu cyflwyno er mwyn atal gwaith cwympo coed a fyddai'n gwrth-ddweud deddfwriaeth amgylcheddol arall. Y bwriad yw darparu trefniadau diogelu gwell ar gyfer bywyd gwyllt a darparu gwarchodaeth rhag niwed amgylcheddol a sicrhau bod Deddf Coedwigaeth 1967 yn cyd-fynd yn fwy helaeth â

---

[61] Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Rhan 4, adran 36, Trosolwg o'r Rhan.
[62] Llywodraeth Cymru (Mehefin 2023) Memorandwm Esboniadol Bil Amaethyddiaeth (Cymru), paragraff 3.288. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/deddf-amaethyddiaeth-cymru-2023-memorandwm-esboniadol.pdf

deddfwriaeth amgylcheddol arall megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

### 3.5 Tystiolaeth am drwyddedau cwympo coed

Cafodd tystiolaeth yn ymwneud â'r modd y caiff y gyfundrefn trwyddedu cwympo coed ei gweithredu yng Nghymru ei chasglu oddi wrth sawl sefydliad. Dylid nodi bod y dystiolaeth hon yn rhagflaenu'r diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd. Os felly, nodir hynny yn y testun.

#### *3.5.1 Cwestiynau a ofynnwyd i'r rhanddeiliaid*

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r rhanddeiliaid.

1. A ydych yn credu bod y broses o wneud cais am drwyddedau cwympo coed ar draws Cymru yn glir, yn dryloyw ac yn hygyrch?
2. Yn eich barn chi, beth yw'r problemau/manteision sy'n gysylltiedig â'r broses o gael trwyddedau cwympo coed? Os oes yna le i wella, sut y gellid cyflawni hynny?
3. Beth yw eich barn am drwyddedau cwympo coed fel system i atal cwympo coed y mae angen eu gwarchod?
4. A oes yna systemau amgen y gellid eu defnyddio?
5. A oes yna systemau, yr ydych chi'n gwybod amdanynt, sy'n cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill i reoli gwaith cwympo coed yn briodol?
6. Ym mha ffyrdd y caiff bioamrywiaeth, ac yn enwedig cadw a gwarchod bywyd gwyllt, eu hystyried wrth i bobl wneud cais am drwyddedau cwympo coed ac wrth i'r trwyddedau hynny gael eu hystyried?

#### *1 A ydych yn credu bod y broses o wneud cais am drwyddedau cwympo coed ar draws Cymru yn glir, yn dryloyw ac yn hygyrch?*

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y broses o wneud cais am drwyddedau cwympo coed ar draws Cymru yn glir, yn dryloyw ac yn hygyrch. Fodd

bynnag, roedd yna bryderon am lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch y broses, yn ogystal â'i phrydlondeb wrth wneud penderfyniadau. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod nifer y ceisiadau am drwyddedau cwympo coed wedi dyblu o 250 y flwyddyn yn 2013 i 510 yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Roedd o'r farn bod y cynnydd hwn yn awgrymu bod y broses yn eithaf clir, tryloyw a hygyrch.[63] Fodd bynnag, nododd hefyd fod cynnydd wedi bod yn ddiweddar mewn achosion honedig o gwympo coed yn anghyfreithlon. Y gred oedd mai un rheswm am hynny oedd pryder tirfeddianwyr ynglŷn ag atebolrwydd am niwed neu ddamwain oherwydd coed ynn yr oedd y clefyd coed ynn wedi effeithio'n ddifrifol arnynt.

Tystiolaeth gan cyn-Gomisiynydd Coedwigaeth ac aelod o'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd, mai pobl sy'n gyfarwydd â'r sector sy'n gwneud cais am y rhan fwyaf o'r trwyddedau, ond bod y ffaith bod nifer gynyddol o bobl heb gefndir ym maes defnydd tir neu goedwigaeth yn prynu coetiroedd yn golygu na ellir tybio hynny mwyach. Awgrymodd nhw bod yn werth ystyried a ddylai fod yn ofynnol i werthwyr drosglwyddo gwybodaeth am y Rheoliadau pan fyddant yn gwerthu coetiroedd.

Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae trwyddedau cwympo coed yn mynd gyda'r tir. Ar gyfer pob trwydded a roddwyd ar ôl 1 Ebrill 2024, dylai gwerthwr y tir y mae trwydded yn berthnasol iddo fod yn rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru am enw'r perchennog newydd. Yna, mae'n ofynnol i'r prynwr lenwi ffurflen ddiwygio.[64]

***2 Yn eich barn chi, beth yw'r problemau/manteision sy'n gysylltiedig â'r broses o gael trwyddedau cwympo coed? Os oes yna le i wella, sut y gellid cyflawni hynny?***

Tynnodd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir sylw at broblemau gyda'r system ar gyfer cyflwyno ceisiadau am drwyddedau cwympo coed. Roedd o'r farn bod y system

[63] Mae'r rhesymau dros y cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am drwyddedau cwympo coed yn rhywbeth sydd y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, ond mae yna sawl ffactor dylanwadol a allai esbonio hynny, sy'n cynnwys (i) mwy o alw am bren fel tanwydd; (ii) mwy o alw am gynnyrch pren; (iii) hybu amrywiaeth amgylcheddol ac iechyd coedwigoedd drwy waredu coed penodol.
[64] Cyfoeth Naturiol Cymru *Prynu a gwerthu tir lle ceir trwydded cwympo coed.* Ar gael yma: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/buying-and-selling-land-with-a-felling-licence/?lang=cy

yn wael iawn, a nododd nad yw'n hawdd diwygio ceisiadau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, os oes angen cywiro neu egluro unrhyw beth. Roedd yn teimlo bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno gofynion neu amodau ychwanegol wrth roi trwydded cwympo coed, a bod y rheini'n mynd yn fwyfwy beichus. Roedd hynny'n golygu bod rheidrwydd cyfreithiol ar y sawl a oedd am gwympo coed gael cymeradwyaeth ychwanegol, er enghraifft yng nghyswllt Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop a llygredd dŵr, cyn bod trwydded yn cael ei dyfarnu. Roedd yr ymatebydd o'r farn nad yw, ac na ddylai, cael cymeradwyaeth o'r fath fod yn un o amodau dyfarnu'r drwydded gan nad oedd yr amserlenni a'r gwaith arolygu yn golygu bod hynny'n synhwyrol, yn gost-effeithiol ac yn realistig.

Ar y llaw arall, mynegodd Coed Cadw y farn bod y broses o gyflwyno ceisiadau am drwyddedau cwympo coed yn eithaf syml, ond bod awydd iddi barhau felly'n golygu bod yna amharodrwydd i ddiwygio'r broses er mwyn sicrhau trawsgydymffurfio â deddfwriaeth arall a Safon Goedwigaeth y DU.[65] Dywedodd Coed Cadw fod yn rhaid i'r broses sicrhau trawsgydymffurfio, a hynny drwy bennu, monitro a gorfodi amodau addas.

Yn ei dystiolaeth wreiddiol, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn gallu darparu lefel uwch o wasanaeth rheoleiddio, ond mai dim ond yng nghyd-destun modelau cyllido gwahanol yr oedd hynny'n bosibl. Er enghraifft, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu mwy o help ymarferol, yn enwedig i ymgeiswyr llai profiadol. Nododd fod hynny'n arbennig o effeithiol o gyfuno'r help ag archwiliad o'r safle a chyngor diduedd cyn bod cais yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae gwasanaethau estynedig o'r fath yn gofyn am lawer o adnoddau.[66]

[65] Safon Goedwigaeth y DU yw'r safon gyfeirio ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Cafodd ei diweddaru ddiwethaf yn 2023. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/the-uk-forestry-standard
[66] Yn ei sylwadau ar yr adroddiad drafft, mae'n nodi iddo golli staff rheoleiddio coedwigoedd ers yr ad-drefnu yn 2024 a bod llai o gyfle, felly, i ddarparu'r cymorth hwn. Mae hefyd yn nodi y byddai unrhyw argymhelliad sy'n mynnu newid i gylch gorchwyl a chyfrifoldebau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru yn dibynnu ar gael cytundeb Llywodraeth Cymru. Sylwadau a gafwyd ar 6 Awst 2025.

Dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried rheoli coedwigoedd drwy gwympo coed dan ymyriadau rheoli unigol neu yng nghyswllt Uned Rheoli Coedwig sy'n fwy o faint. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae annog cynllunio mwy hirdymor drwy annog ceisiadau'n ymwneud ag Unedau Rheoli Coedwig gan ddefnyddio cynlluniau rheoli coedwig (yn hytrach na llawer o drwyddedau cwympo coed unigol) yn ddull gweithredu blaengar.[67] Mae'n galluogi perchnogion coetir i egluro eu gweledigaeth a'u hamcanion ac i reoli ar raddfa sy'n briodol i agweddau sensitif a chymhleth eu coetir. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod hynny'n rhywbeth yr oedd wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i'w ddatblygu a'i dreialu, ond bod ei effeithiolrwydd a'i gwmpas wedi'u cyfyngu gan amrywioldeb ansawdd ceisiadau. Roedd nifer ac ansawdd ceisiadau'n cael eu cyfyngu hefyd, yn anffodus, oherwydd nad oes unrhyw gyllid ar gael gan y llywodraeth i hybu'r gwaith o'u datblygu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud ei fod yn ystyried ffyrdd o ddiweddaru'r templed ar gyfer cynlluniau rheoli coedwig, er mwyn sicrhau ei fod yn fwy deniadol i'r sector.[68]

Ar hyn o bryd, nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sail gyfreithiol ar gyfer adennill costau gwasanaethau i hybu ceisiadau o ansawdd gwell am drwyddedau cwympo coed neu i hybu ceisiadau drwy gynlluniau rheoli coedwig hirdymor. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi argymell deddfwriaeth newydd neu addasiadau i ddeddfwriaeth bresennol ynghylch y pwnc, drwy amryw ymgyngoriadau gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Fodd bynnag, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn bosibl y byddai'r opsiwn i adennill costau gwasanaethau rheoleiddio coedwigoedd yn peri i bobl beidio â rheoli coetiroedd bach sy'n fioamrywiol. Gall ceisiadau am drwyddedau cwympo coed ar gyfer coetiroedd o'r fath gymryd mwy o amser i'w paratoi na cheisiadau ar gyfer coetiroedd mwy o faint sy'n symlach. Ni fydd cynyddu costau a lleihau'r elw ariannol am reoli coetiroedd bioamrywiol yn hybu'r gwaith o gyflawni polisïau adfer natur. Barn Cyfoeth Naturiol Cymru oedd ei bod yn

---

[67] Mae cynllun rheoli coedwig yn egluro amcanion perchennog/deiliad y coetir o ran sut y mae'n bwriadu rheoli ei goetir/coedwig yn gynaliadwy dros gyfnod o ddeg neu ugain mlynedd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/apply-for-a-forest-management-plan/?lang=cy
[68] Sylwadau ar yr adroddiad drafft, a gafwyd ar 6 Awst 2025.

hollbwysig mabwysiadu dull galluogol o gynllunio rheolaeth well, a'i bod yn hollbwysig gwella ansawdd ceisiadau a hybu'r lefel gywir o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo y dylai ei wasanaeth trwyddedu ar gyfer coedwigoedd, a oedd yn gyfrifol am roi trwyddedau cwympo coed, fod yn gallu diwygio, atal dros dro a dirymu trwyddedau os, er enghraifft, canfyddir bod y wybodaeth a ddarparwyd er mwyn cael y drwydded yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn modd bwriadol. Mae'n un o'r problemau sydd wedi'i datrys gan y mesurau sydd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru).

Nododd cyn-Gomisiynydd Coedwigaeth, fod capasiti i brosesu ceisiadau am drwyddedau cwympo coed yn brydlon wedi bod yn broblem y mae'r sector coedwigaeth wedi sôn amdani erioed[69] yn ogystal â'r angen am ddull symlach o ymdrin â cheisiadau i deneuo. Roedd nhw hefyd yn teimlo nad yw'r capasiti a'r awydd i orfodi wedi bod yn gryf bob amser. Aeth yn ei blaen i dynnu sylw at bwysigrwydd gorfodi o safbwynt rheoli a gwarchod coed. Fodd bynnag, nodwyd bod gwasanaeth cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais wedi bod yn ychwanegiad cadarnhaol.[70]

***3 Beth yw eich barn am drwyddedau cwympo coed fel system i atal cwympo coed y mae angen eu gwarchod?***

Canfu AIDAC farn gymysg mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mynegodd Coed Cadw y farn fod Deddf Coedwigaeth 1967 yn annigonol, nad oedd yn hybu nodau deddfwriaeth ddiweddarach ym maes cynllunio ac ym maes gwarchodaeth amgylcheddol ac nad oedd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i reoleiddio

---

[69] Yn ei sylw ar yr adroddiad drafft, a gafwyd ar 6 Awst 2025, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yna gyfnod statudol o 91 o ddiwrnodau (13 o wythnosau) ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau am drwyddedau cwympo coed. I gael manylion pellach, gweler https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/permit-applications-consultations-and-decisions/our-permitting-service-levels/?lang=cy

[70] Ar y pryd, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi dwy awr o gyngor yn rhad ac am ddim yn ystod y cyfnod ar gyfer gwneud cais am drwyddedau cwympo coed, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud wrthym nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael mwyach oherwydd pwysau ariannol. Sylw ar yr adroddiad drafft, a gafwyd ar 6 Awst 2025.

coedwigaeth mewn modd sy'n hollol gydnaws â rhwymedigaethau dan ddeddfwriaeth ddiweddarach. Nododd fod y system trwyddedau cwympo coed wedi'i chynllunio i reoleiddio coedwigaeth ar gyfer cynhyrchu pren. Felly, nid oedd trwyddedau cwympo coed yn briodol ar gyfer gwarchod coetir hynafol, coed y tu allan i goedydd, neu goed ar dir datblygu posibl.

Roedd yr ymatebion yn cefnogi cynigion i gyflwyno'r opsiwn i gael cosbau sifil ar gyfer troseddau'n ymwneud â thrwyddedau cwympo coed, ar yr amod nad oedd hynny'n cymryd lle'r opsiwn i gymryd camau troseddol ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol. Nododd hefyd y gellid cyflawni canlyniadau gwell gan ddefnyddio hysbysiadau stop, hysbysiadau ailstocio a chosbau eraill i unioni difrod a wnaed, cyhyd â'u bod yn cael eu gorfodi'n iawn.

O ran amodau trwyddedau cwympo coed, roedd Coed Cadw yn gryf o blaid cynigion, sydd wedi'u cynnwys erbyn hyn yn y ddeddfwriaeth ddiwygiedig, i roi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru allu dirymu neu ddiwygio caniatâd i gwympo coed. Dywedodd hefyd y dylai trwyddedau cwympo coed o leiaf ddefnyddio a monitro gofynion Safon Goedwigaeth y DU.

Roedd Coed Cadw yn teimlo y dylai caniatâd i gwympo coed mewn coetiroedd hynafol fod yn rhwym bob amser wrth gynllun rheoli cymeradwy, ac yn achos coed hynod a choed aeddfed mawr y dylai fod yna ragdybiaeth yn erbyn rhoi caniatâd i gwympo coed. Awgrymodd hefyd y dylai fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i wrthod neu osod amodau ychwanegol yng nghyswllt coed hynafol neu hynod (h.y. coed o unrhyw oedran sydd â nodweddion hynafol) gan ystyried eu lefel uchel o fioamrywiaeth a gwerth diwylliannol (mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ddiwygiedig). Os rhoddir trwydded i gwympo coed o'r fath, dylai amodau'r caniatâd fynnu camau lliniaru a digolledu cymesur sy'n adlewyrchu gwerth yr hyn a gollwyd.

Roedd Coed Cadw yn credu bod rhai datblygwyr yn ceisio manteisio ar fylchau yn y broses drwyddedu, er enghraifft, drwy rannu coetir yn ardaloedd sy'n eiddo i wahanol berchnogion a bwrw ymlaen, o fewn yr eithriadau sy'n gysylltiedig â therfynau

trwyddedau cwympo coed, i waredu coetir cyn gofyn am ganiatâd cynllunio. Rhoddir y caniatâd hwnnw wedyn oherwydd nad yw'r coetir yn bodoli mwyach.

Roedd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir o'r farn bod y system yn gweithio'n effeithiol, ond y dylid ystyried diwygiad neu adolygiad dros dro yng nghyswllt rheoli'r clefyd coed ynn.[71]

Gofynnodd Coed Cadw am adolygiad o'r sail ar gyfer esemptiadau'n ymwneud â thrwyddedau cwympo coed. Roedd yn teimlo bod y mesurau presennol yn gymhleth a soniodd am y nifer fawr o gwynion gan y cyhoedd, er na roddwyd unrhyw dystiolaeth gadarn o hynny. Roedd yn credu bod y gyfundrefn bresennol ar gyfer esemptiadau'n anodd dros ben i'r cyhoedd ei deall ac yn anodd i reoleiddwyr ei monitro neu'i gorfodi. I ddatrys y problemau hyn, awgrymodd Coed Cadw y dylid ailystyried yr esemptiadau, gan gynnwys dileu neu leihau'r esemptiad ar gwympo hyd at 5 metrau ciwbig o bren bob chwarter. Awgrymodd y dylai trwydded cwympo coed fod yn ofynnol ar gyfer unrhyw waith cwympo coed sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer bod angen trwydded o'r fath. Nododd nad yw'r esemptiad 5 metrau ciwbig yn berthnasol yn yr Alban ar gyfer coetir llydanddail brodorol rhwng 0.1 a 0.5 hectar o faint, a'i bod yn ofynnol i berchnogion coetir preifat yng Ngogledd Iwerddon wneud cais am drwydded cwympo coed os ydynt yn dymuno cwympo mwy na 0.2 hectar.

### *4 A oes yna systemau amgen y gellid eu defnyddio?*

Awgrymodd Coed Cadw y dylai'r esemptiad sy'n seiliedig ar nifer y coed gael ei ddisodli gan system lle caiff rhai mathau o goed eu gwarchod yn awtomatig. Awgrymodd hefyd fod angen dull newydd o ymdrin â chwympo coed unigol gwasgaredig, gan fod y meini prawf presennol ar gyfer trwyddedau cwympo coed yn caniatáu gwaredu'n sylweddol ac yn fynych orchudd coed sydd y tu allan i goetir.

[71] Gweler yn awr https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2024/10/4/1727943463/clefyd-coed-ynn-y-dull-polisi-2024-i-2029.pdf a https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/managing-ash-dieback/?lang=cy

Roedd hefyd yn pryderu y dylai gwarchodaeth ar gyfer coed y tu allan i goedydd a gwrychoedd, a gâi ei darparu gan y system drawsgydymffurfio a oedd yn bodoli ar y pryd ar gyfer ffermydd, barhau yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid defnyddio cosbau sifil yng nghyswllt pob math o ddefnydd tir yng Nghymru, a fyddai'n cynnwys defnyddio hysbysiadau cosb benodedig, hysbysiadau cosb amrywiol, a chamau gorfodi. Roedd yn teimlo y byddai'r rhain yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i reoleiddio mewn modd mwy cymesur, a nododd eu bod yn cael eu defnyddio'n fwy helaeth o lawer yn Lloegr a'r Alban a'u bod yn cynnig arbedion a all fod yn enfawr o gymharu â dulliau rheoleiddio confensiynol.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y dylid cael arweiniad a chyngor gwell, megis canllawiau dedfrydu ar gyfer panelau adolygu, er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dulliau mwy cyson o fonitro a gorfodi.

Yn olaf, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid ystyried cyflwyno ystod o grantiau er mwyn cymell perchnogion coetir i ragori ar y gofynion rheoleiddio. Un enghraifft o hynny oedd *Coetiroedd Gwell i Gymru*, a oedd yn cynnig ystod eang o grantiau cyfalaf ar gyfer gweithgareddau cynllunio a gweithgareddau rheoli wedi'u diffinio.

Awgrymodd cyn Gomisiynydd Coedwigaeth y dylai fod yna gysylltiad amlwg rhwng trwyddedau cwympo coed a Safon Goedwigaeth y DU, ac awgrymodd y byddai'r gallu i gyflwyno 'gorchymyn stop' ar achos o gwympo coed os yw'n mynd yn groes i'r Safon honno, hyd yn oed ar safle sydd wedi cael caniatâd i gwympo coed, yn darparu mwy o warchodaeth amgylcheddol. Nododd fod Deddf Coedwigaeth a Rheoli Tir (Yr Alban) 2018 yn cynnwys pwerau i wneud gorchmynion stop.

***5 A oes yna systemau, yr ydych chi'n gwybod amdanynt, sy'n cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill i reoli gwaith cwympo coed yn briodol?***

Awgrymodd Coed Cadw y dylai Cymru fabwysiadu'r ddarpariaeth a ganfuwyd yn adran 18(5) Deddf Coedwigaeth (Gogledd Iwerddon) 2010, sy'n ymgorffori mewn cyfraith werth arbennig coetir hynafol:

> *In determining the felling management plan for any land which consists of, or includes, ancient woodland, the Department shall have regard to the desirability of maintaining the special character of that woodland.*

Nododd hefyd fod gan Ynys Manaw system o warchodaeth sylfaenol ar gyfer pob coeden y mae diamedr ei boncyff yn fwy nag 8cm, a bod gan Ynys Manaw lefel fwy cynhwysfawr o warchodaeth ar gyfer 'coed cofrestredig'.[72]

Nododd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir fod trwyddedau cwympo coed yng Nghymru yn para am lai o amser nag yng ngwledydd eraill y DU (yng Nghymru mae trwyddedau llwyrgwympo coed yn para am ddwy flynedd, o gymharu â phum mlynedd yn Lloegr a'r Alban). Roedd yn teimlo bod hynny'n golygu bod gwaith cwympo coed yn cael ei gyflawni ar frys yng Nghymru, sy'n arwain at gynllunio a gweithredu gwael. Ar y llaw arall, roedd yn teimlo bod cynlluniau 10 mlynedd amgen Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli coedwig yn gymhleth tu hwnt, yn rhy gostus ac yn addas i goedwigaeth ar raddfa fwy helaeth yn unig.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod rheoleiddio cwympo coed yn yr UE yn cael ei lywodraethu gan y Rheoliadau Gorfodi Cyfraith, Llywodraethu a Masnach Coedwigoedd (FLEGT).[73] O ran y DU, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru mai uchafswm o £5,000 oedd dirwy lefel 5 ar y raddfa safonol yn yr Alban, tra mae dirwy lefel 5 yng Nghymru a Lloegr yn anghyfyngedig. Yn yr Alban, fodd bynnag, gall y ddirwy fod yn

---

[72] Caiff coeden gofrestredig ei diffinio fel a ganlyn dan adran 2(2) Deddf Cadw Coed 1993: *(a) a tree, particulars of which are entered in the register, or (b) a tree forming part of a group of trees or wood, particulars of which are so entered.*

[73] Mae gwybodaeth am y dulliau y mae gwledydd yn eu mabwysiadu i fynd i'r afael ag achosion anghyfreithlon o dorri coed yn foncyffion i'w gweld ar Flegt.org.

berthnasol i bob coeden unigol, sy'n ddull gwell o atal pobl rhag cwympo coed yn anghyfreithlon. Nid yw'n glir a yw cael dirwy benodol ar gyfer pob coeden a gaiff ei chwympo mewn modd sy'n groes i'r gofynion statudol dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, mewn gwirionedd, yn ddull gwell o atal pobl rhag cyflawni trosedd. Er bod y llysoedd yng Nghymru wedi cyflwyno rhai dirwyon mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gall y rheini gael eu gostwng yn sylweddol yn dilyn apêl. O ganlyniad, nid yw'n ymddangos o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad bod maint dirwyon yn ddull digonol nac effeithiol o atal pobl rhag gwaredu coed yn anghyfreithlon.

***6 Ym mha ffyrdd y caiff bioamrywiaeth, ac yn enwedig cadw a gwarchod bywyd gwyllt, eu hystyried wrth i bobl wneud cais am drwyddedau cwympo coed ac wrth i'r trwyddedau hynny gael eu hystyried?***

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na châi bioamrywiaeth ei hystyried pan gaiff ceisiadau eu gwneud am drwyddedau cwympo coed. Rhoddodd Cymdeithas Ddinesig Caerdydd enghraifft lle'r oedd ffawydden goprog aeddfed wedi cael ei chwympo er bod arolwg wedi nodi 22 o rywogaethau yn y goeden yn ystod cyfnod o 1.5 awr.

Dywedodd Coed Cadw nad oedd Deddf Coedwigaeth 1967 yn caniatáu i amodau ynghylch gofynion o ran bioamrywiaeth gael eu hychwanegu at drwyddedau cwympo coed. Awgrymodd fod amodau posibl a allai fod yn werthfawr ar gyfer trwyddedau cwympo coed yn cynnwys gofynion i wella cynefinoedd uchel eu gwerth, sy'n cynnwys nodi coed brodorol ar gyfer unrhyw waith ailstocio ar safle coetir hynafol; lliniaru effeithiau ar dir cyfagos; a chyflwyno amodau sy'n rheoleiddio effeithiau ymhellach i lawr cwrs dŵr, megis llifogydd. Mae'r amodau sylfaenol newydd a gyflwynwyd yn dilyn y diwygiadau i'r Ddeddf yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Mynegodd yr RSPB bryder tebyg, sef nad yw'r gofyniad i ailstocio coed sydd wedi'u cwympo yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ofynion o ran cadwraeth natur. Roedd yn teimlo y gallai culni'r amodau y gellid eu clymu wrth drwyddedau cwympo coed rwystro

uchelgais i gynnal a gwella (neu adfer) cydnerthedd ecosystemau. Roedd o'r farn y dylai'r modd y caiff trwyddedau cwympo coed eu defnyddio gael ei adolygu yng nghyswllt y diffiniad o 'goetir' a'r amod i ailstocio ac yng nghyswllt y modd y caiff y dirwedd gyfagos ei rheoli, a'i hamcanion a'i statws.

Ar y llaw arall, dywedodd ymatebwyr eraill fod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn ystod y broses. Nododd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir y byddai'r asiant/ymgeisydd yn arolygu'r coetir cyn gwneud cais am drwydded cwympo coed, a bod staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio'n fawr ar elfennau cadwraeth a'r elfennau ecolegol pan fyddant yn ymweld ag eiddo cyn rhoi trwydded. Fodd bynnag, nododd fod yna wrth-ddweud yn aml rhwng yr asesiad cychwynnol a'r asesiad a gynhelir yn dilyn apêl neu drwy'r broses gwyno. Mae'r Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir yn teimlo bod yr anghysondeb hwn, o ran ystyried yr effeithiau y mae cwympo coed yn eu cael ar fioamrywiaeth, yn arwain yn aml at achosion anodd a hirfaith y gall gymryd blynyddoedd i'w datrys.

Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y broses drwyddedu'n cael ei chynnal ar y cyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac, os yn berthnasol, Asesiad Amgylcheddol Strategol. Os caiff safleoedd, cynefinoedd neu rywogaethau gwarchodedig neu â blaenoriaeth a/neu nodweddion o ddiddordeb eu nodi mewn cais, bydd timau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori'n fewnol i sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth nac ar unrhyw fater amgylcheddol arall.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd yn medru clymu amodau wrth drwyddedau cwympo coed i sicrhau integriti safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig neu 'dderbynyddion amgylcheddol' sensitif eraill. Yn hytrach, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gyfyngu gan statud i osod amodau ynghylch ailstocio coed yn unig (ac ynghylch cynnal y coed hynny wedyn).

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw'r ffaith bod trwydded cwympo coed wedi'i rhoi yn gyfystyr â chaniatâd dan bob deddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, roedd yna

rywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod rhai ymgeiswyr yn credu bod y ffaith bod trwydded cwympo coed wedi'i rhoi yn gyfystyr â chaniatâd llawn. Mae'n bosibl y bydd angen trwydded ar gyfer rhywogaethau ac y bydd angen mathau eraill o ganiatâd hefyd. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn ysgrifennu at ymgeiswyr i rannu ei adborth fel bod yr ymgeisydd yn ymwybodol ac yn gallu cymryd camau gweithredu priodol, sy'n cynnwys gwneud cais drwy gyfundrefnau eraill er mwyn cael caniatâd. Mae angen ffurfioli'r modd y mae cyfundrefnau sy'n ategu ei gilydd yn trawsgydymffurfio â'i gilydd, er mwyn sicrhau proses effeithlon.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod yn rhaid ymestyn ei bwerau er mwyn iddo allu clymu amodau amgylcheddol wrth drwyddedau cwympo coed i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys ei ddyletswydd gyfreithiol dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### 3.6 Casgliadau AIDAC ynghylch trwyddedau cwympo coed

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y broses o wneud cais am drwydded cwympo coed yn cael ei derbyn yn gyffredinol a'i deall yn dda. Fodd bynnag, roedd yna lai o eglurder ynghylch a oedd yn ofynnol efallai cael awdurdodiad arall ar wahân i'r drwydded cwympo coed. Nid oedd rhai pobl yn sylweddoli y gallai fod yn ofynnol iddynt wneud cais am awdurdodiadau eraill; ac roedd eraill yn amau'r angen i wneud hynny.

Fodd bynnag, mae'r esemptiadau'n ymwneud â thrwyddedau, y darperir ar eu cyfer dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, yn rhy gymhleth ac maent yn caniatáu i lawer o goed gael eu cwympo heb fod angen gwneud cais am drwydded.

Nid yw'n glir faint o waith cwympo coed sy'n digwydd mewn gwirionedd. Ceir pryderon y gallai tirfeddianwyr fod yn cwympo mwy o goed nag y caniateir iddynt eu cwympo dan esemptiadau neu dan delerau eu trwydded(au). Heb ffordd o fonitro'n gywir faint o waith cwympo coed sy'n digwydd mewn gwirionedd, mae'n amhosibl i'r rheoleiddiwr

asesu'n iawn a yw'r trefniadau trwyddedu presennol yn addas i'w diben ac a ydynt yn gwarchod ein coed a'n coetiroedd yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, caiff gweithgarwch cwympo coed ei fesur drwy nodi nifer y coed. Nid yw'r dull hwn o weithredu'n ystyried capasiti coed i atafaelu carbon, lle mae coed aeddfed yn gallu dal mwy o garbon. At hynny, ceir achosion sylweddol o waith cwympo coed yng Nghymru yr honnir ei fod yn anghyfreithlon.[74]

Rydym yn croesawu'n fawr iawn y newidiadau i ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Maent yn cyfrannu at dawelu'r pryderon a fynegwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am ddiffyg hyblygrwydd yn y system. Mae ychwanegu anghenion o ran cadwraeth fel rheswm arall dros wneud trwydded yn amodol yn rhywbeth i'w groesawu, ond mae'n bosibl nad yw'n mynd yn ddigon pell.

Mae AIDAC yn cymeradwyo'n gryf y mesurau a'r canllawiau cysylltiedig y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u datblygu ar gyfer amodau amgylcheddol[75]. Ceir tair haen o amodau. Mae amodau sylfaenol yn amodau safonol sy'n cyd-fynd â Safon Goedwigaeth y DU. Maent yn cynnwys, er enghraifft, gofyniad i adnabod coed hynod, eu cadw, eu rheoli ac osgoi eu difrodi. Cânt eu hychwanegu'n awtomatig at bob trwydded cwympo coed. Gall amodau Haen Dau gael eu clymu wrth drwydded lle gallai fod yna effaith bosibl ar ardaloedd sensitif a/neu rywogaethau gwarchodedig, sy'n cynnwys coetir hynafol, gwiwerod coch a llygod dŵr. Gellir cynnwys amodau pwrpasol hefyd os oes yna fwy nag un ardal sensitif ar safle. Cânt eu pennu fesul safle. Caiff amodau Haen Dau ac amodau pwrpasol eu pennu ar ôl ymgynghori â'r ymgeisydd.

---

[74] Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru fod yna 451 o adroddiadau yn 2023-24; sylwadau ar yr adroddiad drafft, a gafwyd ar 6 Awst 2025.
[75] *Trwydded torri coed - amodau amgylcheddol*. Ar gael yma: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/tree-felling-licence-environmental-conditions/?lang=cy a *Felling Licences: Guidance for Felling Licence Applicants: Environmental Conditioning on Felling Licences*. Ar gael yma: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/a1dbxp0b/guidance-for-applicants-and-licence-holders-convert-eng.pdf.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y ffaith nad yw methu â chydymffurfio ag amod trwydded yn drosedd. Os na chydymffurfir ag amod amgylcheddol, unig lwybr gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru yw cyflwyno hysbysiad sy'n diwygio, yn atal dros dro neu'n dirymu'r drwydded.[76] Rydym yn cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw hynny efallai'n rhwymedi digonol, er enghraifft os yr amod oedd cadw rhywbeth a gwympwyd neu yr aflonyddwyd arno. Erbyn hynny, mae'r niwed amgylcheddol wedi digwydd yn barod heb fod unrhyw fodd i erlyn y tirfeddiannwr neu'r gweithredwr neu'i gosbi fel arall.[77]

Rydym yn cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r ddeddfwriaeth ynghylch hysbysiadau ailstocio yng Nghymru gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn Lloegr. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi sy'n mynnu bod rhywun yn cydymffurfio ag amod trwydded yn drosedd. Yn Lloegr, os yw'r amod yn ymwneud ag ailstocio, gall y llys hefyd wneud gorchymyn ailstocio. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r broses hon yn gweithio'n dda.[78] Fodd bynnag, ni wnaeth Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) ddarparu ar gyfer diwygio'r Ddeddf Coedwigaeth er mwyn darparu darpariaethau tebyg i Gymru. Cafwyd llawer o erlyniadau yng Nghymru ynghylch cwympo coed yn anghyfreithlon, lle nad yw'r tir wedi'i ailstocio ar ôl i rywun fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi.[79]

Gallai fod yn ofynnol cwympo rhai coed er mwyn rheoli coetiroedd hynafol, er enghraifft at ddibenion teneuo. Rydym yn cytuno â Coed Cadw y dylai caniatâd i gwympo coed mewn coetiroedd hynafol fod yn rhwym bob amser wrth gynllun rheoli cymeradwy ac y dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn rhoi caniatâd i gwympo coed hynod a choed aeddfed mawr yn y coedydd hyn.

Mae'n bwysig bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu, fel bod yna werth mewn ystyried cyflwyno system codi tâl

---

[76] Deddf Coedwigaeth, adran 24C.
[77] Sylwadau ar yr adroddiad drafft, a gafwyd ar 6 Awst 2025.
[78] Ibid.
[79] I gael rhagor o wybodaeth, gweler https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/news/illegal-tree-felling-crackdown-nrw-secures-three-major-prosecutions/?lang=cy

i wneud iawn am y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith cynyddol o brosesu a chymeradwyo ceisiadau am drwyddedau cwympo coed. Byddai angen sicrhau cydbwysedd rhwng camau i gyflwyno unrhyw gynllun o'r fath a'r angen i sicrhau bod tirfeddianwyr yn dal i gael eu cymell yn briodol i wneud cais am drwydded. Mae AIDAC o'r farn y byddai manteision system codi tâl yn fwy nag unrhyw anfanteision posibl. Nid yw'n glir a oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pwerau angenrheidiol ar hyn o bryd i godi tâl; os oes raid, dylid diwygio'r gyfraith i ddarparu ar gyfer hynny.[80]

Nid yw AIDAC yn credu bod pwysigrwydd coed i Gymru yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y cosbau sydd ar gael ar gyfer troseddau. Er enghraifft, dylai nodweddion pob coeden a gaiff ei chwympo'n anghyfreithlon gael eu hystyried wrth bennu dirwyon. Rydym hefyd yn cytuno y gallai'r opsiwn i roi cosbau sifil fod yn system orfodi sy'n fwy effeithlon ac yn fwy cost-effeithiol.

[80] Mae AIDAC ar ddeall bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a oes ganddo'r pwerau hyn dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. OS 2012/1903, Cy. 230. Mae erthygl 13A yn nodi bod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru wario pob swm y mae'n ei gael am werthu neu am waredu mewn modd arall goed neu gynhyrchion coedwigaeth eraill ar arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â choedwigaeth, fforestydd, coedwigoedd a diwydiannau coetir.

**3.7 Argymhellion ynghylch trwyddedau cwympo coed**

**Argymhelliad 1: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, cyn gynted ag sy'n bosibl, gyflwyno a gweithredu rhaglen fonitro well gan ddefnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael i gofnodi'n gywir achosion o gwympo coed yng Nghymru. Awgrymir y dylai hynny gael ei ysgogi gan Lywodraeth Cymru a'i weithredu ar draws Cymru.**

**Argymhelliad 2: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i ddiwygio'r Ddeddf Coedwigaeth er mwyn sicrhau bod methu â chydymffurfio ag amod amgylcheddol yn drosedd.**

**Argymhelliad 3: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i ddiwygio'r Ddeddf Coedwigaeth er mwyn galluogi'r llys i wneud gorchymyn ailstocio.**

**Argymhelliad 4: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rhagdybiaeth mewn cyfraith yn erbyn rhoi trwyddedau cwympo coed ar gyfer coed hynod a choed aeddfed mawr mewn coetiroedd hynafol.**

**Argymhelliad 5: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pwerau angenrheidiol i'w alluogi i godi tâl am geisiadau am drwyddedau cwympo coed, yn amodol ar ymarfer ymgynghori.**

**Argymhelliad 6: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu cynllun ar gyfer codi tâl am drwyddedau cwympo coed, ar ôl iddo gael cadarnhad bod ganddo'r pwerau angenrheidiol i wneud hynny.**

**Argymhelliad 7: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno cosbau sifil yng nghyswllt cwympo coed yn anghyfreithlon.**

**Argymhelliad 8: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i sicrhau y dylai cosbau troseddol, os cânt eu defnyddio, gael eu cyflwyno yng nghyswllt coed unigol a gaiff eu cwympo yn hytrach nag yng nghyswllt grwpiau o goed.**

# 4 Gorchmynion Cadw Coed

## 4.1 Fframwaith cyfreithiol yng nghyswllt Gorchmynion Cadw Coed

Mae darpariaeth ar gyfer gwarchod coed sydd o werth o ran amwynder wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth ynghylch cynllunio ers 1932. Cafodd Gorchmynion Cadw Coed eu cyflwyno gyntaf yn 1943[81] ac maent wedi parhau ar yr un ffurf, fwy neu lai, ym mhob Deddf Cynllunio ers hynny. Diben Gorchymyn Cadw Coed yw sicrhau nad yw coed a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed yn cael eu cwympo heb awdurdod neu'n cael eu niweidio'n ddifrifol.

Mae'r darpariaethau presennol yn rhan o adran 198 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n darparu fel a ganlyn:

> (1) If it appears to a local planning authority that it is expedient in the interests of amenity to make provision for the preservation of trees or woodlands in their area, they may for that purpose make an order with respect to such trees, groups of trees or woodlands as may be specified in the order.
>
> (2) An order under subsection (1) is in this Act referred to as a "tree preservation order".

Ni fydd Gorchymyn Cadw Coed yn dod i rym nes y bydd wedi'i gadarnhau, ac eithrio os caiff ei wneud dros dro, sy'n darparu gwarchodaeth am uchafswm o chwe mis neu nes y bydd y gorchymyn wedi'i dderbyn yn swyddogol os yw hynny'n digwydd yn gynharach.[82] Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o orchmynion wedi'u gwneud ar sail yr ail senario.[83] Mae Atodlen i'r Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf yn egluro ffurf enghreifftiol ar gyfer Gorchymyn Cadw Coed.[84] Mae pob Gorchymyn Cadw Coed yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am ganiatâd i gyflawni unrhyw weithred a

---

[81] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Interim) 1943, adran 8.
[82] Mae adran 201(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed dros dro.
[83] Fel y nodwyd ym mharagraff 3.6 *Cadw coed a choedwigoedd: rheoliadau newydd* Llywodraeth Cymru 15 Tachwedd 2024. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/cadw-coed-choedwigoedd-rheoliadau-newydd
[84] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 OS 1999/1892.

waherddir gan y Gorchymyn, ynghyd â manylion yr hawl i iawndal os gwrthodir rhoi caniatâd neu os caiff ei roi gydag amodau beichus.

### *4.1.1 Amwynder*

Ni cheir unrhyw ddiffiniad o amwynder yn y Ddeddf, ond mae System Helliwell[85] wedi'i defnyddio mewn achosion llys, hawliadau yswiriant ac ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn rhoi gwerth ar goed a choetir o ran amwynder gweledol. Mae'r system hon yn rhoi sgôr i goed ar sail saith categori sy'n cynnwys lleoliad, maint, disgwyliad oes, safle, a ffactorau arbennig. Yn fwy diweddar, mae Cymdeithas Swyddogion Coed Llundain wedi mabwysiadu system Chris Neilan, sef Gwerth Ased Cyfalaf ar gyfer Coed Amwynder. [86]

Er y ddwy system sy'n ceisio pennu gwerth ariannol ar gyfer coeden neu goetir, mae absenoldeb diffiniad clir o beth yw 'gwerth o ran amwynder' yn golygu bod awdurdodau'n arfer barn wrth benderfynu a oes ganddynt bwerau i wneud Gorchymyn Cadw Coed. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn awgrymu y bydd ffactorau wrth asesu amwynder yn cynnwys amlygrwydd ac effaith gyhoeddus gwaredu'r amwynder.[87] Mae Development Control and Practice (2023) yn cydnabod y manteision niferus o ran amwynder y mae coed yn eu darparu, sef:

> *'in civic design terms they create gateways, avenues, screens, or visual foci. In relation to buildings, trees are often important foils, with broad-leaved species in particular offering a cherished seasonal dynamic in urban situations where natural forms are otherwise missing. Trees are also vital to the ecology of an area.*'[88]

[85] Mae System Helliwell yn ddull lle caiff gwerth ariannol ei roi ar goed/coetir.
[86] Cafodd y system Gwerth Ased Cyfalaf ar gyfer Coed Amwynder ei defnyddio yng nghyswllt achosion y Sycamore Gap a'r Enfield Oak; nid oedd Gorchymyn Cadw Coed ar waith i warchod y naill goeden na'r llall.
[87] Defra 2020 *England Tree Strategy Consultation*, ar dud. 21.
[88] DCP Online 2023 *Chapter 29: Tree and Hedge Preservation*, ym mharagraff 29.13.

Dywed Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru[89] y dylai awdurdodau cynllunio lleol sy'n ystyried yr angen am Orchymyn Cadw Coed asesu'r canlynol:

> ***Visibility:*** *the extent to which trees … can be seen by the public. … The tree(s) should normally be visible from a public place, such as a road or footpath, or accessible by the public.*
> ***Individual, collective and wider impact:*** *Public visibility alone will not be sufficient. … the particular importance of an individual tree, or group of trees, or of woodland [should be assessed] by reference to … characteristics including size and form; future potential use as an amenity; rarity; cultural or historical value; contribution to or relationship with, the landscape; and contribution to the character or appearance of a Conservation Area.*
> ***Other factors:*** *where relevant … [LPAs] may consider taking into account other factors such as importance to nature conservation of response to climate change. These factors alone would not warrant making an Order.*

#### *4.1.2 Gweithgareddau gwaharddedig*

Mae'r Ddeddf yn cynnwys rhestr o weithredoedd gwaharddedig na ellir eu cyflawni heb ganiatâd, ond mae hefyd yn darparu ar gyfer eithriadau rhag yr angen i wneud cais am ganiatâd.

Dan adran 210(1), mae'n drosedd gwneud y canlynol heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol:

a) torri coeden warchodedig i lawr, ei diwreiddio neu'i dinistrio yn fwriadol; neu
b) ei niweidio, ei brigdorri neu'i thocio yn fwriadol mewn modd sy'n debygol o'i dinistrio.

[89] Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru *Tree Preservation Orders and Trees* https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-03/atisn17121doc15.pdf

Gallai person a gaiff ei ganfod yn euog o drosedd wynebu dirwy'n dilyn euogfarn ddiannod neu dditiad. Wrth bennu swm dirwy, rhaid i'r llys ystyried unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni i'r parti sy'n euog.[90] Mae cyflawni gwaith arall heb ganiatâd yn drosedd hefyd.[91]

Mae'r achos *Swansea City Council v Enzo Homes Ltd*[92] yn dangos yr heriau a wynebir wrth geisio gorfodi Gorchmynion Cadw Coed. Er bod y datblygwr yn wynebu dirwyon sylweddol i ddechrau, cafodd y rheini eu gostwng yn dilyn apêl.

**Astudiaeth achos: Enzo Homes**

Ym mis Hydref 2019 cafodd datblygwr eiddo, a'i gwmni, sef Enzo Homes Ltd, ddirwyon o £180,000 a £120,000 yn eu tro gan Lys Ynadon Abertawe ynghyd â gorchymyn i dalu costau, a hynny am ddinistrio yn fwriadol goeden goch enfawr a oedd yn 176 blwydd oed ac yn 27m o daldra yn ogystal â 72 o goed eraill mewn coetir hynafol.[93] Plediodd y contractwr coed a gwympodd y coed yn euog i dorri'r Gorchymyn Cadw Coed, a chafodd ddirwy o £120,000 yn ogystal â gorchymyn i dalu costau.[94] Roedd Gorchmynion Cadw Coed ar waith ar gyfer pob un o'r coed a gafodd eu cwympo ar y safle ym Mhenlle'r-gaer, Abertawe ym mis Tachwedd 2018.[95] Clywodd y Llys fod y goeden goch yn werth tua £66,000 ond ei bod, mewn gwirionedd, yn goeden na allai dim gymryd ei lle. Ffactor canolog i'r penderfyniad ynghylch a oedd trosedd wedi'i chyflawni gan y diffynyddion oedd p'un a oedd y diffynyddion wedi mynd ati'n fwriadol i gwympo'r coed yr oedd Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol iddynt. Dyma sut y

---

[90] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 210(3).
[91] Ibid, adran 210(4). Mae dirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar euogfarn ddiannod yn berthnasol i'r drosedd hon.
[92] *Swansea City Council v Enzo Homes Ltd* (2021). Gweler hefyd BBC News 17 Medi 2021 *Developer cleared of deliberately chopping trees in Swansea*. Ar gael yma: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-58601981
[93] Dylid nodi nad yw categoreiddio coetir hynafol yn ddigon ynddo'i hun i ddarparu unrhyw warchodaeth statudol.
[94] *City and County of Swansea v Enzo Homes Limited*, Mr Sauro ac Arwyn Morgan. Llys Ynadon Abertawe, 24 Medi 2014.
[95] Roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi ar 30 Mai 2018 i adeiladu 80 o unedau preswyl ar y safle. Roedd amod a oedd ynghlwm wrth Hysbysiad Penderfynu 2017/0986/FUL yn mynnu bod Enzo Homes Ltd yn cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol gynllun ar gyfer gwarchod coed.

gwnaeth y Barnwr Rhanbarth ymresymu wrth gloi'r mater: *"[i]t is inconceivable on this evidence the felling of this tree and the ancient woodland was done in any other way than deliberately. There would have been discussions about how it was to be done, permission obtained to remove the fence and any other preparatory work".*[96]

Apeliodd Enzo Homes Ltd a'r meddyg coed a gontractiwyd i gyflawni'r gwaith yn erbyn eu heuogfarn a lefel y ddirwy. Gwrandawyd ar yr apêl yn Llys y Goron Abertawe ym mis Ionawr 2021. Daeth barnwr Llys y Goron i'r casgliad, o ran diwreiddio neu ddinistrio'n fwriadol goed yr oedd Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol iddynt, fod yr apelyddion yn euog dan adran 331 (Troseddau gan Gorfforaethau) o esgeulustod yn ymwneud â'r weithred o gwympo'r goeden goch. Fodd bynnag, o ran y 72 o goed yn y coetir hynafol, canfu'r llys ei bod yn amhosibl dod i'r casgliad gydag unrhyw lefel o sicrwydd bod Enzo Homes Ltd wedi rhoi cyfarwyddyd i'r meddyg coed gwympo'r 72 o goed. Gwrthododd y Barnwr Clee yr apêl a oedd yn gysylltiedig â'r cyhuddiad yn erbyn pob apelydd o ran dinistrio'r goeden goch, ond derbyniodd yr apêl yn erbyn y cyhuddiad a oedd yn ymwneud â'r 72 o goed eraill.[97] Yn dilyn yr apêl, cafodd dirwyon y datblygwr eiddo, a'i gwmni, sef Enzo Homes Ltd, eu lleihau yn eu tro i £50,000 a £50,000 yn ogystal â gorchymyn i dalu costau.

Wrth ystyried lefel y ddirwy a bennwyd i ddechrau ar gyfer y meddyg coed, canfu'r barnwr ei bod yn ofynnol i'r parti fod wedi darllen y Gorchmynion Cadw Coed cyn dechrau ar y gwaith cwympo coed. O ganlyniad, ni chafodd y coed eu dinistrio oherwydd camgymeriad, ond oherwydd esgeulustod.[98] Gan droi at lefel y ddirwy, ystyriodd y llys a oedd unrhyw fantais ariannol yn deillio o gwympo'r coed. Ystyriwyd nad oedd unrhyw fantais o'r fath wedi deillio o hynny, a barnwyd bod y ddirwy wreiddiol a bennwyd gan y Llys Ynadon yn amhriodol. Felly, cafodd yr apêl yn erbyn lefel y

[96] BBC News 15 Hydref 2019 *Illegal Tree Felling: Fiorenzo Sauro and Enzo Homes Fined £300k*. Ar gael yma: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50061303. Gweler hefyd BBC News Mehefin 2021 *Claims ancient Swansea tree was chopped down for profit dubbed 'bizarre'*. Ar gael yma: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-57499595

[97] *Swansea City Council v Enzo Homes Ltd* (2021).

[98] Evans, J. 17/09/2021 *House-builders Enzo's Homes lose appeal against conviction for felling historic Redwood Tree at Penllergare Valley Woods*. Wales Online yma: https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/enzos-homes-penllergaer-pontlliw-tree-21597085

ddirwy ei chaniatáu. Gan ystyried incwm y contractwr, cafodd y contractwr ddirwy o £4,000 gan y barnwr a ddywedodd y byddai'r costau gwreiddiol yn ei erbyn yn aros yr un fath.

### *4.1.3 Eithriadau*

Mae angen caniatâd gan yr awdurdod cynllunio lleol i gyflawni gwaith ar goeden a warchodir dan Orchymyn Cadw Coed, ond ceir eithriadau – caiff rhai eu nodi yn y Ddeddf (adrannau 198(6), (7) a 200) a chaiff rhai eu nodi yn y Gorchymyn Cadw Coed perthnasol. Mae'r eithriadau hynny'n cynnwys y canlynol:

- torri i lawr neu'n ôl goeden sy'n marw, sydd wedi marw neu sy'n beryglus;
- yn unol â rhwymedigaeth dan Ddeddf gan Senedd y DU;
- ar gais rhai sefydliadau a nodir yn y Gorchymyn Cadw Coed;
- mae'r goeden/coed yn rhwystro'n uniongyrchol ddatblygiad sydd ar fin dechrau ac y mae caniatâd cynllunio manwl wedi'i roi iddo;
- mewn perllan fasnachol, neu docio coed ffrwythau'n unol ag arfer garddwriaethol da;
- er mwyn atal neu reoli niwsans cyfreithiol;
- mae'r goeden/coed yn cael ei thorri/eu torri'n unol â chynllun grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi trwydded cwympo coed.

### *4.1.4 Ardaloedd Cadwraeth*

Caiff Ardaloedd Cadwraeth, a ddiffinnir fel ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol, cymdeithasol neu bensaernïol penodol, eu dynodi dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae rheolau arbennig yn berthnasol i goed mewn Ardal Gadwraeth, na chânt eu gwarchod yn barod gan Orchymyn Cadw Coed. Mewn achosion o'r fath, mae angen rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch unrhyw waith arfaethedig, o leiaf chwe wythnos cyn i'r gwaith ddechrau. Mae hynny'n rhoi cyfle i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried gwarchod y goeden rhag effaith y gwaith arfaethedig. Nid oes yn rhaid rhoi hysbysiad ynghylch gwaith ar goeden mewn Ardal Gadwraeth os yw diamedr y goeden yn llai na 7.5cm pan gaiff ei fesur 1.5m uwchlaw lefel y ddaear (neu os yw'n 10cm os gwneir gwaith teneuo er mwyn helpu coed eraill i dyfu).

### *4.1.5 Arweiniad*

Caiff arweiniad ynghylch Gorchmynion Cadw Coed ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ei ddarparu ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol[99] a cheir arweiniad ar gyfer y cyhoedd hefyd.[100]

Mae'r arweiniad ar gyfer y cyhoedd yn esbonio effaith Gorchmynion Cadw Coed ar ganiatâd cynllunio a roddir:

> *Nid yw gorchymyn cadw coed yn golygu na ellir cael caniatâd cynllunio. Ond fe fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried a oes coed wedi'u gwarchod ar safle cyn rhoi caniatâd cynllunio. Cyn gynted ag y bydd caniatâd cynllunio wedi'i roi, yr unig goed y cewch chi eu torri yw'r rheini y mae'n rhaid eu torri er mwyn i'r datblygiad allu mynd yn ei flaen.*[101]

Os oes Gorchymyn Cadw Coed yn berthnasol i goed y bydd datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt, mae'r arweiniad yn datgan yn glir y byddai hynny'n ystyriaeth berthnasol wrth arfarnu'r cais cynllunio.

Gall awdurdodau cynllunio lleol ddarparu canllawiau cynllunio atodol pellach ar gyfer swyddogion o fewn terfynau eu hawdurdod eu hunain. Mae sawl awdurdod cynllunio lleol wedi gwneud hynny, er enghraifft, canllaw cynllunio atodol Cyngor Caerdydd ynghylch coetiroedd a gwrychoedd[102]; protocol Cyngor Abertawe ar gyfer cadw coed

[99] Nodyn Cyngor Technegol 10 *Gorchmynion Cadw Coed* Hydref 1997. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-10-gorchmynion-cadw-coed
[100] *Protected Trees: a Guide to Tree Preservation Procedures* 2013. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/coed-wediu-gwarchod-canllaw-ir-drefn-cadw-coed.pdf
[101] Ibid, ym mharagraff 23.
[102] Cyngor Caerdydd: Nodyn Canllaw Technegol *Coed a Datblygu* ynghylch sut y mae'r Cyngor yn asesu cynigion datblygu a allai effeithio ar goed, coetiroedd a gwrychoedd.

a chymryd camau gorfodi[103] a nodyn canllaw Cyngor Wrecsam ynghylch coed a datblygu.[104]

### 4.2 Gorchmynion Cadw Coed yng Nghymru

Gan mai awdurdodau lleol yn unigol sy'n ymdrin â'r broses o wneud cais am Orchmynion Cadw Coed a'r broses o'u rheoli, nid oes data 'Cymru gyfan' ar gael ynghylch nifer y ceisiadau a wneir am Orchmynion Cadw Coed nac am nifer y Gorchmynion Cadw Coed a gaiff eu rhoi, eu diwygio neu'u dirymu. At hynny, os yw data ynghylch niferoedd a lleoliad Gorchmynion Cadw Coed ar gael yn gyhoeddus ar-lein, mae oedran y data'n amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall.

Dangosodd adolygiad pen desg o holl dudalennau gwe awdurdodau lleol ynghylch Gorchmynion Cadw Coed mai dim ond lleiafrif yr awdurdodau lleol (6/25) oedd yn darparu mapiau ar-lein neu fapiau rhyngweithiol a oedd yn dangos lleoliadau pob Gorchymyn Cadw Coed (ac Ardaloedd Cadwraeth hefyd yn aml). Fel rheol, roedd yr awdurdodau lleol hynny hefyd yn darparu cyngor manylach am Orchmynion Cadw Coed a'r broses ddynodi yn ogystal â chyngor manylach am wneud gwaith i goeden sydd mewn Ardal Gadwraeth neu y mae Gorchymyn Cadw Coed yn berthnasol iddi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gysondeb yn lefel y wybodaeth a gâi ei darparu gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (19/25) am Orchmynion Cadw Coed. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn cynghori preswylwyr i gysylltu â'u swyddfa leol ar gyfer cynllunio neu â Swyddog Coed penodedig i ymholi am Orchmynion Cadw Coed lleol. O blith 25 o awdurdodau lleol, roedd 14 yn cyfeirio at ddogfennau ac arweiniad allanol ac at gyfraith ynghylch Gorchmynion Cadw Coed, a dim ond pedwar oedd yn cyfeirio pobl at Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer coed a choetiroedd ar eu tudalennau gwe nhw am Orchmynion Cadw Coed.

[103] Cyngor Abertawe: *Protocol Coed a Warchodir*. Ei nod yw sicrhau bod coed yn cael eu cadw, sy'n cynnwys ystyried Gorchmynion Cadw Coed, ceisiadau i wneud gwaith ar goed a chamau gorfodi i atal gwaith nas awdurdodwyd.
[104] Cyngor Wrecsam: *Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol Rhif 17 – Coed a Datblygu*

### 4.3 Tystiolaeth am Orchmynion Cadw Coed

#### *4.3.1 Cwestiynau a ofynnwyd i'r rhanddeiliaid*

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r rhanddeiliaid:

1. A ydych yn credu bod y broses o weithredu Gorchmynion Cadw Coed ar draws Cymru yn glir, yn dryloyw ac yn hygyrch?
2. Beth yw eich barn am Orchmynion Cadw Coed fel system i atal achosion anghyfreithlon o gwympo coed y mae angen eu gwarchod?
3. Beth yw eich barn am y modd y caiff Gorchmynion Cadw Coed eu gorfodi? Pa anawsterau ymarferol sy'n codi? Os bernir y gellid gwneud gwelliannau, sut y gellid gwella'r gwaith monitro a gorfodi?
4. A ydych yn credu bod Gorchmynion Cadw Coed yn cael eu gorfodi mewn modd cyson ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru? Rhowch enghreifftiau.
5. A oes yna systemau amgen y gellid eu defnyddio?
6. A oes yna systemau, yr ydych chi'n gwybod amdanynt, sy'n cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill i atal coed rhag cael eu cwympo'n anghyfreithlon?
7. Ym mha ffyrdd y caiff bioamrywiaeth, ac yn enwedig cadw a gwarchod bywyd gwyllt, eu hystyried wrth i Orchmynion Cadw Coed gael eu gwneud ac wrth i'r Gorchmynion hynny gael eu monitro a'u gorfodi?

***1 A ydych yn credu bod y broses o weithredu Gorchmynion Cadw Coed ar draws Cymru yn glir, yn dryloyw ac yn hygyrch?***

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y broses yn glir, yn dryloyw ac yn hygyrch, roedd eraill yn anghytuno. Nododd rhai ymatebwyr, er bod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Gorchmynion Cadw Coed yn gyson ar draws Cymru, fod yr union broses o wneud cais am Orchmynion Cadw Coed yng Nghymru yn amrywio rhwng awdurdodau cynllunio lleol. Dros gyfnod, mae awdurdodau cynllunio lleol wedi datblygu eu prosesau a'u gweithdrefnau eu hunain i ddynodi Gorchmynion Cadw Coed ac i fonitro a gorfodi mewn achosion lle gweithredwyd yn groes i Orchmynion Cadw Coed. Mynegodd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad bryder am y gwahaniaethau hynny ac am y diffyg gwybodaeth a data

cyson sy’n cael eu casglu ac sydd ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio am Orchmynion Cadw Coed ar draws Cymru.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod taflenni gwybodaeth am Orchmynion Cadw Coed, sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, wedi dyddio ac nad oeddent yn ddigon clir. Er enghraifft, nododd cyn Gomisiynydd Coedwigaeth fod arweiniad Llywodraeth Cymru ynghylch coed gwarchodedig yn tybio bod pobl yn gallu dychmygu a/neu fesur coed a metrau ciwbig o bren.

Nododd cynrychiolydd yng Nghyngor Caerdydd[105] fod canllaw defnyddiol i’w gael yn *Trees in Cardiff: A Householder’s Guide*[106] a oedd yn cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig ac ar ffurf diagramau am goed, o wybodaeth am iechyd coed a sut mae gofalu amdanynt i faterion cyfreithiol. Roedd Adran 4 y canllaw’n sôn am goed gwarchodedig, pa gamau rhagofalus y dylai pobl eu cymryd i osgoi tarfu ar fywyd gwyllt mewn coed, a’r rhyngweithio â deddfwriaeth ynghylch bywyd gwyllt.

Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd ei rôl o ran pennu Gorchmynion Cadw Coed yn cael ei hesbonio’n glir bob amser mewn dogfennau polisi. Nododd, er enghraifft, fod *Coed wedi’u gwarchod – canllaw i’r drefn cadw coed* yn cyfeirio’n benodol at yr angen i gael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn bod Gorchymyn Cadw Coed yn cael ei wneud yng nghyswllt coeden, os oes cymorth grant wedi’i roi dan gynllun grantiau coedwigaeth gan Lywodraeth Cymru, ond nad yw Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn sôn am rôl Cyfoeth Naturiol Cymru.[107]

***2 Beth yw eich barn am Orchmynion Cadw Coed fel system i atal achosion anghyfreithlon o gwympo coed y mae angen eu gwarchod?***

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo mai gwerth cyfyngedig oedd i Orchmynion Cadw Coed fel system i atal achosion anghyfreithlon o gwympo coed, ac nad oeddent

[105] Pwynt a godwyd yn un o gyfarfodydd AIDAC i randdeiliaid.
[106] Cyngor Sir Caerdydd (2014) *Trees in Cardiff, A Householder’s Guide*. Nid yw’r ddogfen hon ar gael mwyach ar-lein.
[107] Mae’r un peth yn wir yn y fersiwn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru.

yn effeithiol oni bai eu bod yn cael eu gorfodi'n drylwyr gyda dirwyon llym am fethu â chydymffurfio.

Mynegodd Coed Cadw y farn bod Gorchmynion Cadw Coed yn system adweithiol nad oedd yn cael ei gweithredu fel rheol oni bai bod coed ar fin dod dan fygythiad. Awgrymodd fod hynny'n golygu nad yw pob coeden werthfawr yn cael ei gwarchod, a bod gwarchodaeth o'r fath yn dibynnu'n bennaf ar gymunedau lleol sy'n rhoi gwybod bod risg ar fin digwydd. Dadl Coed Cadw oedd bod hynny'n arwain at system gwarchod coed sy'n ymateb yn ddifeddwl ac ar hap ac sy'n amrywio rhwng awdurdodau cynllunio lleol. Awgrymodd Cyngor Sir Caerdydd po fwyaf o arweiniad a manylion a ddarperir, y mwyaf tebygol yw hi y bydd gwaith yn cael ei gyflawni mewn modd priodol.[108] Dywedodd cyn Gomisiynydd Coedwigaeth fod y system fel pe bai'n dibynnu ar rywun i roi gwybod bod coeden yn cael ei chwympo neu'i niweidio, yn hytrach nag ar unrhyw fath o waith monitro rheolaidd. Roedd yn cydnabod y byddai cyflawni gwaith monitro o'r fath efallai'n gofyn am lawer iawn o adnoddau, ond roedd yn credu y gallai fod yna gyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau synhwyro o bell.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod dirwyon am gwympo coed y mae Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol iddynt yn aml yn fach iawn. Cyfeiriodd at euogfarn ym mis Rhagfyr 2019 lle'r oedd cwympo 40 o goed yn Leatherhead, yr oedd Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol iddynt, wedi arwain at ddirwy o £3,000 a gorchymyn i dalu costau. Fodd bynnag, cyfeiriodd hefyd at achos Enzo Homes (a drafodwyd uchod) lle defnyddiodd awdurdod cynllunio lleol Ddeddf Enillion Troseddau 2002 wrth erlyn datblygwr eiddo a chontractwr coed a oedd wedi cwympo coed yr oedd Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol iddynt yn Abertawe. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, cafwyd canlyniadau tebyg yn Lloegr, gyda dirwy o £40,000 am gwympo un goeden yr oedd Gorchymyn Cadw Coed yn berthnasol iddi yn Poole, Dorset a dirwy o £60,000 am gwympo cedrwydden 100 mlwydd oed yn Chelmsford, Essex. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru, er hynny, ei bod yn gyffredin i ddirwyon mawr o'r fath gael eu gostwng yn dilyn apêl, fel y gwelwyd yn achos Enzo.

[108] Pwynt a godwyd gan Gyngor Sir Caerdydd mewn digwyddiad i randdeiliaid ym mis Hydref 2021.

Nododd Coed Cadw hefyd fod Gorchmynion Cadw Coed, ar hyn o bryd, yn gallu cael eu gweithredu os yw'n ymddangos i awdurdod cynllunio lleol ei bod yn fanteisiol gwarchod coeden neu goetir er budd amwynder. Ym marn Coed Cadw, dylid tynnu'r prawf o fantais allan o ddeddfwriaeth a dylid egluro'r diffiniad o amwynder drwy roi ystyr mwy pendant iddo er mwyn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i weithredu a defnyddio Gorchmynion Cadw Coed. Roedd yn teimlo y dylai coed neu goetir gael eu gwarchod os ystyrir eu bod o werth digonol i gymdeithas. Awgrymodd y dylai Gorchmynion Cadw Coed gael eu gwneud i warchod coed a nodir yn unigol neu drwy gyfeirio at ardal, grwpiau o goed neu goetir.

Problem arall a nodwyd gan sawl ymatebydd oedd diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a thirfeddianwyr o Orchmynion Cadw Coed, a diffyg gwybodaeth am beth y mae Gorchymyn Cadw Coed yn ei ganiatáu neu beidio. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod Gorchmynion Cadw Coed yn annhebygol o fod yn system ddibynadwy i atal achosion anghyfreithlon o gwympo coed a warchodir ganddynt, os ceir dealltwriaeth wael o beth y mae Gorchmynion Cadw Coed yn ei olygu'n ymarferol. Fel y mae'r gyfraith yng Nghymru ar hyn o bryd, byddai hynny'n golygu analluu i erlyn oherwydd bod yn rhaid cadarnhau'r bwriad.

Dan y Ddeddf Coedwigaeth,[109] rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol os yw'n bwriadu rhoi trwydded cwympo coed ar gyfer coeden a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed. Yn ei sylwadau ar yr adroddiad hwn, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y gall fod yn anodd iddo benderfynu a oes Gorchymyn Cadw Coed yn berthnasol i goeden. Rhaid i berchennog roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru os oes Gorchymyn Cadw Coed ar waith, ac nid yw hynny'n digwydd bob amser, naill ai oherwydd nad yw'r perchennog yn gwybod amdano neu'i fod yn dewis peidio â throsglwyddo'r wybodaeth dan sylw.[110]

[109] Deddf Coedwigaeth, adran 15(10(a).
[110] Sylwadau a gafwyd ar 6 Awst 2025.

***3 Beth yw eich barn am y modd y caiff Gorchmynion Cadw Coed eu gorfodi? Pa anawsterau ymarferol sy'n codi? Os bernir y gellid gwneud gwelliannau, sut y gellid gwella'r gwaith monitro a gorfodi?***

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno nad oedd awdurdodau lleol yn cael digon o adnoddau i sicrhau bod Gorchmynion Cadw Coed yn cael eu gorfodi'n iawn. Nodwyd yn yr ymatebion bod yna ddiffyg Swyddogion Coed penodedig gan awdurdodau lleol. Nododd Coed Cadw fod dirywiad sylweddol wedi bod mewn arbenigedd ym maes coed mewn awdurdodau lleol.[111] Honnodd Cymdeithas Ddinesig Caerdydd fod gweithlu'r cyngor wedi crebachu gymaint yng Nghaerdydd fel nad oedd unrhyw Orchmynion Cadw Coed newydd wedi'u rhoi ers amser maith. At hynny, mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru y farn bod y modd yr oedd cyflogaeth, sgiliau a phrofiad Swyddogion Coed a hyrwyddwyr coed lleol yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yn ffactor a oedd yn effeithio ar ansawdd a chysondeb y gwaith a wneir i roi Gorchmynion Cadw Coed newydd ac i atal achosion o gwympo coed yn anghyfreithlon. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd fod gan awdurdodau lleol y pŵer i orfodi ailstocio coed a gafodd eu cwympo heb drwydded ac yr oedd Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, mae ailstocio llwyddiannus yn gofyn am gryn dipyn o waith tracio a dyfalbarhau, a all fod yn anodd os nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau. Fel y soniwyd uchod, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod dirwyon yn rhy fach a'u bod, felly, yn methu ag atal pobl rhag camweithredu.

Nododd Coed Cadw ei fod yn cefnogi argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i dynhau'r esemptiad o ran Gorchmynion Cadw Coed ar gyfer gwaith i goed sydd wedi marw, sy'n marw neu sy'n beryglus.[112] Ar y llaw arall, roedd yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i wrthod argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i gyflwyno esemptiad newydd ar gyfer gwaith ar goed sy'n llai na maint penodol.[113]

---

[111] Gwnaethant gyfeirio at Davies et al (2017) 'Challenges for tree officers to enhance the provision of regulating ecosystem services from urban forests.' Environmental Research 156, 97-107.
[112] Gweler Nodyn 33 uchod.
[113] Gweler https://www.llyw.cymru/ymateb-manwl-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-gyfraith-cynllunio-yng-nghymru

***4 A ydych yn credu bod Gorchmynion Cadw Coed yn cael eu gorfodi mewn modd cyson ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru? Rhowch enghreifftiau.***

Roedd yna gytundeb cyffredinol ymhlith ymatebwyr nad oedd Gorchmynion Cadw Coed yn cael eu gorfodi mewn modd cyson ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Nododd Coed Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru fod rhai awdurdodau cynllunio lleol yn darparu mapiau rhyngweithiol sy'n dangos ble y mae Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol, ond nad oedd eraill yn gwneud hynny. Yn absenoldeb yr adnoddau hyn, gallai datblygwyr a thirfeddianwyr ddadlau nad oedd ganddynt ffordd o wybod beth oedd statws coed a oedd wedi'u cwympo.

Awgrymwyd mai prin yw'r achosion lle gweithredir yn groes i Orchmynion Cadw Coed, sy'n cynnwys mynd ati'n fwriadol i dorri coed y mae Gorchmynion o'r fath yn berthnasol iddynt.[114] O ganlyniad, ceir pwys anghymesur ar sicrhau bod deddfwriaeth yn canolbwyntio ar orfodi ac yn canolbwyntio ar bwerau cyfreithiol os caiff coed eu niweidio neu'u dinistrio. Yn hytrach, awgrymwyd y dylid rhoi mwy o sylw mewn cyfraith i hyrwyddo a/neu sicrhau rheolaeth dda ar goed. Dadleuwyd mai rheoli coed yn rhagweithiol yw'r ffordd orau o gyflawni'r canlyniadau a'r nodau a ddymunir gan y ddeddfwriaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar erlyniadau. Am y rheswm hwnnw, mae amodau manwl ar ganiatâd a roddir ar gyfer gwaith ar goed gwarchodedig yn hollbwysig.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo bod yna lawer o le i wella'r cyngor a'r arweiniad sydd ar gael am Orchmynion Cadw Coed, yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, ar gyfer datblygwyr pan fyddant wrthi'n cynllunio prosiectau. Awgrymodd fod yna le i gysylltu'n well y wybodaeth sydd ar gael gan gyrff aelodaeth ar gyfer darparu gwasanaethau proffesiynol achrededig, megis y Gymdeithas Coedyddiaeth. Awgrymodd y gallai fod yna rôl i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hybu dull cyson o weithredu a hybu lefelau effeithiol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar draws awdurdodau lleol.

[114] Pwynt a godwyd gan Gyngor Sir Caerdydd mewn digwyddiad i randdeiliaid ym mis Hydref 2021.

***5 A oes yna systemau amgen y gellid eu defnyddio?***

Mynegodd Coed Cadw y farn y byddai dull mwy rhagweithiol o weithredu'n fwy dymunol. Nododd fod yr arweiniad cynllunio ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn darparu ar gyfer dull gwell o weithredu, gan awgrymu y dylai awdurdodau lleol baratoi strategaethau coed a choetiroedd. Cynigiodd enghraifft o'r dull gweithredu hwn a oedd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Wrecsam.[115] Mae strategaeth y Cyngor yn egluro'n fanwl sut y mae'r Cyngor yn dymuno gweithredu Gorchmynion Cadw Coed.

Awgrymodd Coed Cadw hefyd y dylai Gorchmynion Cadw Coed gael eu rhoi ar yr holl goed pwysicaf, er enghraifft coed hynafol sydd wedi'u cofnodi yn y Rhestr Coed Hynafol.[116] At hynny, awgrymodd y dylid ystyried dynodiad newydd ychwanegol sy'n benodol ar gyfer coed unigryw o werthfawr na all dim gymryd eu lle, sydd o ddiddordeb arbennig cenedlaethol oherwydd eu hoedran, eu maint, eu cymeriad, eu natur brin neu'u cysylltiadau â digwyddiadau neu bobl hanesyddol. Yn olaf, awgrymodd y dylid cyflwyno cytundebau rheoli statudol, cyfreithiol rwymol, tebyg i'r Cytundebau Partneriaethau Treftadaeth a ddefnyddir ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol.

Nododd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir y byddai'n synhwyrol adolygu cyfradd llwyddiant y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, o gofio ei hoedran, ac ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i'w moderneiddio. Er enghraifft, dylid ystyried digido'n well hysbysiadau/cymeradwyaeth/ceisiadau ynghylch coed y mae Gorchmynion Cadw Coed yn berthnasol iddynt; cyflwyno dirwyon sy'n seiliedig ar y niwed gwirioneddol; a sicrhau iawn hirdymor effeithiol er mwyn cymell pobl i beidio â chwympo coed heb awdurdod. Awgrymodd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael map cenedlaethol o Orchmynion Cadw Coed, a gaiff ei rannu drwy MapDataCymru a'i letya gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

[115] Cyngor Wrecsam (2023) *Woodland Pledge*. Ar gael yma: https://www.wrecsam.gov.uk/service/addewid-coetir-wrecsam/addewid-coed-choetiroedd
[116] Coed Cadw (Woodland Trust) (2023) *Ancient Tree Inventory*. Ar gael yma: https://ati.woodlandtrust.org.uk/

***6 A oes yna systemau, yr ydych chi'n gwybod amdanynt, sy'n cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill i atal coed rhag cael eu cwympo'n anghyfreithlon?***

Cyfeiriodd Coed Cadw at y cysyniad o goed cofrestredig a'r cysyniad o goed rheoleiddiedig a ddefnyddir yn Awstralia.[117] Coed cofrestredig yw coed sydd wedi'u cofrestru ar sail eu treftadaeth naturiol neu ddiwylliannol, eu tirwedd a'u gwerth esthetig neu wyddonol. Ni ellir gwaredu'r coed hynny at ddibenion datblygu, a dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y gellir canslo'r cofrestriad. O ran coed rheoleiddiedig, mae angen caniatâd i wneud gwaith ar unrhyw goeden sy'n bodloni dimensiynau penodol.

Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at y gofyniad yn Rheoliad Pren yr Undeb Ewropeaidd[118] i aelod-wladwriaethau fod â systemau ar waith i atal cwympo coed yn anghyfreithlon.

***7 Ym mha ffyrdd y caiff bioamrywiaeth, ac yn enwedig cadw a gwarchod bywyd gwyllt, eu hystyried wrth i Orchmynion Cadw Coed gael eu gwneud ac wrth i'r Gorchmynion hynny gael eu monitro a'u gorfodi?***

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno nad oedd arweiniad ynghylch Gorchmynion Cadw Coed yn cynnwys cyfeiriadau at gadw a gwarchod bioamrywiaeth neu fywyd gwyllt. Nododd sawl ymatebydd fod hwn yn fwlch nodedig. Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at yr angen i ddiweddaru *Coed wedi'u gwarchod – canllaw i'r drefn cadw coed*.[119] Nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at fioamrywiaeth nac at yr angen i fod yn ymwybodol o ofynion eraill posibl o ran trwyddedu.

---

[117] *Discussion Paper: Review of the Tree Protection Act 2005*. Ministry of City Services Directorate: Canberra. Ar gael yma: https://s3.ap-southeast-2.amazonaws.com/hdp.au.prod.app.act-yoursay.files/4015/7180/8771/191316_TCCS_Review_Tree_Protection_Act_Discussion_Paper_v10.pdf

[118] Rheoliadau Gorfodi Cyfraith, Llywodraethu a Masnach Coedwigoedd 2012 Rhif 178. Maent yn gyfraith yr UE a ddargedwir yn dilyn Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

[119] Gweler Nodyn 101 uchod.

Roedd Coed Cadw yn teimlo ei bod yn bwysig cyflawni argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch egluro'r diffiniad o 'amwynder' yng nghyswllt Gorchmynion Cadw Coed.[120] Argymhelliad Comisiwn y Gyfraith oedd y dylai 'amwynder' gynnwys golwg, oedran, natur brin, bioamrywiaeth, gwerth hanesyddol a gwyddonol a gwerth o ran hamdden, ac y dylai rheoliadau ynghylch Gorchmynion Cadw Coed bennu materion yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r diffiniad ehangach hwn o 'amwynder'.

**4.4 Newidiadau deddfwriaethol arfaethedig**

***4.4.1 Yr angen am newid***

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth, ceir nifer o broblemau gyda'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed yng Nghymru, sy'n cynnwys y problemau canlynol:

- mae Gorchmynion yn tueddu i fod yn hirfaith ac yn anodd eu deall;
- caiff eithriadau i'r angen am ganiatâd eu nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth;
- mae'n bosibl nad yw rhai o'r eithriadau'n briodol mwyach;
- nid yw newidiadau i'r Rheoliadau a gyflwynwyd ar ôl gwneud Gorchymyn yn effeithio ar y Gorchymyn hwnnw.

Gwnaeth Deddf Cynllunio 2008 ddiwygio'r darpariaethau ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn caniatáu gweithdrefn symlach ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.[121] Dan y ddeddfwriaeth newydd, mae Gorchmynion Cadw Coed yn dod i rym yn syth yn awr ond mae angen iddynt gael eu cadarnhau cyn pen chwe mis, sy'n dileu'r angen am Orchmynion dros dro. Gellir gwneud Rheoliadau dan bwerau yn adrannau 202A-G y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ddiwygiedig er mwyn pennu:

- gweithdrefnau ar gyfer gwneud Gorchymyn Cadw Coed;
- eithriadau i'r angen am ganiatâd i gyflawni gwaith; a
- gweithdrefnau ar gyfer cael caniatâd.

---

[120] Gweler Nodyn 33 uchod.
[121] Cafodd adrannau 202A-G eu hychwanegu at y Ddeddf.

Daeth y system newydd i rym yn Lloegr yn 2012 ond nid yw wedi'i dwyn i rym eto yng Nghymru. Yn Lloegr, cafodd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cadw Coed) (Lloegr) 2012 eu gwneud yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU yn 2010, a fu'n archwilio'r cyfleoedd i gydgrynhoi'r darpariaethau cyfreithiol mewn un set o reoliadau. Yn ogystal, roedd yr ymgynghoriad yn cynnig adolygiadau i'r system er mwyn ei gwneud yn symlach, yn decach ac yn haws i berchnogion coed ei defnyddio.[122]

### *4.4.2 Adroddiad Comisiwn y Gyfraith*

Roedd adroddiad 2018 Comisiwn y Gyfraith ynghylch Cyfraith Cynllunio yng Nghymru[123] yn cynnwys ystyriaeth i Orchmynion Cadw Coed. Gwnaeth yr adroddiad sawl argymhelliad a oedd yn cynnwys y canlynol.

- Dylai 'amwynder' gael ei ddiffinio i gynnwys golwg, oedran, natur brin, bioamrywiaeth, gwerth hanesyddol a gwyddonol a gwerth o ran hamdden.
- Dylai darpariaethau ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu gwneud er mwyn gwarchod coed unigol, grwpiau o goed neu ardaloedd o goed. Dim ond coed a oedd yn bodoli adeg gwneud y Gorchymyn ddylai gael eu gwarchod gan Orchymyn ar gyfer grŵp neu ardal. Dim ond nes y caiff ei gadarnhau y dylai Gorchymyn newydd ar gyfer ardal ddarparu gwarchodaeth. Pan gaiff ei gadarnhau, byddai'n troi yn Orchymyn sy'n nodi'r coed sydd i'w gwarchod. Dylid cyflwyno Gorchymyn Cadw Coetir er mwyn gwarchod coetiroedd. Gallai Gorchymyn o'r fath warchod pob coeden yn y coetir a nodwyd, p'un a oeddent yn bodoli neu beidio ar ddyddiad y Gorchymyn.
- Dylai perchnogion a deiliaid perthnasol gael gwybod am Orchmynion Cadw Coed, yn anad dim oherwydd bod gweithredu'n groes i Orchymyn Cadw Coed yn drosedd atebolrwydd caeth.

---

[122] I gael crynodeb o'r newidiadau, gweler Annett, P. (May 2012) *A Summary of the Revised Tree Preservation Order Legislation*. The Arboricultural Association: Gloucester. Ar gael ar-lein yma: https://files.cambridge.gov.uk/public/ldf/coredocs/A%20Summary%20of%20the%20Revised%20Tree%20Preservation%20Order%20Legislation%202012.pdf
[123] Gweler Nodyn 33 uchod.

- Dylai'r esemptiad rhag yr angen i gael caniatâd ar gyfer gwaith i goeden warchodedig sy'n marw, sydd wedi marw neu sydd wedi mynd yn beryglus gael ei gyfyngu i sefyllfaoedd lle mae gwaith yn angenrheidiol ar frys i ddileu risg o niwed difrifol ar unwaith.
- Dylid dileu'r esemptiad rhag yr angen i gael caniatâd ar gyfer gwaith sy'n angenrheidiol i atal neu leihau niwsans.
- Dylid cael esemptiad newydd rhag yr angen i gael caniatâd ar gyfer cyflawni gwaith i goeden a warchodir dan Orchymyn Cadw Coetir, sy'n llai na maint penodol, os pwrpas y gwaith yw gwella twf coed eraill.
- Dylid ystyried ei bod yn ddigonol bod coeden newydd, sydd i'w phlannu yn lle coeden warchodedig a gwympwyd yn anghyfreithlon neu a waredwyd oherwydd ei bod wedi marw neu wedi mynd yn beryglus, yn cael ei phlannu ar safle neu wrth ymyl safle'r hen goeden – yn hytrach na'i bod ar hyn o bryd yn gorfod cael ei phlannu ar yr un safle'n union.
- Dylai'r awdurdod cynllunio lleol gael pwerau i adennill unrhyw gostau yr aethpwyd iddynt wrth wneud a gorfodi Gorchmynion Ailblannu Coed.
- Dylid diwygio cwmpas y drosedd dan adran 210(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn cynnwys achos o ddinistrio neu niweidio bwriadol neu ddiofal.
- Dylai'r troseddau dan adrannau 210(1) a 210(4) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu disodli gan un drosedd y gellir ei rhoi ar brawf yn y naill lys neu'r llall, y gellir rhoi cosb amdani'n dilyn euogfarn, a dirwy o unrhyw faint.
- Os yw coeden mewn Ardal Gadwraeth, awgrymir y dylai'r awdurdod cynllunio gael pŵer i ganiatáu'r gwaith i'r goeden yn yr Ardal Gadwraeth, cyhyd â bod amodau'n cael eu gosod neu fod Gorchymyn Cadw Coed yn cael ei wneud.

### *4.4.3 Y rheoliadau newydd arfaethedig*

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu yn ystod y tymor hwn er mwyn dod â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 i rym. Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd bapur ymgynghori ynglŷn â'i chynigion i ddiwygio'r rheoliadau ynghylch Gorchmynion Cadw Coed. Cynigir y bydd y newidiadau'n cael eu gwneud ym Mil

Cynllunio (Cymru) sydd ar ddod, a fydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwneud rheoliadau newydd, sef Rheoliadau Cynllunio (Cymru) (Cadw Coed). Disgwylir y bydd y rhain yn dod i rym yr un pryd â'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau newydd arfaethedig wedi'u llunio yng ngoleuni'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith, a amlinellwyd yn adran 4.4.2 uchod. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2025, ac mae'r mesurau newydd wedi'u cynnwys yn y drafft o Fil Cynllunio (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025.[124]

Bydd dau fath o orchymyn diogelu. Bydd coed unigol, grwpiau o goed ac ardaloedd o goed yn cael eu diogelu dan Orchmynion Cadw Coed tra bydd coetiroedd yn cael eu gwarchod dan Orchmynion Diogelu Coetir. Mae ffurfiau enghreifftiol ar gyfer y ddau wedi'u nodi mewn atodiadau i'r ddogfen ymgynghori.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn egluro'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau ac yn esbonio'r rhesymau drostynt. Mae'r prif newidiadau sydd o bwys penodol ar gyfer gwarchod coed wedi'u nodi isod.

#### *4.4.3.1 Amwynder*

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod barn am ystyr 'amwynder' wedi newid ar hyd y blynyddoedd, ac nad yw mwyach yn briodol ystyried agweddau gweledol yn unig. Felly, cynigir y dylai'r Rheoliadau nodi'r ffactorau sydd i'w hystyried. Dyma nhw:

a) oedran a natur brin;
b) golwg;
c) cyfraniad i fioamrywiaeth; ac
ch) gwerth hanesyddol a gwyddonol a gwerth o ran hamdden.

#### *4.4.3.2 Eithriadau*

Bwriedir i'r Rheoliadau newydd gynnwys y rhestr lawn o eithriadau a nodir mewn dosbarthiadau, felly byddant i gyd yn yr un man am y tro cyntaf erioed. Fodd bynnag,

[124] Ar gael yma: https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/pri-ld17396-cy.pdf

cynigir gwneud mwy na chydgrynhoi'r mesurau yn unig, a chynigir rhai newidiadau hefyd.

Bwriedir cyfyngu'r eithriad sy'n ymwneud â choed sydd wedi marw, sy'n marw ac sy'n beryglus. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod yn anodd penderfynu pryd y bydd coeden yn marw neu pryd y bydd wedi mynd yn beryglus. Yn ogystal, nid yw'n glir faint o waith y gellir ei gyflawni heb ganiatâd. At hynny, hyd yn oed os yw coeden wedi marw, nid yw'n golygu o reidrwydd nad oes iddi unrhyw werth, er enghraifft fel cynefin bywyd gwyllt. Felly, cynigir yr eithriadau canlynol:

> *Dosbarth A Symud ymaith ganghennau marw o goeden fyw*
>
> *Dosbarth B Torri, brigdorri, tocio neu ddadwreiddio coeden, i'r graddau bod angen gwneud gwaith o'r fath ar frys i gael gwared ar risg uniongyrchol o niwed difrifol, neu i'r graddau y cytunir arno'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith gael ei wneud.*

Y newid mawr arall yw'r cynnig i ddileu'r eithriad ar gyfer gwaith 'sy'n angenrheidiol er mwyn atal neu leihau niwsans'. Mae Llywodraeth Cymru yn teimlo mai'r awdurdod lleol ddylai benderfynu a oes angen gweithredu neu beidio, a hynny fesul achos.

**4.5 Casgliadau AIDAC ynghylch Gorchmynion Cadw Coed**

Rhoddodd Comisiwn y Gyfraith sylw i lawer o'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth, a bydd y rheoliadau newydd arfaethedig yn rhoi sail statudol iddynt. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn. Dylent sicrhau mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru a sicrhau bod Gorchmynion Cadw Coed yn haws eu deall. Fodd bynnag, bydd yn bwysig diweddaru Nodyn Cyngor Technegol 10 a'r daflen *Coed wedi'u gwarchod: canllaw i'r drefn cadw coed* er mwyn ystyried y gweithdrefnau

newydd a chynnwys cyfeiriadau at y dyletswyddau i gynnal a gwella bioamrywiaeth fel y nodir yn adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Ceir pryderon eraill hefyd, yn anad dim ynghylch capasiti awdurdodau lleol i wneud defnydd llawn o'u pwerau yng nghyswllt Gorchmynion Cadw Coed.[125] Rydym yn credu y dylai fod yna Swyddogion Coed penodedig ym mhob awdurdod lleol, sydd â'r sgiliau angenrheidiol i adnabod coed y mae angen eu gwarchod, rhoi cyngor am waith priodol y dylid ei gyflawni arnynt, a rhoi cyngor am ailblannu pan fo angen gwneud hynny. Efallai na fydd yn bosibl penodi arbenigwyr cymwys ar dyfu coed yn Swyddogion Coed, ond bydd yn bwysig bod pob awdurdod lleol yn gallu cael gafael ar bobl sydd â'r arbenigedd hwnnw.

Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o Orchmynion Cadw Coed ar hyn o bryd, a hynny efallai oherwydd diffyg capasiti mewn awdurdodau lleol. Rydym yn credu y dylai Gorchmynion Cadw Coed gael eu gwneud yn rhagweithiol fel bod coed pwysig yn cael eu hadnabod a'u gwarchod, yn hytrach na bod rhywun yn disgwyl iddynt ddod dan fygythiad.

Ceir pryderon bod y dirwyon a roddir gan y llysoedd yn rhy fach i wneud i bobl ofni cael eu herlyn, a'u hatal felly rhag troseddu. Mae achos diweddar a ddygwyd gan Gyngor Casnewydd yn enghraifft o hynny. Roedd yr achos yn ymwneud â sefyllfa lle cafodd pisgwydden ei gwaredu mewn modd a oedd yn gweithredu'n groes i Orchymyn Cadw Coed. Roedd y diffynnydd wedi cael gwybod y byddai gwaredu'r goeden yn ychwanegu £50,000 at werth ei thŷ, ond dim ond dirwy o £16,000 a roddwyd iddi, er bod gorchymyn pellach wedi'i wneud iddi dalu £100,000 tuag at gostau'r Cyngor.[126]

---

[125] Noder, er enghraifft, nad oedd Gorchymyn Cadw Coed ar waith i warchod yr Enfield Oak a gafodd ei chwympo ym mis Ebrill 2025, er bod y goeden wedi'i chynnwys gan The Woodland Trust mewn rhestr o goed hynafol neu goed o bwys cenedlaethol (gweler y ddadl ynghylch Gwarchod Coed Hynafol yn Nadleuon Tŷ'r Arglwyddi ar 24 Ebrill 2025, cyfrol 845 Hansard. Ar gael yma: https://hansard.parliament.uk/lords/2025-04-24/debates/B26AEABB-A372-4DEF-BE3C-C9E5ECD59C7F/AncientTreesProtections

[126] Fel yr adroddwyd yn The Times, 25 Awst 2025, tud.10.

Efallai fod y dirwyon yn fach oherwydd bod coed wedi cael eu hasesu ar sail eu gwerth o ran amwynder gweledol yn unig. Gobeithir y bydd cyflwyno'r diffiniad ehangach o amwynder a sicrhau gwerthfawrogiad gwell o effaith amgylcheddol ehangach cwympo coed gwarchodedig yn anghyfreithlon yn arwain at ddirwyon mwy o faint yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn cytuno mai un agwedd yn unig ar y ddeddfwriaeth yw cwympo coed yn anghyfreithlon, ac y dylid rhoi mwy o sylw i'r gweithgareddau cyfreithlon a gyflawnir. Mae hynny'n arbennig o berthnasol i goed sy'n marw a choed sy'n mynd yn beryglus. Bydd y rheoliadau newydd yn cyfyngu ar argaeledd yr eithriad rhag yr angen i gael caniatâd, sy'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu, ond bydd yna adegau o hyd lle bydd yn angenrheidiol gwneud gwaith ar goed o'r math hwn. Y ffordd orau o ddiogelu bywyd ac iechyd y coed hyn yw drwy glymu amodau priodol wrth ganiatâd ar gyfer gwaith.

Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth sydd ar gael am Orchmynion Cadw Coed yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai datblygu platfform mapio ar ffurf porth digidol hygyrch i'r cyhoedd yn dangos yn gliriach pa goed a gaiff eu gwarchod gan Orchmynion Cadw Coed. Gallai hefyd roi esboniad i'r rheolau cyfreithiol ynghylch Gorchmynion Cadw Coed. Byddai porth o'r fath yn helpu i godi ymwybyddiaeth o Orchmynion Cadw Coed ac yn sicrhau bod gan dirfeddianwyr, y sawl a gaiff eu contractio i gyflawni gwaith ar goed, a'r sawl sydd â diddordeb fynediad i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud yn siŵr eu bod yn gallu cydymffurfio â'u cyfrifoldebau.

Mae cwympo coeden a gaiff ei gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed yn drosedd atebolrwydd caeth, sy'n golygu nad yw anwybodaeth am y Gorchymyn Cadw Coed yn esgus (oni bai, wrth gwrs, nad yw gwybodaeth wedi'i darparu i'r cyhoedd drwy ei hychwanegu at y gofrestr o Orchmynion Cadw Coed). Er hynny, rydym yn credu y byddai rhoi dyletswydd arall ar y sawl sy'n gofyn i eraill gyflawni gwaith ar eu rhan, sef dyletswydd i wirio a oes Gorchymyn Cadw Coed yn bodoli, yn ychwanegu at y warchodaeth.

#### *4.5.1 Gwarchod coed 'pwysig'*

Ar hyn o bryd, Gorchymyn Cadw Coed yw'r unig ffordd o warchod coeden unigol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol wneud Gorchymyn Cadw Coed yng nghyswllt coed hynod yn eu hardal, nac iddynt chwilio'n weithredol am goed i'w gwarchod.

Mae cwympo coeden y Sycamore Gap (a oedd yn 200 mlwydd oed) a'r Enfield Oak (a oedd yn 500 mlwydd oed) wedi ennyn cryn dipyn o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd. Nid oedd Gorchymyn Cadw Coed ar waith i warchod y naill goeden na'r llall. Yn achos coeden y Sycamore Gap, nid oedd hynny'n syndod gan nad oedd y goeden mewn tref. Fodd bynnag, roedd yr Enfield Oak yn dirnod cyhoeddus adnabyddus. Mae Gorchymyn Cadw Coed wedi'i wneud yn awr i warchod yr hyn sy'n weddill o'r goeden honno.[127]

Mae cwympo'r coed hyn yn fater sydd wedi'i godi mewn cwestiynau yn Senedd y DU. Gofynnwyd i'r Gweinidog pa asesiad yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i gynnal o ddigonolrwydd y trefniadau gwarchod sydd ar waith i atal cwympo coed hynafol sydd o bwys cenedlaethol ac, yn ogystal, pam nad oedd rhestr genedlaethol o goed treftadaeth ar gael, sy'n debyg i'r rhestr o henebion ac adeiladau rhestredig. Yn ei hymateb, cyfeiriodd yr Is-ysgrifennydd at adroddiad diweddar sy'n dwyn y teitl *Protecting Trees of High Social Cultural and Environmental Value*.[128]

Mae'r adroddiad yn gwneud sawl argymhelliad ar gyfer gwella'r modd y caiff coed pwysig eu gwarchod, ac mae'r Llywodraeth wrthi'n eu hystyried. Mae'n nodi:

- nad oes unrhyw system swyddogol benodol ar gael ar gyfer adnabod a dynodi coed pwysig
- nad oes unrhyw warchodaeth gyfreithiol benodol ar gael ar gyfer coed pwysig

---

[127] Gweler https://www.treelaw.co.uk/sycamore-gap-the-enfield-oak-are-they-the-same/ i gael rhagor o wybodaeth.

[128] Cyhoeddwyd gan The Trees Council a Forest Research ym mis Ebrill 2025. Ar gael yma: https://treecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/Protecting-Trees-of-High-Social-Cultural-and-Environmental-Value_Final-Report_October-2024_v3.0-APRIL-2025.pdf

- nad oes unrhyw gronfa bwrpasol ar gael ar gyfer costau rheoli yng nghyswllt coed pwysig.

Nid yw'r adroddiad yn diffinio 'coeden bwysig' ond mae'n nodi y gallai gynnwys coed hynafol, coed hynod, coed penigamp a choed treftadaeth. Mae'n mynd yn ei flaen i argymell bod angen gwneud mwy o waith ar y diffiniad hwn.

Daw i'r casgliad nad yw Gorchmynion Cadw Coed yn ddigonol i ddarparu'r warchodaeth angenrheidiol, a'i fod o blaid y dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu mewn rhai gwledydd Ewropeaidd lle caiff coed pwysig eu dynodi'n henebion cenedlaethol.

Er bod yr adroddiad yn ymwneud yn bennaf â'r sefyllfa yn Lloegr, mae ei gasgliadau'n berthnasol i Gymru hefyd. Byddai AIDAC yn cytuno bod angen eglurder ynghylch pa goed unigol ddylai gael eu gwarchod a pham. Pan fydd coeden wedi'i chlustnodi'n 'goeden bwysig' i'r perwyl hwnnw, rydym yn cefnogi'r syniad y dylai gael gwarchodaeth awtomatig drwy ryw fath o ddynodiad cyfreithiol. Rydym yn credu y byddai tipyn o werth mewn cyflwyno math newydd o ddynodiad cyfreithiol, tebyg i ddynodiad heneb, er mwyn sicrhau bod coed sydd o bwys cenedlaethol yn cael y gydnabyddiaeth a'r warchodaeth gywir. Yn y cyfamser, rydym yn credu y dylid archwilio dichonoldeb sicrhau bod Gorchymyn Cadw Coed ynghlwm wrth bob coeden hynafol sydd wedi'i chofnodi yn y Rhestr Coed Hynafol.

### 4.6 Argymhellion ynghylch Gorchmynion Cadw Coed

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiynau wedi'u diweddaru o Nodyn Cyngor Technegol 10 a'r daflen *Coed wedi'u gwarchod: canllaw i'r drefn cadw coed* cyn gynted ag y bydd y Rheoliadau newydd mewn grym.**

**Argymhelliad 10: Cyn pen blwyddyn i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod gan bob awdurdod lleol Swyddog Coed penodedig i reoli**

**Gorchmynion Cadw Coed, a dylai ddarparu adnoddau ychwanegol os oes angen.**

**Argymhelliad 11: Cyn pen blwyddyn i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gallu cael gafael ar arbenigwyr tyfu coed, a dylai ddarparu cyllid ar gyfer hynny'n benodol. Hoffem awgrymu y gallai hynny gael ei gyflawni drwy gydweithio a chyfuno adnoddau fel ffordd o rannu arbenigedd rhwng Swyddogion Coed ar draws Cymru.**

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydlu platfform mapio ar ffurf porth digidol hygyrch i'r cyhoedd er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch pa goed a gaiff eu gwarchod gan Orchmynion Cadw Coed.**

**Argymhelliad 13: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i roi dyletswydd ar gontractwr, neu berson sy'n mynnu bod eraill yn torri coed ar ei ran, i wirio a oes Gorchymyn Cadw Coed ynghlwm wrth y coed, a hynny cyn bod unrhyw waith cwympo coed yn dechrau.**

**Argymhelliad 14: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb sicrhau bod Gorchymyn Cadw Coed ynghlwm wrth bob coeden hynafol, a dylai gomisiynu ymchwil sy'n archwilio'r cyfleoedd a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â gwneud Gorchmynion Cadw Coed yng nghyswllt pob coeden hynod a phob coeden hynafol sydd wedi'u cofnodi yn y Rhestr Coed Hynafol.**

**Argymhelliad 15: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor i ystyried manteision dynodiad newydd, sef 'Coeden Bwysig'.**

## 5 Coed a'r system gynllunio

### 5.1 Cynlluniau datblygu

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro polisïau Llywodraeth Cymru ynghylch defnydd tir. Rhaid i awdurdodau lleol ddilyn y rhain wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn y modd y maent yn penderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Y Cynllun Datblygu Lleol yw'r prif bolisi ar gyfer cynllunio defnydd tir ar lefel leol. Mae'n cynnwys sawl dogfen a ddatblygwyd gan awdurdod lleol, gan gynnwys y cynllun datblygu ei hun a chanllawiau cynllunio atodol. Gall yr hyn sydd gan Gynllun Datblygu Lleol i'w ddweud am goed a choetiroedd yn yr ardal fod o bwys mawr wrth i geisiadau am ganiatâd cynllunio gael eu hystyried oherwydd, lle bo'n berthnasol, rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn cyfiawnhau gwyro oddi wrtho.[129]

### 5.2 Penderfyniadau cynllunio

Wrth asesu cais cynllunio, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol. Tîm cynllunio sydd i ddod i farn ynghylch y pwys y dylid ei roi ar bob un o'r ystyriaethau hynny, ac ni fydd y llysoedd yn ymyrryd â hynny.[130] Bydd yr ystyriaethau a fydd yn berthnasol i gais cynllunio yn dibynnu ar y math o gynnig ynghyd â'i leoliad a'i gyd-destun. Felly, mae'r effaith ar goed yn un ystyriaeth ymhlith ystod eang ac amrywiol o faterion polisi a fydd yn cael eu pwyso a'u mesur a'u hystyried wrth asesu cynnig cynllunio.

Wrth wneud penderfyniad cynllunio rhaid i swyddog yr awdurdod cynllunio lleol, neu Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, ystyried lle bo'n briodol yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar unrhyw goed, gwrych, coetir a bioamrywiaeth. Nid yw hynny'n atal cymeradwyo datblygiad, os yw budd cyhoeddus ehangach y datblygiad yn fwy na'r niwed a/neu os gellir rheoli neu liniaru'r effeithiau andwyol drwy glymu amodau cynllunio wrth y penderfyniad cynllunio. Mae adran 6 Deddf yr Amgylchedd

[129] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adran 38(6).
[130] *Tesco Stores Ltd v Secretary of State for the Environment* [1995] 1 WLR 75.

(Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Mae adran 197 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn ymdrin yn benodol â gwarchod coed. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau, pryd bynnag y bo'n briodol ac wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad, bod yna ddarpariaeth ddigonol ar gyfer cadw neu blannu coed, a hynny drwy osod amodau.

## 5.3 Amodau cynllunio

Os caiff ceisiadau cynllunio eu cymeradwyo, gallant fod yn rhwym wrth amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd.[131] Dywed Cylchlythyr gan Lywodraeth Cymru *[na] ddylai awdurdod cynllunio lleol osod amodau ar ganiatâd cynllunio a roddir er mwyn rheoli materion sy'n destun rheolaethau gwahanol mewn rhannau eraill o ddeddfwriaeth gynllunio megis … [c]adw coed*.[132]

Ceir arweiniad clir yn y Cylchlythyr i ddefnyddio'r Gorchymyn Cadw Coed i sicrhau bod camau hirdymor yn cael eu cymryd i warchod, cadw neu blannu coed yn hytrach na bod amodau cynllunio'n cael eu gosod. Fodd bynnag, dywed fel a ganlyn hefyd: *[w]rth roi caniatâd cynllunio manwl, gellir defnyddio amodau i sicrhau y caiff coed sydd i'w cadw eu diogelu, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i ffensys gael eu codi o amgylch y coed tra bydd gwaith datblygu yn mynd rhagddo neu gyfyngu ar waith sy'n debygol o amharu arnynt*.[133] Gellir cynnwys amodau hefyd sy'n cadarnhau manylion ynghylch rheoli a chynnal a chadw ardaloedd wedi'u plannu a choed newydd yn ystod cyfnod hirach er mwyn sicrhau eu bod yn ymsefydlu.[134]

---

[131] Mae adran 70(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu y gall awdurdodau cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio yn ddiamod neu gydag amodau y maent o'r farn eu bod yn addas.
[132] WGC 016/2014 *Defnyddio amodau cynllunio i reoli datblygu*, ym mharagraff 3.11. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/defnyddio-amodau-cynllunio-i-reoli-datblygu-cllc-0162014.pdf
[133] Ibid, paragraff 5.113.
[134] Ibid, paragraff 5.114.

## 5.4 Tystiolaeth ynghylch cynllunio

### *5.4.1 Cwestiynau a ofynnwyd i'r rhanddeiliaid*

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r rhanddeiliaid.

1 Yn eich barn chi, ym mha ffyrdd y mae cyfraith cynllunio'n rhyngweithio â'r Ddeddf Coedwigaeth a'r modd y caiff ei gweithredu? A oes yna unrhyw broblemau gyda'r modd y mae'n rhyngweithio, sy'n atal nodau ac amcanion y Ddeddf Coedwigaeth rhag cael eu cyflawni?

2 Pan wneir cais am ganiatâd cynllunio yng Nghymru, a ydych yn credu bod gofynion y Ddeddf Coedwigaeth yn cael eu hystyried yn ddigonol? [135]

3 Yn eich barn chi, a yw'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio yng Nghymru yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y gwaith cwympo coed sy'n ofynnol ar gyfer y datblygu hwnnw?

4 Beth yw effeithiau cwympo coed ar gyfer datblygu ledled Cymru gyfan, ac a ydych yn credu bod yr effeithiau hynny'n cael eu hystyried yn ddigonol yn ystod y prosesau gwneud cais am ganiatâd cynllunio ac yn y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru?

***1 Yn eich barn chi, ym mha ffyrdd y mae cyfraith cynllunio'n rhyngweithio â'r Ddeddf Coedwigaeth a'r modd y caiff ei gweithredu? A oes yna unrhyw broblemau gyda'r modd y mae'n rhyngweithio, sy'n atal nodau ac amcanion y Ddeddf Coedwigaeth rhag cael eu cyflawni?***

Dywedodd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir mai cyfyngedig yw'r integreiddio rhwng cyfraith cynllunio a Deddf Coedwigaeth 1967. Mynegodd y farn y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i waith gorfodi ar ôl i goed gael eu cwympo'n anghyfreithlon, yn enwedig os yw'n cyd-fynd â chaniatâd cynllunio. Mewn achosion o'r fath, dylai dirwyon effeithio'n ddifrifol ar hyfywedd y datblygiad.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yna ryngweithio posibl rhwng Deddf Coedwigaeth 1967 a chyfraith cynllunio, yn enwedig os yw datblygwr yn cwympo coed neu goetir

[135] Noder nad oes yna unrhyw ddyletswydd statudol sy'n mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried y gofynion sydd yn Neddf Coedwigaeth 1967.

cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Os yw gwaith ar goed yn gysylltiedig â chynigion datblygu, mae'r ffaith bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn drech na'r angen am ganiatâd Gorchymyn Cadw Coed, neu hysbysiad Ardal Gadwraeth, neu drwydded cwympo coed. Felly, dylai fod gan bawb sy'n ymdrin â'r broses gynllunio ymwybyddiaeth dda o oblygiadau unrhyw gynnig ar gyfer unrhyw goed neu goetir.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yna werth i'w Wasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu, gan gyfeirio at Safon Brydeinig 5837[136] i awdurdodau cynllunio lleol yn ystod y cam o lunio Cynllun Datblygu Lleol. Dyma'r prif gyfle sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i warchod coed drwy gynllunio, fel ymgynghorai statudol.

Dywedodd cyn Gomisiynydd Coedwigaeth nad oedd gan awdurdodau lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru wybodaeth ddigon cadarn bob amser am dyfu coed i sicrhau bod ceisiadau cynllunio'n mynd i'r afael yn llawn â niwed i goed a'r posibilrwydd o golli coed yn y tymor hwy.

Ni chafwyd unrhyw awgrym y dylai creu coetir gael ei ystyried yn ddatblygu ac, felly, y dylai fod yn ofynnol iddo gael caniatâd cynllunio. Ym marn y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir, byddai hynny, a bod yn hollol onest, yn drychinebus! Fel y nododd Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oes neb wedi dadlau'n llwyddiannus bod gwaith ar goed yn waith datblygu y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer.[137]

***2 Pan wneir cais am ganiatâd cynllunio yng Nghymru, a ydych yn credu bod gofynion y Ddeddf Coedwigaeth yn cael eu hystyried yn ddigonol?***

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno nad yw gofynion Deddf Coedwigaeth 1967 yn cael eu hystyried yn ddigonol mewn ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Nododd Coed Cadw nad yw Deddf Coedwigaeth 1967 wedi'i bwriadu nac yn addas i warchod

---

[136] Safon Brydeinig 5837:2012 *Trees in Relation to Design, Demolition and Construction: Recommendations*. Ar gael yma: [https://www.bathnes.gov.uk/sites/default/files/2020-01/BS5837%202012%20Trees.pdf](https://www.bathnes.gov.uk/sites/default/files/2020-01/BS5837%202012%20Trees.pdf)

[137] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dyfynnu Charles Mynors, yr arbenigwr cydnabyddedig ar gyfraith coed ac awdur *The Law of Trees, Forests and Hedges* y cafodd y 3ydd argraffiad ohono ei gyhoeddi yn 2022.

coed a choetir yng nghyd-destun cynllunio a datblygu, a nododd nad oedd y rhifyn cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru yn crybwyll y Ddeddf o gwbl[138].

***3 Yn eich barn chi, a yw'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio yng Nghymru yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y gwaith cwympo coed sy'n ofynnol ar gyfer y datblygu hwnnw?***

Yn gyffredinol, barn yr ymatebwyr oedd nad yw'r broses ar gyfer gwneud cais am ganiatâd cynllunio yng Nghymru yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith cwympo coed.

Dywedodd Cymdeithas Ddinesig Caerdydd fod y broses gynllunio wedi methu ag ystyried cadw coed ar safle. Nododd mai'r hyn sy'n digwydd yn aml yw bod y datblygwr am gwympo coed ar y terfyn allanol ac roedd yn dadlau y byddai modd ymgorffori'r coed yn hawdd yn nyluniad y datblygiad gan wella'r dyluniad hyd yn oed. Ym marn y Gymdeithas, nid oedd unrhyw awydd yn yr awdurdod lleol i annog neu orfodi datblygwyr i wneud hynny.

Roedd cyn Gomisiynydd Coedwigaeth yn teimlo y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr nid yn unig adnabod coed sydd i'w cwympo ond hefyd nodi, mewn cynlluniau, barthau gwarchod gwreiddiau ar gyfer y coed sydd i'w cadw. Roedd nhw'n credu y dylai fod yn ofynnol hefyd i weithgarwch ar unrhyw safle osgoi cywasgu, torri systemau gwreiddiau 'yn ddamweiniol', gwneud niwed i foncyffion, neu storio deunyddiau yn erbyn coed. Gwyddys fod yr holl bethau hyn yn golygu naill ai bod datblygwyr yn gwaredu coed o'r fath oherwydd eu bod wedi'u niweidio ac y gallent fynd yn beryglus, neu fod y coed hynny'n dechrau marw neu yn marw yn ystod y blynyddoedd wedyn ac felly'n cael eu gwaredu.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo y gellid gwella'r broses o wneud cais am ganiatâd, naill ai drwy Orchymyn Cadw Coed, trwydded cwympo coed neu ganiatâd cynllunio. Roedd yn credu y gallai dirwyon am gwympo coed yn anghyfreithlon weithredu'n well fel ffordd o atal pobl rhag troseddu, ac y gellid defnyddio dull prisio

[138] Ni chyfeirir ati yn Rhifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru chwaith.

enillion net i wneud iawn am achosion anochel o waredu coed. At hynny, nododd fod angen y lefel gywir o sgil, gwybodaeth a phrofiad ymhlith ymgeiswyr, asiantiaid a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn ystod y broses.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod modd gwneud gwelliannau ar draws ardaloedd daearyddol mawr. Cyfeiriodd at y Goedwig Genedlaethol yng Nghanolbarth Lloegr fel enghraifft. Yn yr ardal honno, mae'n ofynnol i ddatblygwyr gadw coetir presennol yn rhan o'u cynigion. Mae'r cartrefi a'r swyddfeydd o ganlyniad i hynny wedi'u hamgylchynu gan goetir sy'n creu tirwedd ddeniadol a bioamrywiol. Caiff y lefel uwch o awydd i fyw a gweithio yn yr ardaloedd hynny ei hadlewyrchu yn y cynnydd a welir mewn gwerth eiddo. Mae'r dull hwn o weithredu'n trin coed a choetiroedd fel ased yn hytrach nag fel rhwystr neu gyfyngiad. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod hwn yn gyfle pwysig sy'n ymddangos yng Nghymru wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu Rhaglen Coedwig Genedlaethol.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y warchodaeth orau ar gyfer coed a choetiroedd yn deillio o gael polisïau cryf yn y Cynllun Datblygu Lleol, a ffocws ar ba fudd y gellir ei ddarparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dylai coed aeddfed a choetir presennol ar safleoedd datblygu gael eu hystyried yn fudd ar gyfer defnyddwyr y dyfodol yn hytrach nag yn rhwystr ar gyfer datblygwyr.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai siart gynllunio Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain godi ymwybyddiaeth o fanteision coed presennol a choed newydd, ond mai prin y cyfeirir at goed a choetiroedd.[139] Efallai fod hynny'n dangos mai bach iawn o ystyriaeth a roddir i gysylltiadau rhwng cynllunio, rhoi caniatâd a darparu buddion ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

[139] Dogfen brosesau yw cynllun gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. Nid yw'n amlygu unrhyw faterion neu bynciau penodol sydd i'w hystyried ond mae'n darparu amlinelliad o'r broses gyffredinol a'r camau, o'r dylunio i gwblhau'r prosiect. Ar gael yma: 2020RIBAPlanofWorktemplatepdf.pdf (architecture.com).

***4 Beth yw effeithiau cwympo coed ar gyfer datblygu ledled Cymru gyfan, ac a ydych yn credu bod yr effeithiau hynny'n cael eu hystyried yn ddigonol yn ystod y prosesau gwneud cais am ganiatâd cynllunio ac yn y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru?***

Dywedodd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir nad oes unrhyw system ar gyfer cofnodi nifer y coed a gaiff eu cwympo o ganlyniad i geisiadau cynllunio. Roedd yn credu y gallai eu nifer fod yn sylweddol.

Dywedodd Coed Cadw fod ganddo dystiolaeth bod 39 o gynigion datblygu, ym mis Rhagfyr 2019, yn bygwth 130 o goedydd hynafol yng Nghymru. Nododd nad oedd ganddo'r capasiti i dracio achosion lle caiff coed unigol eu bygwth gan geisiadau cynllunio ond ei fod o'r farn bod eu nifer yn sylweddol. Roedd yn credu bod cynllunwyr yn aml yn ystyried bod coed newydd a gaiff eu plannu'n gallu cymryd lle coed aeddfed, er gwaethaf tystiolaeth sy'n dangos yn glir nad yw hynny'n wir. Awgrymodd y dylai fod yna ragdybiaeth yn y system gynllunio yn erbyn cwympo coed aeddfed mawr a choed hynod. Dylai'r rhagdybiaeth honno gael ei mabwysiadu ym Mholisi Cynllunio Cymru ac mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

Roedd Coed Cadw hefyd o'r farn y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ynghylch y coed aeddfed a gollir, yn rhan o waith monitro gorchudd coed, ac y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fonitro natur a graddau gwaith cwympo coed mewn coetir hynafol ac adrodd yn ei gylch ac ynghylch gwaith gorfodi. Dylid adrodd ynghylch y wybodaeth hon dan Strategaeth Goetiroedd Cymru ac yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sy'n adroddiad statudol.

Dywedodd cyn Gomisiynydd Coedwigaeth fod angen mynd i'r afael yn fwy trylwyr â'r agwedd gynllunio ar waith plannu newydd ar safleoedd sy'n destun ceisiadau. Roedd nhw'n credu na ddylai fod yna gynnig yn unig i blannu ond y dylai fod yna gynnig i sicrhau bod coed o'r fath yn ymsefydlu'n llwyddiannus. Nod y dull gweithredu'n aml yw 'ticio blwch' yn hytrach na dangos ymrwymiad hirdymor. Dywedodd hefyd y gellid

atgyfnerthu ac amlhau'r defnydd, y mae modd ei orfodi, o ardaloedd plannu / cyfraniadau ariannol at ddiben gwneud iawn am goed a gollir.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yna dystiolaeth o golli coetir yng Nghymru, yn bennaf o ganlyniad i ddatblygu. Dros gyfnod o 12 mlynedd hyd at 2010, roedd 133 hectar o goetir wedi'i golli. Ailadroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei farn y gallai dirwyon am gwympo coed yn anghyfreithlon weithredu'n well fel ffordd o atal pobl rhag troseddu, ac y gellid defnyddio dull prisio enillion net i wneud iawn am achosion anochel o waredu coed.

**5.5 Newidiadau mewn polisi cynllunio**

Cafwyd rhai newidiadau i bolisi cynllunio ers i ni gael tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, ac un o'r rhai nodedig oedd cyhoeddi'r rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Chwefror 2024. Mae'r adran 'Coed, Coetiroedd a Pherthi'[140] yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth. Mae'n ceisio sicrhau bod pwysigrwydd amgylcheddol coed a choetiroedd yn cael ei ymgorffori mewn polisi cynllunio, ac mae'n cynnwys rhai gofynion cadarn i awdurdodau lleol eu dilyn. Mae paragraff 6.4.37 yn cydnabod eu pwysigrwydd mawr i fioamrywiaeth a'r ffaith eu bod yn darparu cynefinoedd cysylltu pwysig ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Yn ogystal, pwysleisir pwysigrwydd coed trefol sy'n creu lleoedd unigryw a naturiol sy'n cynnig manteision o ran iechyd a llesiant i gymunedau. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol hyrwyddo camau i blannu coed a pherthi newydd, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir yn rhan o ddatblygiad newydd.

Dywed paragraff 6.4.39 fod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol warchod coed, perthi, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir:

- lle mae iddynt werth ecolegol;

[140] *Polisi Cynllunio Cymru* Rhifyn 12 Chwefror 2024. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf

- lle maent yn cyfrannu i gymeriad neu amwynder ardal leol arbennig; neu
- lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol i'r seilwaith gwyrdd.

Mae'r paragraff hwn yn mynd yn ei flaen i roi cyngor am adnoddau i helpu i sefydlu gorchudd canopi sylfaenol a helpu gyda gwaith dewis rhywogaethau a dylunio mewn ardaloedd trefol.

Dywed paragraff 6.4.40 y dylai ceisiadau cynllunio nodi mesurau i gadw, gwarchod ac integreiddio coed a choetiroedd. Os gall y coed wneud cyfraniad sylweddol i'r ardal, dylent gael eu cadw a'u diogelu.

Dywed paragraff 6.4.41 y dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd gydnabod pwysigrwydd coed yng nghefn gwlad ac y dylent ystyried ffyrdd cadarnhaol o gadw coed gwledig.

Caiff pwysigrwydd cadw coed ei bwysleisio ymhellach ym mharagraff 6.4.42. Ni chaniateir gwaredu coed a choetiroedd yn barhaol oni bai y byddai hynny'n sicrhau buddion cyhoeddus sylweddol a phendant. Os nad oes modd osgoi colled, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr blannu coed fel mesur digolledu. Mae'r paragraff yn mynd yn ei flaen i ddisgrifio lefel y digolledu sy'n ofynnol.

Mae paragraff 6.4.43 yn nodi bod coetiroedd hynafol, coetiroedd lled-naturiol a choed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth unigol yn adnoddau naturiol na all dim gymryd eu lle, a'u bod yn werthfawr o ran tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliant. Dylent gael eu gwarchod rhag gwaith datblygu a fyddai'n golygu eu bod yn dirywio neu'n cael eu colli, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol iawn lle ceir buddion cyhoeddus sylweddol a phendant. Os yw safle wedi'i gofnodi ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol, dylai

awdurdodau lleol ystyried cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylent hefyd roi sylw i'r Rhestr Coed Hynafol.

Yn olaf, mae paragraff 6.4.44 yn darparu y dylai'r gwaith o warchod a phlannu coed gael ei gyflawni, lle bo'n briodol:

- drwy strategaethau a pholisïau penodol i'r ardal leol;
- drwy osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio; a/neu
- drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed.

Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dystiolaeth at Safon Brydeinig 5837 *Trees in Relation to Design, Demolition and Construction: Recommendations*.[141] Cafodd y drafft o fersiwn wedi'i ddiweddaru a'i ddiwygio ei gyhoeddi er mwyn cael sylwadau arno yn 2024. Y bwriad yw y bydd y fersiwn newydd yn fwy dylanwadol ac y bydd ar ffurf Cod Ymarfer yn hytrach na chyfres o argymhellion. Mae'n cynnwys newidiadau sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd mewn tystiolaeth. Er enghraifft, ceir arweiniad manylach ynghylch sut mae asesu a chyfrifo ardaloedd gwarchod gwreiddiau, yn enwedig yng nghyswllt coed hynod a choetir hynafol. Yn ogystal, ceir dull diwygiedig ar gyfer asesiadau o'r modd y mae gwaith adeiladu'n effeithio ar goed, fel eu bod yn ystyried manteision amgylcheddol ehangach megis bioamrywiaeth, cysgod, oeri a lleihau llifogydd.[142]

**5.6 Casgliadau AIDAC ynghylch cynllunio**

Mae AIDAC yn croesawu'r newidiadau diweddar i bolisi cynllunio. Dylent arwain at ymwybyddiaeth well o bwysigrwydd coed a choetir. Yn ein hargymhellion, rydym yn gwneud sawl awgrym ynghylch sut y gallai'r polisi hwn arwain at newidiadau ymarferol.

[141] Gweler Nodyn 136 uchod.
[142] https://www.awatrees.com/2024/09/13/revision-of-bs5837-trees-in-relation-to-design-demolition-and-construction-what-you-need-to-know/#:~:text=Get%20Involved:%20Consultation%20Deadline%20October,is%20issued%2C%20likely%20in%202025

Mae pryderon eraill yn parhau, fodd bynnag. Yn ein barn ni, y pryder pwysicaf ohonynt i gyd yw'r graddau y mae tyfwyr coed[143] ar gael mewn awdurdodau lleol, sydd â chymwysterau a phrofiad addas i'w cynorthwyo gyda'u gwaith ar goed.

Er bod AIDAC yn cymeradwyo dull gweithredu sy'n rhoi pwys penodol ar goed pwysig, ym mha ffordd bynnag y cânt eu diffinio, rydym hefyd yn credu bod yna angen sylfaenol i ystyried pwysigrwydd pob coeden pan gaiff penderfyniadau eu gwneud a fydd yn effeithio arnynt. Am y rheswm hwnnw, rydym yn cynnig y dylai polisi cynllunio gynnwys datganiad i sicrhau, pan fydd datblygiad arfaethedig yn cynnwys bwriad i waredu coed, bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i opsiynau amgen na fyddant yn cynnwys gwaredu coed, er mwyn gallu cadw cynifer o goed ag sy'n bosibl.

**5.7 Argymhellion ynghylch cynllunio**

**Argymhelliad 16: Dylai holl awdurdodau lleol Cymru ystyried Safon Brydeinig 5837 wrth baratoi a gweithredu eu Cynllun Datblygu Lleol.**

**Argymhelliad 17: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru newid polisi cynllunio er mwyn mynnu bod awdurdodau lleol yn ymgynghori â'u harbenigwyr tyfu coed ynghylch unrhyw gais cynllunio y mae ei oblygiadau ar gyfer coed yn sylweddol.**

**Argymhelliad 18: Cyn pen blwyddyn ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru polisi cynllunio er mwyn mynnu bod y sawl sy'n gwneud cais cynllunio yn nodi, mewn cynlluniau ar gyfer datblygiad,**

[143] Nid yw'r drafft o Safon Brydeinig 5837 ddiwygiedig yn cynnwys unrhyw ddiffiniad o dyfwr coed sydd â chymwysterau a phrofiad addas, ac mae hynny wedi arwain at bryderon nad yw'r meini prawf yn ddigon cadarn i sicrhau'r lefel angenrheidiol o broffesiynoldeb. Gweler Nodyn 136 uchod.

**barthau gwarchod gwreiddiau ar gyfer unrhyw goed sydd i'w cadw yn rhan o'r datblygiad dan sylw.**

**Argymhelliad 19: Dylai awdurdodau lleol, wrth baratoi a gweithredu eu Cynllun Datblygu Lleol, roi esboniad manwl o sut y deuir i benderfyniad ynghylch cynigion datblygu sy'n golygu colli coed neu niweidio gwreiddiau coed.**

**Argymhelliad 20: Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn monitro gwaith cwympo coed, os caiff hynny ei gyflawni'n rhan o ddatblygiad.**

**Argymhelliad 21: Rydym yn argymell y dylai'r adolygiad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru gynnwys datganiad i sicrhau, pan fydd datblygiad arfaethedig yn cynnwys bwriad i waredu coed, bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i opsiynau amgen na fyddant yn cynnwys gwaredu coed, er mwyn gallu cadw cynifer o goed ag sy'n bosibl.**

**6 Edrych i'r dyfodol**

Mae coed a choetiroedd yn adnodd hanfodol sy'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'r hinsawdd, cadwraeth dŵr, cadw priddoedd, a chadwraeth bioamrywiaeth, yn ogystal ag i'n lles meddyliol a chorfforol. Mae llawer wedi digwydd ers i'r gwaith ar yr adroddiad hwn ddechrau. Rydym yn falch o weld y lefel uwch o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylcheddol coed a choetiroedd. Mae newidiadau i'r gyfraith ac i bolisi wedi'u gwneud, neu maent yn yr arfaeth, i adlewyrchu hynny.

Ar hyn o bryd, nid oes ffordd y gall rheoleiddwyr asesu'n gywir faint o orchudd coed sy'n cael ei golli bob blwyddyn. Mae esemptiad yn Neddf Coedwigaeth 1967 yn caniatáu i dirfeddianwyr waredu pum metr ciwbig bob chwarter heb fod angen cael trwydded. Gallai hynny olygu gydag amser bod nifer sylweddol o goed yn cael eu torri, ac nid oes ffordd ar hyn o bryd o fonitro effaith yr esemptiad hwn. Nid ydym yn credu bod hynny'n foddhaol.

Yn ein hadroddiad diweddar ynghylch gwrychoedd, gwnaethom argymell y dylid darparu gwarchodaeth gyfreithiol rhag gwaredu ar gyfer pob gwrych, oni chafwyd awdurdod i'w gwaredu. Ar hyn o bryd, dim ond ychydig o goed sy'n mwynhau lefel debyg o warchodaeth. Cafodd trwyddedau cwympo coed eu cyflwyno fel adnodd i reoleiddio coedwigoedd ac nid i warchod yr amgylchedd. Yn yr un modd, cafodd Gorchmynion Cadw Coed eu cyflwyno i warchod coed oherwydd eu gwerth o ran amwynder gweledol, nid oherwydd eu pwysigrwydd i fioamrywiaeth. Mewn egwyddor, mae coed yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau cynllunio, ond nid yw'r diffyg cysylltiad rhwng y gyfundrefn goedwigaeth a'r gyfundrefn gynllunio bob amser yn sicrhau bod y trefniadau diogelu angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd i'w gyflwyno yn 2026 yn cynnwys dwy Weithred Gyffredinol sy'n uniongyrchol berthnasol i goed a choetiroedd.[144] Dan

---

[144] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/7/5/1753433314/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-disgrifiad-or-cynllun.pdf ac mae taflen gryno ar gael yma:

Weithred Gyffredinol 9, bydd yn ofynnol i bob ffermwr sy’n cymryd rhan yn y cynllun gynnal eu coetir presennol yn weithredol yn unol â gofynion rheoli penodol. Dan Weithred Gyffredinol 10, bydd yn ofynnol i bob ffermwr ddatblygu cynllun sy’n nodi cyfleoedd i blannu coed ychwanegol, a bydd disgwyl iddynt weithredu’r cynllun hwnnw maes o law.

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Cyflawni i Randdeiliaid ar gyfer Coed a Gwrychoedd[145], sef grŵp gwirfoddol sydd wedi’i sefydlu i roi cyngor a chymorth i’r Llywodraeth. Ei rôl yw:

- cefnogi gwaith datblygu targedau ar lefel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd a’r adnoddau i’w cyflawni, gan alluogi trafodaeth yn Ford Gron Weinidogol y Cynllun a phenderfyniad gan Weinidogion Cymru;
- cefnogi gwell dealltwriaeth ar draws y sector o ddiben a gwerth targedau ar lefel y Cynllun drwy egluro a hyrwyddo manteision lluosog coed a gwrychoedd ar gyfer y fferm a’r amgylchedd;
- rhoi cyngor ar daflwybrau blynyddol ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd i gefnogi targedau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys tir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a’r tu allan iddo;
- monitro cynnydd yn erbyn y taflwybrau blynyddol, gan wneud argymhellion ar gyfer gweithredu os nad yw’r ddarpariaeth ar y trywydd iawn;
- adolygu a datblygu dealltwriaeth gyffredin o’r rhwystrau i blannu a chymhellion ar gyfer plannu, a gwneud argymhellion ynghylch camau i wneud plannu’n opsiwn deniadol a dichonadwy ar ffermydd Cymru, yn ogystal a’i gwneud yn haws ac yn gyflymach i berchnogion tir a rheolwyr blannu coed a gwrychoedd;
- nodi camau i newid y naratif ar integreiddio coed a gwrychoedd ar ffermydd – gan gydnabod y manteision lluosog y gallant eu cael i fusnesau fferm a’r amgylchedd; ac

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-07/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-taflen-gryno.pdf
[145] https://www.llyw.cymru/grwp-cyflawni-rhanddeiliaid-coed-gwrychoedd-cylch-gorchwyl-html

- ystyried dulliau o sicrhau bod coed a gwrychoedd yng Nghymru yn cael eu cynnal a'u rheoli'n barhaus mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o fanteision lluosog yr adnoddau naturiol hynny.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Coetiroedd Hynafol: cryfhau mesurau i'w diogelu*[146] sy'n egluro ei dull o gyflawni ei hymrwymiad i wneud hynny. Mae atodiad i'r ddogfen yn rhoi adroddiad cryno ynghylch sut y mae sawl gwahanol fesur i warchod coetiroedd hynafol yn gweithio:

- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12
- Y Bil Cynllunio a'r rheoliadau newydd arfaethedig ynghylch Gorchmynion Cadw Coed
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru
- Diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967
- Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Y Cynllun Adfer Coetir[147]
- Y Rhaglen Coedwig Genedlaethol: Y Grant Buddsoddi mewn Coetir[148]
- Y Rhaglen Rhwydweithiau Natur[149]
- Dangosyddion Coetiroedd i Gymru ar gyfer coetir hynafol.[150]

Mae llawer o'r mentrau hyn yn berthnasol i bob coeden, nid dim ond i'r coed sydd mewn coetir hynafol, ac mae'r cyfan yn ddatblygiadau sydd i'w croesawu. Mae'r ffaith bod data'n cael ei gasglu dan ddangosyddion Coetiroedd i Gymru ar gyfer coetiroedd hynafol yn arbennig o galonogol, oherwydd dylai alluogi amcangyfrif realistig o statws coed a choetir hynafol, a fydd yn darparu gwaelodlin ar gyfer monitro ac asesu yn y dyfodol.

[146] https://www.llyw.cymru/coetiroedd-hynafol-cryfhau-mesurau-iw-diogelu
[147] Mae'n darparu tâl i berchnogion coetir adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol ar ôl gwaith cwympo coed oherwydd y clefyd *Phytophora ramorum*.
[148] Mae'n darparu cymorth ariannol i wella coetir presennol sydd â'r potensial i fod yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol.
[149] Mae'n darparu cymorth ariannol i wella cyflwr, cysylltedd a chydnerthedd coetir hynafol os yw'n rhan o'r rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig.
[150] Dyma gynllun i gofnodi data am goed treftadaeth ac am hyd a lled coetiroedd hynafol a nifer y trwyddedau cwympo coed a gymeradwywyd ar gyfer rheoli coetiroedd hynafol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren* ym mis Gorffennaf 2025.[151] Er ei bod yn ymwneud yn bennaf â phren, mae wedi'i hysgrifennu yng nghyd-destun yr angen i gydnabod pwysigrwydd amgylcheddol, ehangach coed a choetir. Mae'n disgrifio'r ystod eang o fanteision y mae coed yn eu cynnig ar wahân i gynhyrchu pren[152]:

- atafaelu a storio carbon
- gwasanaethau ecosystemau
    - gwella bioamrywiaeth
    - cysylltu cynefinoedd
    - sefydlogi pridd a lleihau erydu
    - gwella swyddogaeth pridd o ran hidlo
    - rheoli llif dŵr, sy'n helpu i atal llifogydd
- manteision i iechyd
    - gwella ansawdd aer yn lleol
    - effeithiau oeri
- manteision i iechyd meddwl a llesiant
    - lleoliadau ar gyfer ymarfer corff
    - mynediad i fyd natur
- manteision amaethyddol
    - lloches a chysgod i dda byw
    - ffynhonnell incwm ychwanegol drwy gynaeafu pren a chynhyrchu cynnyrch coedwigaeth nad yw'n bren mewn modd cynaliadwy.

Ceir ymrwymiad i greu coetiroedd, sy'n cynnwys cynyddu arwynebedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.[153] Ar hyn o bryd, caiff yr holl goetir hwn ei reoli'n unol â Safon Sicrwydd Coetir y DU, sy'n safon archwilio gyffredin

[151] Llywodraeth Cymru *Datblygu'r diwydiant pren yng Nghymru: Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren*. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-07/y-strategaeth-ddiwydiannol-ar-gyfer-pren_0.pdf
[152] Ibid, adrannau 1.2.1 ac 1.2.2.
[153] Ibid, adran 1.3.

ar gyfer ardystio'n annibynnol bod coetir yn cael ei reoli'n gynaliadwy.[154] Dywed y Strategaeth y bydd Llywodraeth Cymru, ymhlith pethau eraill:

- yn cefnogi'r gwaith o greu coetiroedd o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r tu allan iddo;
- yn datblygu opsiynau ar gyfer cynyddu maint Ystad Goetir Llywodraeth Cymru;
- yn gweithio gyda Forest Research a Cyfoeth Naturiol Cymru i weld a oes modd defnyddio technegau synhwyro o bell i ddarparu data mwy cywir am y coedwigoedd presennol.[155]

Ceir ymrwymiad hefyd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwybodaeth am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer datgoedwigo, cwympo coed yn anghyfreithlon, a ffyrdd eraill y gwyddys amdanynt o waredu coed ar goetir nad yw'n rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.[156]

Mae'r holl fentrau hyn yn adlewyrchu'r pwyslais sydd bellach yn cael ei roi ar bwysigrwydd amgylcheddol coed a choetiroedd. Er hynny, rydym yn dal i amau a yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod ein coed a'n coetiroedd yn cael eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r fframwaith presennol o ran deddfwriaeth a pholisi'n dameidiog ac yn adlewyrchu diffyg integreiddio, a chaiff gwahanol haenau o warchodaeth eu goruchwylio gan wahanol awdurdodau. Mae hynny wedi arwain at system warchod sy'n rhy gymhleth ac nad yw wedi'i gweithredu bob amser mewn modd cyson.

Rhaid bod y gydnabyddiaeth well a roddir erbyn hyn i bwysigrwydd coed a choetiroedd oherwydd eu gwerth amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn cyd-fynd â dulliau gwell o'u rheoli a'u diogelu. Mae'n hanfodol bod y cyrff sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, yn gallu neilltuo digon o adnoddau i'r gwaith.

---

[154] I gael rhagor o wybodaeth, gweler https://ukwas.org.uk.
[155] Gweler Nodyn 134 uchod, yn adran 1.8.
[156] Ibid.

**Atodiad 1 Cyflwyniadau**

**Y cyflwyniad 1af i AIDAC wedi'i olygu, a ddaeth i law ar 4 Mawrth 2021:**

Mae'r 'pryder' hwn yn ymwneud â'r modd y mae Gorchmynion Cadw Coed, y Ddeddf Coedwigaeth a chyfraith cynllunio yn gweithredu yng Nghymru. Yn fy marn i, nid yw'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn cyflawni'r canlyniad yr oedd yn fwriad iddynt ei gyflawni, ac yn ymarferol cânt eu llesteirio gan y modd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd ac â deddfwriaeth a phrosesau eraill. Mae hefyd yn anodd iawn darganfod sut y caiff y darnau hyn o ddeddfwriaeth eu gweithredu gyda'i gilydd ac a yw apeliadau wedi bod yn llwyddiannus neu beidio, neu a ydynt hyd yn oed wedi'u cyflwyno yn y lle cyntaf, oni bai bod y cyfryngau'n rhoi sylw i achosion.

Er enghraifft, mae Gorchmynion Cadw Coed a thrwyddedau cwympo coed o fewn y Ddeddf Coedwigaeth i fod i warchod coed a choetir a'u hatal rhag cael eu cwympo heb fod ailstocio'n digwydd neu heb gael cymeradwyaeth briodol i waredu coed (a hynny drwy'r broses Gorchmynion Cadw Coed gydag awdurdodau lleol neu drwy Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer trwyddedau cwympo coed a thrwy gael cymeradwyaeth i ddatgoedwigo yn dilyn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol). Yn aml mae cyfraith cynllunio yn anwybyddu'r cyfyngiadau hyn yn llwyr (sy'n amlwg yn effeithio ar y modd y maent yn gweithredu), ond yn ogystal mae datblygwyr yn rheolaidd yn anwybyddu'r rheolau oherwydd bod y risg o gael dirwy yn fach, bod y gost yn fach o'i chymharu â'u helw, a bod modd iddynt apelio i ostwng dirwyon a'u bod yn gwneud hynny. Yn y cyfamser, mae coed a choetiroedd na all dim gymryd eu lle'n ddigonol yn cael eu colli, ac mae targed Llywodraeth Cymru i warchod a chynyddu gorchudd coetir yn cael ei danseilio.

Hyd yn oed mewn achosion megis yr isod sy'n ddifrifol o wael ac a brofwyd mewn llys, cyflwynir apêl yn erbyn y ddirwy ac nid wyf wedi gallu darganfod unrhyw dystiolaeth sy'n dangos beth ddigwyddodd nesaf. Mae dilyn trefn briodol yn bwysig, wrth gwrs,

ond rhaid i ddirwy fod yn ddull digon mawr o atal fel bod modd osgoi'r niwed yn y lle cyntaf. Nid oes modd ailblannu coetir a choed aeddfed yn sydyn; maent yn cymryd degawdau i dyfu ac mae eu colli'n aml yn golygu bod y pridd ac ecoleg y coetir yn cael eu diraddio'n sylweddol.

https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50061303

https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/enzo-homes-swansea-redwood-appeal-19560320

Yn ogystal, rwyf wedi clywed gan staff coedwigaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru ac mewn sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol nad yw'r dirwyon am weithredu'n groes i'r Ddeddf Coedwigaeth yn ddulliau atal digonol, a phan fyddant yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus (nad yw'n digwydd yn aml iawn), bod y dirwyon yn cael eu gostwng yn rheolaidd yn dilyn apêl neu'n cael eu tanseilio gan broses afresymol o ddrud yn y llys, sy'n golygu nad yw'n gwneud synnwyr yn ariannol i Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi'r rheolau. Er enghraifft, mae'r achos isod yn achos diweddar a ddygwyd yng Nghymru, lle cafodd nifer arbennig o fawr o goed a oedd wedi hen ymsefydlu eu cwympo. Erlyniwyd y sawl dan sylw'n llwyddiannus, ond clywais fod y ddirwy wedi'i gostwng yn sylweddol yn dilyn apêl, er nad wyf yn gallu dod o hyd i unrhyw wybodaeth gyhoeddus am hynny.

https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-41279069

Nid yw hynny'n cynnwys yr achosion lle mae cyfraith cynllunio yn drech na'r darnau hyn o ddeddfwriaeth er budd datblygu'n lleol, heb ystyried unrhyw safbwynt cenedlaethol. Mae Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sôn am ddulliau gweithredu hirdymor a chynaliadwy sy'n sicrhau cydbwysedd o ran

canlyniadau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae arnom angen i gyfraith a pholisi amgylcheddol fod yn gydlynol ac i ddatblygwyr sy'n camweithredu gael eu plismona'n effeithiol. Yn ogystal, mae angen i ni roi grym i reoleiddwyr a sicrhau bod awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel un, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Nid oes gen i lawer o ffydd yn y broses interim hon – mae'n gam mawr yn ôl o sefyllfa'r UE lle mae modd cyflwyno dirwyon am droseddau ac ymchwilio'n weithredol i gwynion. Fodd bynnag, roeddwn yn teimlo ei bod yn werth rhoi cynnig arni, oherwydd mae angen i Lywodraeth Cymru greu cysylltiadau ar sail synnwyr cyffredin rhwng gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth er mwyn cael dull cydgysylltiedig o weithredu ac atal coetir a choed rhag cael eu colli fel bod modd i ychydig o ddatblygwyr wneud elw ar draul y gymuned.

**Yr 2il gyflwyniad i AIDAC wedi'i olygu, a ddaeth i law ar 11 Mai 2021:**

Rwy'n credu bod deddfwriaeth sydd wedi dyddio ym maes coedwigaeth yn llesteirio cadwraeth bywyd gwyllt, oherwydd nid yw awdurdodau trwyddedu'n gallu gwrthod rhoi trwyddedau cwympo coed am resymau'n ymwneud â chadwraeth bywyd gwyllt https://theconversation.com/rare-woodland-wildlife-at-risk-because-of-50-year-old-tree-felling-rules-107535

Mae adran 10 2c Deddf Coedwigaeth 1967 yn berthnasol i'r Alban. Dylai Cymru naill ai fabwysiadu 2c neu gyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n ymdrin â'r agwedd hon.

**10 Application for felling licence and decision of Commissioners thereon.**

(1) An application for a felling licence may be made to the [F91 appropriate forestry authority] in the prescribed manner by a person having such an estate or interest in the land on which the trees are growing as enables him, with or without the consent of any other person, to fell the trees.

(2) Subject to the provisions of this Act (and, in particular, to their duty to take advice under section 37(3), the [F91 appropriate forestry authority] may on any such application grant the licence, or grant it subject to conditions, or refuse it, but shall grant it unconditionally except in a case where it appears to them to be expedient to do otherwise—

(a) in the interests of good forestry or agriculture or of the amenities of the district; [F92 or]

(b) for the purpose of complying with their duty of promoting the establishment and maintenance F93. . . of adequate reserves of growing trees. [F94; or ]

[F94 (c) for the purpose of conserving or enhancing the flora, fauna or geological or physiographical features, or the natural beauty or amenity, of any land.]

**Y 3ydd cyflwyniad i AIDAC wedi'i olygu, a ddaeth i law ar 2 Mawrth 2023**

Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â'r diffyg gwarchodaeth a gynigir i goed a choetir gan ddeddfwriaeth a rheoliadau presennol.

Ceir diffyg camau i orfodi deddfwriaeth bresennol (gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol), a'r rheswm a roddir yn aml am hynny yw diffyg adnoddau. Mae hynny'n gysylltiedig â'r diffyg ymateb i ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei hanwybyddu neu'n cael ei gweithredu'n ôl-weithredol pan fo'r niwed i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth wedi'i wneud yn barod. Mae'r esemptiadau'n rhy gyffredinol ac eang ac mae'n hawdd eu camddehongli. Dim ond pan fydd y niwed yn fwy o lawer na'r meini prawf cyfreithiol y bydd erlyniadau'n digwydd, os byddant yn digwydd o gwbl. Mae gwybodaeth am y rheoliadau'n gallu bod yn anghyson. Mae'n bosibl y bydd gweithrediadau niweidiol yn digwydd y tu allan i oriau swyddfa ac na fyddant yn cael eu canfod nes ei bod yn rhy hwyr.

Mae angen addasu deddfau/rheoliadau ynghylch coed ar frys, gan gynnwys yr esemptiadau presennol.

Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn ystyried y carbon a gaiff ei storio mewn pridd coetir neu mewn coed unigol a grwpiau bach o goed ac yn y gymuned gysylltiedig a rhyng-gysylltiedig o ran pridd. Mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth yng ngoleuni'r argyfwng presennol o ran newid hinsawdd ac ecoleg, lle mae'r tymheredd yn codi'n gyflymach nag a ragwelwyd yn flaenorol. Mae angen hefyd iddi ystyried y niwed cynyddrannol i gynefinoedd a'r modd y maent yn cael eu darnio, yn sgil gwaredu coed unigol neu niferoedd bach o goed gan bwyll bach (sydd felly'n cyd-fynd â'r gyfraith fel y mae), tra mae effaith gronnol hynny'n fwy o lawer, o ran bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystemau, a storio carbon.

Mae corff sylweddol o dystiolaeth, sy'n amlygu'r angen am ddeddfwriaeth a rheoliadau ynghylch rheoli a gwarchod coed a choetir, wedi'i ddarparu gan adroddiadau diweddar sy'n crynhoi cyflwr coed a choetir yng Nghymru a'r DU. Mae'r holl adroddiadau hynny'n amlygu cyflwr ecolegol gwael coed a choetir a'r canlynol:

Welsh Government SMR2: Wild Birds WAG cross compliance with Wildlife and Countryside Act 1981.

Tree Preservation Orders (for amenity value)

NRW Tree Felling Licences – felling licences (for timber value).

Some woodland is protected as SACs for either the habitat or for specific species eg some bat woodland SACs in Gwynedd and Pembrokeshire.

The Hedgerow Regulations 1997 does sometimes protect **mature trees**, if someone applies to remove the entire hedge, bank and roots and all, but doesn't protect the same trees if only the tree are being felled or as part of "coppicing"

AIDAC IEPAW

**Atodiad 2: Tystiolaeth ysgrifenedig mewn ymateb i Alwad am Dystiolaeth**

Cymdeithas Ddinesig Caerdydd

Coed Cadw

Y Cydffederasiwn Diwydiannau Coetir

Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd

Cyfoeth Naturiol Cymru

RSPB

Mae AIDAC hefyd yn ddiolchgar am y sylwadau ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft, a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.